Mae'r dull adolygu hwn yn cydymffurfio â'r ESG

Cais am bwerau dyfarnu graddau ymchwil

Prifysgol Wrecsam

Yr adroddiad terfynol

Mawrth 2024

Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg

Cynnwys

Yr adroddiad hwn **1**
Cyflwyniad **2**
Crynodeb gweithredol **4**
Cyflawni cyfrifoldebau ar ôl derbyn pwerau dyfarnu graddau a addysgir 4
Meini prawf ar gyfer rhoi pwerau dyfarnu graddau ymchwil 12
Crynodeb i gloi 13
Penderfyniad y Cyfrin Gyngor 14
Gwybodaeth allweddol am Brifysgol Wrecsam **15**
Ynghylch Prifysgol Wrecsam **16**
Esboniad o'r canfyddiadau **18**
Maen prawf A: Llywodraethu a rheolaeth academaidd **19**
Maen prawf A1 19
Maen prawf B: Safonau academaidd a sicrhau ansawdd **29**
Maen prawf B1 29
Maen prawf B2 33
Maen prawf B3 39
Maen prawf B4 44
Maen prawf C: Ysgolheictod ac effeithiolrwydd pedagogaidd staff academaidd **50**
Maen prawf C1 50
Maen prawf Ch: Yr amgylchedd sy'n ategu'r gwaith o gyflwyno rhaglenni addysg uwch a addysgir **55**
Maen prawf Ch1 55
Craffu'n fanwl ar dystiolaeth i gefnogi'r meini prawf ychwanegol ar gyfer pwerau dyfarnu graddau ymchwil **63**
Maen prawf 1 63
Maen prawf 2 70
Maen prawf 3 74

Cydymffurfiad â'r ESG

Mae'r Safonau a Chanllawiau ar gyfer Sicrhau Ansawdd yn Ardal Addysg Uwch Ewrop (ESG) yn darparu'r fframwaith ar gyfer trefnau sicrhau ansawdd mewnol ac allanol yn Ardal Addysg Uwch Ewrop. Mae dulliau adolygu QAA yn cydymffurfio â'r safonau hyn, ac felly hefyd yr adroddiadau a gyhoeddir gennym. Mae rhagor o wybodaeth i'w gweld ar ein gwefan.

Yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu canfyddiadau tîm a benodwyd gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA) i weithredu proses o graffu'n fanwl ar gais gan Brifysgol Wrecsam ('y Brifysgol') am y pŵer i ddyfarnu graddau ymchwil.

Mae Adran 76 *Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992* ac Adran 48 *Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Yr Alban) 1992* yn grymuso'r Cyfrin Gyngor i ddynodi bod sefydliad addysg uwch yn gymwys i gyflwyno dyfarniadau: mewn geiriau eraill, i ddyfarnu ei raddau ei hun. Wrth ystyried ceisiadau am bwerau dyfarnu graddau, mae'r Cyfrin Gyngor yn ceisio cyngor gan weinidog priodol llywodraeth gwlad benodol y DU sy'n gyfrifol am faterion addysg uwch. Yn ei dro, mae'r Gweinidog yn ceisio cyngor gan QAA.

Mae'n rhaid i'r ymgeiswyr am bwerau dyfarnu graddau ymchwil (pwerau DGY) fodloni'n barod, a pharhau i fodloni, y meini prawf ar gyfer pwerau dyfarnu graddau a addysgir (pwerau DGA).

Yng Nghymru, ystyrir ceisiadau o'r fath yn erbyn y meini prawf a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ar 1 Medi 2004.[1]

Wrth gynghori ar geisiadau, mae QAA yn cael ei thywys gan y meini prawf perthnasol a'r gofynion o ran tystiolaeth ategol. Goruchwylir gwaith QAA yn y maes hwn gan ei Phwyllgor Cynghori ar Bwerau Dyfarnu Graddau (Pwyllgor PCBDG), sy'n is-bwyllgor i Fwrdd QAA.

Ar y cychwyn, ystyrir pob cais gan y Pwyllgor PCBDG i benderfynu a yw'r ymgeisydd wedi cyflwyno achos sy'n addas i'w symud ymlaen at y broses o graffu'n fanwl ar y cais a'r dystiolaeth y mae wedi ei seilio arni. Os yw'n fodlon ynghylch y mater hwn, bydd y Pwyllgor PCBDG yn penodi tîm i weithredu'r broses graffu a pharatoi adroddiad, gan alluogi i'r Pwyllgor PCBDG benderfynu ar natur yr argymhelliad y bydd yn ei wneud i Fwrdd QAA.

Bydd timau craffu'n cynhyrchu adroddiadau yn dilyn pob un o'r ymgysylltiadau a wnaed. Mae'r adroddiad terfynol yn adlewyrchu canfyddiadau'r tîm ac mae wedi ei strwythuro o amgylch y pedwar prif faen prawf sydd wedi eu cynnwys ym meini prawf 2017 ar gyfer pwerau DGA a thri maen prawf ar gyfer pwerau DGY.

Os bydd y Bwrdd yn ei gymeradwyo, bydd QAA yn rhoi ei chyngor i'r gweinidog priodol. Mae'r cyngor hwn wedi ei ddarparu fel mater cyfrinachol. Bydd y Gweinidog yn penderfynu a ddylid ei ddatgelu i'r ymgeisydd. Mae'r penderfyniad terfynol am gais a hysbysiad y penderfyniad hwnnw'n fater i'r Cyfrin Gyngor.

[1] Pwerau dyfarnu graddau: canllawiau a meini prawf i ymgeiswyr | LLYW.CYMRU

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o waith a chanfyddiadau'r tîm craffu ('y tîm') a benodwyd gan QAA i adolygu'r dystiolaeth yn fanwl sydd wedi ei chyflwyno gan Brifysgol Wrecsam ('y Brifysgol') i ategu ei chais am bwerau dyfarnu graddau ymchwil (pwerau DGY).

Ystyriwyd y cais gan y Pwyllgor Cynghori ar Bwerau Dyfarnu Graddau yn QAA ym mis Tachwedd 2022 pan gytunodd y Pwyllgor i symud ymlaen i'r broses fanwl o graffu ar y cais.

Dyma aelodau'r tîm a benodwyd i wneud y broses graffu fanwl:

Enw: Yr Athro Jeremy Bradshaw
Sefydliad: Cyn-ddirprwy Is-Ganghellor, Prifysgol Caerfaddon
Rôl yn y tîm craffu: Adolygwr yn y broses graffu PDG

Enw: Yr Athro David Gardner
Sefydliad: Athro mewn Ffisioleg, Prifysgol Nottingham
Rôl yn y tîm craffu: Adolygwr yn y broses graffu PDG

Enw: Mrs Alison Jones
Sefydliad: Pennaeth Rheoli Ansawdd Academaidd, Prifysgol Salford
Rôl yn y tîm craffu: Adolygwr yn y broses graffu PDG

Enw: Dr Cara Molyneux
Sefydliad: Ysgol Reolaeth Prifysgol Caerhirfryn
Rôl yn y tîm craffu: Adolygwr sy'n fyfyriwr yn y broses graffu PDG

Cafodd y broses graffu fanwl ei rheoli gan Dr Judith Foreman ar ran QAA.

Yn ystod y broses graffu, bu'r tîm yn darllen amrywiaeth eang o ddogfennau a gyflwynwyd yn rhan o'r dystiolaeth i ategu'r cais, yn cynnwys hunan-ddadansoddiad beirniadol y Brifysgol. Bu'r tîm yn siarad hefyd â nifer o randdeiliaid y sefydliad a buont yn arsylwi cyfarfodydd a digwyddiadau oedd yn berthnasol i'r cais. Mae'r adroddiad terfynol hwn yn adlewyrchu canfyddiadau'r tîm ac mae wedi ei strwythuro o amgylch y meini prawf sydd wedi eu cynnwys ym meini prawf 2017 ar gyfer pwerau DGY.[2]

Cychwynnodd y broses graffu fanwl ym mis Ionawr 2023, a rhoddwyd adroddiad terfynol amdani i'r Pwyllgor Cynghori ar Bwerau Dyfarnu Graddau ym mis Ebrill 2024. Roedd ystyriaeth y Pwyllgor o adroddiad y tîm a'r sylwadau a gafwyd gan y Brifysgol yn canolbwyntio ar y cwestiwn a yw'r meini prawf sydd wedi eu hamlinellu yng nghyhoeddiad Llywodraeth Cymru, 'Ceisiadau i roi pwerau dyfarnu graddau: canllawiau a meini prawf ar gyfer ymgeiswyr yng Nghymru (2017)' wedi eu bodloni, a daeth i'r casgliad y dylai'r cais gael ei ohirio am gyfnod o flwyddyn. Y rheswm am hyn oedd bod aelodau'r Pwyllgor o'r farn, er bod nifer o agweddau cadarnhaol yn adroddiad y tîm a bod y rhan fwyaf o'r meini prawf wedi eu bodloni, nid oedd tystiolaeth ddigonol i gadarnhau bod Maen prawf A1 a Maen prawf B2 wedi eu bodloni. Wrth ystyried adroddiad y tîm, nododd aelodau'r pwyllgor y byddai tystiolaeth ychwanegol i gefnogi'r meini prawf hyn ar gael yn dilyn yr Adolygiad Gwella Ansawdd (Adolygiad GA) o'r Brifysgol sydd i gael ei gwblhau ym mis Chwefror 2025 ac a allai hysbysu ystyriaeth y Pwyllgor PCBDG o'r cais ymhellach. Cytunwyd rhwng y Brifysgol, Medr a QAA y byddai'r tîm adolygu sy'n gwneud yr Adolygiad GA yn ystyried, yn rhan o'r broses Adolygiad GA, a yw'r cynllun gweithredu 'Ymchwiliad i Bryderon' (sydd ar

[2] Mae'r meini prawf ar gyfer pwerau DGA a phwerau DGY ar gael ar: Pwerau dyfarnu graddau: canllawiau a meini prawf i ymgeiswyr | LLYW.CYMRU

gael yn Saesneg yn unig) a luniwyd mewn ymateb i ganfyddiadau'r Ymchwiliad i Bryderon a wnaethpwyd ym mis Ionawr 2023 wedi cael ei gyflawni'n llwyddiannus.

Cytunodd y pwyllgor gyfarfod eto wedi i'r cyfnod o flwyddyn o ohiriad ddod i ben a derbyn y dystiolaeth ychwanegol. Yn ei ohebiaeth i'r Brifysgol (Mehefin 2024) wrth nodi ei benderfyniad, nododd y Pwyllgor yn benodol y dylai canlyniad yr Adolygiad GA a fydd yn digwydd ym misoedd cynnar 2025, wedi'i gyfuno â gwerthusiad cyflawn y Brifysgol o effeithiolrwydd y camau gweithredu a gymerwyd mewn ymateb i ganfyddiadau'r Ymchwiliad i Bryderon, gynhyrchu'r dystiolaeth ychwanegol sy'n angenrheidiol ar y Pwyllgor i benderfynu a yw pob maen prawf wedi ei fodloni ai peidio. Cafodd y dystiolaeth ychwanegol ei derbyn yn fuan ym mis Mehefin 2025, a daeth aelodau'r Pwyllgor yn ôl at ei gilydd yn ddiweddarach y mis hwnnw.

Crynodeb gweithredol

Cyflawni cyfrifoldebau ar ôl derbyn pwerau dyfarnu graddau a addysgir

Maen prawf A: Llywodraethu a rheolaeth academaidd

Maen prawf A1

Mae polisïau'r Brifysgol ar gyfer cynllunio ariannol, sicrhau ansawdd a dyrannu adnoddau'n gydlynol ac yn ymwneud â'i chenhadaeth, nodau ac amcanion ar gyfer addysg uwch. Mae ei gweithgareddau addysg uwch yn cymryd y ddeddfwriaeth berthnasol i ystyriaeth yn llawn, ac mae ei strategaethau, ei pholisïau a'i gweithdrefnau'n cyfateb â Chod Ansawdd Addysg Uwch y DU (Cod Ansawdd y DU) a'r canllawiau cysylltiedig. Mae dogfen sy'n mapio rheoliadau, polisïau a gweithdrefnau'r Brifysgol yn erbyn Cod Ansawdd y DU yn cael ei diweddaru'n flynyddol. Mae cyfeiriadau clir at bwyntiau cyfeirio allanol yn rheoliadau'r Brifysgol, ac yn ei Llawlyfr Ansawdd Academaidd sy'n disgrifio ei gweithdrefnau sicrhau ansawdd.

Mae cenhadaeth a chyfeiriad strategol y Brifysgol ar gyfer addysg uwch yn gydlynol ac wedi eu deall am eu bod yn deillio o ymgynghoriad estynedig â rhanddeiliaid mewnol ac allanol. Mae'r Bwrdd Llywodraethwyr yn deall y cyfeiriad strategol cyffredinol ac yn ei weithredu'n gyson, ac mae hwn wedi sefydlu dangosyddion perfformiad allweddol i fonitro perfformiad yn erbyn amcanion strategol y Brifysgol er mwyn rhoi rhywfaint o sicrwydd lefel uchel i'r Bwrdd fod polisïau academaidd y Brifysgol yn cefnogi'n effeithiol ei chenhadaeth, ei nodau a'i hamcanion ar gyfer addysg uwch.

Mae'r dystiolaeth yn cadarnhau bod eglurder swyddogaeth a chyfrifoldeb ar bob lefel yn y Brifysgol mewn perthynas â'i threfnau llywodraethu a rheoli. Cryfhawyd goruchwyliaeth y Bwrdd Llywodraethwyr ar ansawdd a safonau yn ystod y cyfnod craffu wedi i'r Panel Craffu ar Ansawdd a Safonau ddod yn is-bwyllgor llawn i'r Bwrdd Llywodraethwyr o dan ei enw newydd, y Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd.

Mae lefel briodol o arweinyddiaeth academaidd drylwyr a chryf ar waith ar draws darpariaeth addysg uwch gyfan y Brifysgol. Mae'r Brifysgol yn gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth â'i staff, ei myfyrwyr a'i rhanddeiliaid eraill i ddatblygu, gweithredu a chyfleu ei pholisïau a'i systemau academaidd. Mae'r myfyrwyr yn cael eu cynnwys, yn unigol ac ar y cyd, yn y prosesau o lywodraethu a rheoli'r Brifysgol a'i haddysg uwch.

Mae rheoliadau, polisïau, codau ymarfer a systemau'r Brifysgol yn cael eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd. Mae'n adolygu effeithiolrwydd ei threfnau llywodraethu a rheoli'n rheolaidd, ac mae tystiolaeth i ddangos newid yn codi o'r adolygiadau hyn. Yn ei threfn ar gyfer llywodraethu a rheoli materion academaidd, mae systemau ar waith ar gyfer rheoli risgiau academaidd a sicrhau bod safonau academaidd yn ddiogel.

Cychwynnodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ymchwiliad i Brifysgol Glyndŵr Wrecsam a chafodd ei basio i QAA ar 24 Tachwedd 2022 i wneud Ymchwiliad Cam 2 o dan y Broses Ymchwilio Pryderon (Cymru). Yn adroddiad terfynol yr ymchwiliad a roddodd QAA i CCAUC ym mis Mawrth 2023, daeth y tîm ymchwilio i'r casgliad bod problemau difrifol yn bodoli yn ymwneud â gweithrediad aneffeithiol rhannau o'r drefn ar gyfer llywodraethu materion academaidd, ac ar gyfer rheoli trefnau sicrhau ansawdd. Yn yr adroddiad, argymhellwyd y dylid cymryd nifer o gamau gweithredu sy'n perthyn i gwmpas Maen prawf A: Llywodraethu a rheolaeth academaidd. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol: y dylid cymryd camau mewn perthynas â rheoli a goruchwylio partneriaethau, yn enwedig mewn perthynas â chymeradwyo partneriaethau newydd a'r risgiau academaidd cysylltiedig; y dylid cryfhau'r broses o adrodd ar gyfresi data allweddol am lwyddiant y myfyrwyr er mwyn hwyluso goruchwyliaeth fwy

effeithiol ar lefel y sefydliad; y dylid adolygu trefnau rheoli yn ymwneud ag amgylchiadau esgusodol a chryfhau trefniadau adrodd a goruchwylio ar gyfer ceisiadau am amgylchiadau esgusodol, a chwynion ac apeliadau academaidd gan fyfyrwyr; ac y dylai'r Bwrdd Llywodraethwyr barhau i gryfhau ei drefniadau ar gyfer goruchwylio ansawdd a safonau'n effeithiol, gan gynnwys mewn perthynas â phartneriaethau academaidd.

Mae'r Brifysgol wedi datblygu cynllun gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed yn adroddiad yr Ymchwiliad i Bryderon, a chychwynnodd roi camau gweithredu ar waith, yn gynnar yn y broses o graffu ar gais am bwerau dyfarnu graddau (PDG). Mae'r Is-Ganghellor, y Tîm Gweithredol a'r Bwrdd Llywodraethwyr yn goruchwylio ac yn monitro'r camau gweithredu hyn. Yn rhan o'i waith o graffu ar y sail tystiolaeth ehangach mewn perthynas â'r cais am bwerau DGY, bu'r tîm craffu PDG yn adolygu gweithrediad cynllun gweithredu'r Brifysgol, a gwelodd dystiolaeth i ddangos bod newidiadau wedi eu gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad i CCAUC. Mae manylion y newidiadau a'r dystiolaeth o'u gweithrediad wedi eu hystyried yn fanylach ym mhrif gorff yr adroddiad hwn.

Ar sail y dystiolaeth, daeth y tîm i'r casgliad bod y newidiadau'n ymddangos yn briodol ac yn ddigonol i fynd i'r afael â'r diffygion yn y prosesau llywodraethu a rheoli materion academaidd a ganfuwyd yn yr adroddiad i CCAUC. Mae gwerthusiad y Brifysgol o effeithiolrwydd pob cam gweithredu wedi ei amserlennu ar gyfer 2024, a bydd hefyd yn cynnwys elfennau allanoldeb. Er bod y tîm wedi gweld tystiolaeth i ddangos yn glir bod y Brifysgol yn gwneud cynnydd amlwg wrth roi'r cynllun gweithredu ar waith, nododd y tîm nad yw'r cynllun gweithredu wedi ei gwblhau'n derfynol eto a bod angen amser ychwanegol iddo gael ei werthuso ac i sicrhau bod y Brifysgol yn bodloni gofynion Maen prawf A yn llawn.

Fel y nodwyd uchod, cyfarfu'r Pwyllgor CBDG i ystyried y cais ym mis Ebrill 2024 a phenderfynodd ar y pryd i'w ddirymu dros dro hyd nes byddai rhagor o dystiolaeth ar gael mewn perthynas â Maen prawf A. Wrth dderbyn y dystiolaeth ychwanegol ym mis Mehefin 2025, nododd y pwyllgor fod tîm yr Adolygiad GA yn fodlon bod argymhellion yr Ymchwiliad i Bryderon wedi eu cwblhau'n foddhaol ac nad oedd angen gweithredu ymhellach. Hefyd, nododd aelodau'r pwyllgor y byddai cynnydd, o fewn dwy flynedd i'r Adolygiad GA gwreiddiol, yn erbyn unrhyw feysydd sydd o dan ddatblygiad parhaus mewn perthynas â Maen prawf A1 yn cael ei fonitro ac y byddai'r cynllun gweithredu'n cymryd canlyniadau'r Adolygiad GA yn eu blaenau.

Ar sail y canfyddiadau hyn, daeth y Pwyllgor CBDG i'r casgliad bod Prifysgol Wrecsam yn bodloni Maen prawf A.

Maen prawf B: Safonau academaidd a sicrhau ansawdd

Maen prawf B1

Mae fframwaith rheoleiddio priodol yn ei le ar gyfer rheoli'r broses o ddyfarnu cymwysterau a addysgir y Brifysgol. Mae'r rheoliadau ar gyfer dyfarnu credydau a chymwysterau - a'r fframwaith cysylltiedig o bolisïau a gweithdrefnau, sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer cymeradwyo rhaglenni, a derbyn ac asesu myfyrwyr - yn cyfateb â'r Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch Cyrff Dyfarnu Graddau yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon (FHEQ) a Chod Ansawdd y DU.

Yn ystod y cyfnod craffu ar gyfer pwerau dyfarnu graddau, gwnaeth y Brifysgol adolygiad o'i rheoliadau academaidd cyffredinol a'i threfniadau amgylchiadau esgusodol, mewn ymateb i'r argymhelliad a wnaed yn yr adroddiad i CCAUC am yr Ymchwiliad i Bryderon sef bod y Brifysgol yn sicrhau bod ei rheoliadau academaidd yn cael eu gweithredu'n gyson. Cafodd y rheoliadau diwygiedig eu cymeradwyo gan y Bwrdd Academaidd yn ystod y cyfnod craffu. Hefyd, yn ystod y cyfnod craffu, cychwynnodd y Tîm Ansawdd a Rheoliadau waith tymor hirach o adolygu pob un o bolisïau a gweithdrefnau presennol y Brifysgol sy'n atodol i'r Rheoliadau Cyffredinol. Disgwylir y bydd y gwaith hwn wedi ei gwblhau yn ystod 2024.

Ar hyn o bryd, mae'r Brifysgol yn defnyddio rheoliadau Prifysgol Caer, ei chorff dyfarnu, ar gyfer dyfarnu graddau ymchwil ôl-raddedig, ac mae'r dystiolaeth yn cadarnhau bod y rheoliadau wedi eu gweithredu'n llawn ac yn gyson. Wrth baratoi ar gyfer derbyn pwerau DGY, mae'r Brifysgol wedi datblygu rheoliadau priodol ar gyfer trosglwyddo i ddyfarnu ei graddau ymchwil ei hun, ac mae'r rheoliadau hyn wedi derbyn cymeradwyaeth.

Maen prawf B2

Mae gan y Brifysgol systemau clir a weithredir yn gyson ar gyfer diffinio a sicrhau safonau academaidd ei darpariaeth addysg uwch, fel y maent wedi eu disgrifio yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd. Mae gweithdrefnau clir yn eu lle ar gyfer cymeradwyo, adolygu'n gyfnodol, addasu, monitro a chau rhaglenni, defnyddio arholwyr allanol, a gweithio gyda chyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio (cyrff PSRh), er mwyn sicrhau a chynnal safonau academaidd darpariaeth y Brifysgol. Mae'r Brifysgol yn cynnig ei dyfarniadau addysg uwch ar lefelau sy'n cyfateb â'r lefelau perthnasol yn y FHEQ. Mae'n amlwg bod y Brifysgol yn ceisio cyngor gan gymheiriaid allanol a chyrff proffesiynol a statudol i sicrhau bod ei safonau academaidd yn gymaradwy'n barhaus â rhai sefydliadau eraill yn y DU. Mae perthynas amlwg ac agos rhwng y gwaith o gynllunio materion academaidd a phenderfynu sut i ddyrannu adnoddau.

Yn ôl y gweithdrefnau cymeradwyo ac adolygu rhaglenni, mae gofyn i dimau'r rhaglenni a'r panelau cymeradwyo roi ystyriaeth i God Ansawdd y DU, fframweithiau credydau, Datganiadau o Nodweddion, Datganiadau Meincnodi Pwnc, a phwyntiau cyfeirio allanol eraill. Wrth adolygu esiamplau o adroddiadau am ddigwyddiadau dilysu ac adolygu cyfnodol a gynhaliwyd cyn dechrau'r cyfnod craffu, ac wrth arsylwi digwyddiad adolygu cyfnodol ym mis Mai 2023, gwelodd y tîm dystiolaeth i ddangos bod y gweithdrefnau hyn wedi eu gweithredu'n effeithiol.

Yn ystod y cyfnod craffu, cyflwynodd y Brifysgol newidiadau i'w gweithdrefnau cymeradwyo ac adolygu rhaglenni, mewn ymateb i argymhelliad a wnaed yn yr adroddiad i CCAUC am yr Ymchwiliad i Bryderon sef bod y Brifysgol yn sicrhau y rhoddir ystyriaeth lawn i'r holl bwyntiau cyfeirio allanol perthnasol yn ystod y broses o ddatblygu a chymeradwyo rhaglenni. Hefyd, gwnaethpwyd newidiadau i'w threfnau cymeradwyo rhaglenni mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed yn adroddiad yr Ymchwiliad i Bryderon, er mwyn sicrhau y rhoddir ystyriaeth ehangach yn rhan o'r broses gymeradwyo i allu'r partner i ddarparu rhaglenni o'r safon ofynnol.

Ar sail y dystiolaeth oedd ar gael yn ystod y cyfnod craffu, daeth y tîm i'r casgliad bod y newidiadau a weithredwyd gan y Brifysgol yn ei threfnau dilysu ac adolygu rhaglenni'n gredadwy ac y dylent alluogi i'r Brifysgol sicrhau bod ei gweithdrefnau'n cael eu gweithredu'n gyson ac yn cyfateb

â phwyntiau cyfeirio allanol, ar draws ei darpariaeth i gyd. Dylai'r newidiadau hefyd gryfhau'r broses gymeradwyo rhaglenni i roi ystyriaeth fanylach i drefniadau partneriaid ar gyfer darparu rhaglenni. Ond, ni allai'r tîm asesu defnydd cyson y gweithdrefnau diwygiedig hyn a'u heffaith pan ddaeth y cyfnod craffu i ben.

Maen prawf B3

Mae mecanweithiau effeithiol yn eu lle i sicrhau bod y Brifysgol yn cyflawni'r amcanion dysgu a nodwyd ganddi a'r deilliannau a fwriadwyd ganddi, a hynny'n gyson. Mae strategaethau'r Brifysgol ar gyfer datblygu cwricwla, a dysgu ac addysgu, yn cyfateb â gweledigaeth a strategaeth y Brifysgol. Mae'n rhaid i bob cynnig am gwrs newydd ddangos sut maen nhw'n cwrdd ag amcanion dysgu lefel uchel y Brifysgol. Rhoddir gwybod i'r staff am y canllawiau ynghylch polisïau a gweithdrefnau ar gyfer llunio, monitro ac adolygu rhaglenni, a darperir copi iddyn nhw. Mae'r cyfrifoldeb am ddiwygio a gwella cynigion am raglenni newydd wedi ei aseinio'n glir yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd sy'n diffinio'r camau'n glir y mae'n rhaid i gynigion am raglenni newydd basio drwyddynt cyn derbyn cymeradwyaeth derfynol gan y Bwrdd Academaidd. Mae cydlyniad rhaglenni gyda llwybrau amgen yn cael ei werthuso yn ystod y broses o ddilysu rhaglenni. Mae'r dystiolaeth yn dangos y cynhelir cysylltiadau agos rhwng gwasanaethau cymorth dysgu a threfniadau ar gyfer cynllunio, cymeradwyo, monitro ac adolygu rhaglenni. Yn rhan o'r broses gymeradwyo rhaglenni gychwynnol, ystyrir a oes cyfleoedd dysgu digonol i fyfyrwyr sy'n astudio o bell ac adolygir hyn wedyn drwy fonitro blynyddol.

Mae polisïau a gweithdrefnau priodol yn eu lle i sicrhau bod yr arferion asesu'n cyfateb ag amcanion y cyrsiau a'r deilliannau dysgu a fwriedir. Mae arferion asesu'n cael eu cyfathrebu'n glir i'r staff a'r myfyrwyr, ac mae'r dystiolaeth yn cadarnhau eu bod yn cael eu gweithredu yn unol â'r polisïau a nodwyd gan y Brifysgol. Cadarnhaodd yr esiamplau a welwyd gan y tîm o waith y myfyrwyr fod y tasgau asesu wedi galluogi i'r myfyrwyr ddangos i ba raddau y maen nhw wedi cyflawni'r deilliannau dysgu bwriadedig. Mae'r Brifysgol yn gwneud defnydd effeithiol o arholwyr allanol sydd â'r cymwysterau priodol wrth fonitro dibynadwyedd a dilysrwydd trefnau asesu. Mae adroddiadau arholwyr allanol a data am berfformiad y myfyrwyr yn cael eu monitro ar lefelau'r rhaglenni a'r sefydliad ac yn hysbysu datblygiad y rhaglen. Mae'r mecanweithiau clir sy'n diogelu buddiannau'r myfyrwyr yn eu lle i'w defnyddio pan wneir penderfyniad i gau rhaglen neu elfen o raglen.

Maen prawf B4

Mae tystiolaeth sylweddol i ddangos bod y Brifysgol yn cymryd camau effeithiol i hybu cryfderau a mynd i'r afael ag unrhyw wendidau a ganfuwyd. Mae dull y Brifysgol o'i gwerthuso ei hun yn feirniadol er mwyn sicrhau gwelliant wedi ei ddisgrifio yn ei Fframwaith Gwella, sydd wedi ei alinio'n glir â Chod Ansawdd y DU, ac mae myfyrwyr a staff y Brifysgol, yn ogystal â chynghorwyr allanol, cyflogwyr a chyrff proffesiynol, yn cyfranogi yn y gwaith o sicrhau a gwella ansawdd. Mae trefniadau priodol, sydd wedi eu manylu yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd yn eu lle ar lefelau'r rhaglenni a'r sefydliad i adolygu ei pherfformiad ei hun yn feirniadol ac annog gwelliant parhaus, ac mae tystiolaeth i ddangos bod y Brifysgol yn gweithredu mewn ymateb i faterion a godir drwy brosesau monitro ac adolygu mewnol ac allanol. Mae ei threfniadau ar gyfer llunio, cymeradwyo ac adolygu rhaglenni'n defnyddio arbenigedd allanol yn effeithiol, ac mae amrywiaeth o fecanweithiau a gweithgareddau mewnol sy'n hwyluso rhannu arferion da. Mae adolygiadau o drefniadau llywodraethu a rheoli ansawdd academaidd a phrosesau mewnol eraill - megis gweithdrefnau ar gyfer myfyrwyr a phrosesau o gymeradwyo rhaglenni a'u hadolygu'n gyfnodol - yn gweithio'n effeithiol i hybu gwelliant.

Fel y mae wedi ei nodi mewn perthynas â Meini prawf B1, B2 a B3 uchod, cyflwynodd y Brifysgol newidiadau i'w threfniadau sicrhau ansawdd yn ystod y cyfnod craffu, mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad i CCAUC am Ymchwiliad i Bryderon. Nododd yr argymhellion bod pryderon difrifol ynglŷn ag effeithiolrwydd y broses gymeradwyo rhaglenni, y trefniadau ar

gyfer cymeradwyo partneriaid, a chysondeb yng ngweithrediad y rheoliadau academaidd. Ar sail y dystiolaeth, daeth y tîm i'r casgliad bod y newidiadau'n ymddangos yn briodol ac yn ddigonol i fynd i'r afael â'r diffygion a ganfuwyd yn adroddiad yr Ymchwiliad i Bryderon. Mae gwerthusiad y Brifysgol o effeithiolrwydd pob cam gweithredu wedi ei amserlennu ar gyfer 2024, a bydd hefyd yn cynnwys elfennau allanoldeb. Gwelodd y tîm craffu dystiolaeth o gynnydd gan y Brifysgol o ran gweithredu newidiadau i gryfhau'r trefnau rheoli a sicrhau ansawdd. Ond, ni allai'r tîm asesu defnydd cyson y gweithdrefnau diwygiedig hyn a'u heffaith pan ddaeth y cyfnod craffu i ben. Felly, mae angen mwy o amser i ddarparu rhagor o dystiolaeth er mwyn galluogi i'r Brifysgol ddangos ei bod yn bodloni'r gofynion yn llawn sydd wedi eu nodi ym Maen prawf B: Safonau academaidd a sicrhau ansawdd.

Fel y nodwyd uchod, cyfarfu'r Pwyllgor CBDG i ystyried y cais ym mis Ebrill 2024 a phenderfynodd ar y pryd i'w ddirymu dros dro hyd nes byddai rhagor o dystiolaeth ar gael mewn perthynas â Maen prawf B2. Wrth dderbyn y dystiolaeth ychwanegol ym mis Mehefin 2025, nododd y pwyllgor fod tîm yr Adolygiad GA yn fodlon bod argymhellion yr Ymchwiliad i Bryderon wedi eu cwblhau'n foddhaol ac nad oedd angen gweithredu ymhellach. Hefyd, nododd aelodau'r pwyllgor y byddai cynnydd, o fewn dwy flynedd i'r Adolygiad GA gwreiddiol, yn erbyn unrhyw feysydd sydd o dan ddatblygiad parhaus mewn perthynas â Maen prawf B2 yn cael ei fonitro ac y byddai'r cynllun gweithredu'n cymryd canlyniadau'r Adolygiad GA yn eu blaenau.

Ar sail y canfyddiadau hyn, daeth y Pwyllgor CBDG i'r casgliad bod Prifysgol Wrecsam yn bodloni Maen prawf B.

Maen prawf C: Ysgolheictod ac effeithiolrwydd pedagogaidd staff academaidd

Maen prawf C1

Mae'r dystiolaeth yn dangos yn llawn fod gan staff y Brifysgol yr arbenigedd academaidd a phroffesiynol sydd eu hangen i addysgu, hwyluso dysgu a gwneud asesiadau ar gyfer y cymwysterau sy'n cael eu dyfarnu. Mae'n rhaid i ymgeiswyr sydd eisiau cael eu penodi'n aelodau o staff academaidd y Brifysgol ddangos bod ganddynt yr arbenigedd a'r profiad angenrheidiol sy'n gysylltiedig â'r pwnc perthnasol, ar lefelau israddedig ac ôl-raddedig fel ei gilydd, ac mae'n rhaid iddynt dderbyn y cyfrifoldeb am sicrhau eu bod yn parhau i ddiweddaru eu gwybodaeth a'u sgiliau er mwyn bod yn effeithiol yn eu rolau, a chymryd rhan yn y broses o werthuso datblygiad personol y staff. Mae dyrchafiad i safle darllenydd yn gofyn dangos tystiolaeth o gyfraniad nodedig i ddatblygiad maes pwnc, ac mae dyrchafiad i Gadeiryddiaeth Bersonol yn gofyn dangos tystiolaeth o gyfraniad rhyngwladol arwyddocaol a nodedig yn eu maes. Mae'n rhaid i bob aelod o staff sy'n darparu rhaglenni'r Brifysgol mewn sefydliadau partner gael eu cymeradwyo gan y Brifysgol yn gyntaf. Mae'r dystiolaeth yn cadarnhau bod gan bob aelod o'r staff y cymwysterau academaidd a phroffesiynol sy'n berthnasol ac yn briodol i'r lefel y maent yn addysgu arni.

Un o'r camau gweithredu sy'n cael blaenoriaeth yn y Strategaeth Cynorthwyo Dysgu a Chyflawniad Myfyrwyr yw datblygu cwricwlwm sydd wedi ei hysbysu gan ymchwil. I'r perwyl hwn, disgwylir i bob aelod o staff academaidd yn y Brifysgol fod â gwybodaeth a dealltwriaeth o waith ymchwil cyfredol ac ysgolheictod uwch cyfredol yn eu maes pwnc. Mae model dyrannu llwyth gwaith y Brifysgol yn effeithiol o ran caniatáu amser i wneud gwaith ymchwil a gweithgarwch ysgolheigaidd. Mae ymgysylltiad â gweithgareddau darparwyr addysg uwch mewn sefydliadau eraill yn cael ei annog a'i fonitro. Rhoddodd y Brifysgol dystiolaeth eang o'r gwaith ymchwil a gweithgarwch ysgolheigaidd a wneir gan y staff, ymgysylltiad y staff â sefydliadau eraill fel arholwyr allanol ac adolygwyr allanol, yn ogystal â'u cyfranogaeth mewn rhwydweithiau allanol sy'n ymwneud â chymunedau ymchwil, ymarferol, creadigol a phroffesiynol.

Mae cyfleoedd datblygu a gwerthuso ar gael i'r staff er mwyn eu galluogi i ddatblygu a gwella eu cymhwysedd proffesiynol a'u hysgolheictod, ac anogir a chefnogir y staff i ennill cydnabyddiaeth broffesiynol fel Cymrawd Advance HE.

Mae gan yr aelodau o staff sy'n gyfrifol am reoli rhaglenni brofiad perthnasol o lunio cwricwla ac asesu, ac mae'r Brifysgol yn darparu hyfforddiant iddyn nhw i gefnogi eu datblygiad parhaus. Cefnogir pob aelod o'r staff i ddatblygu eu harferion asesu, ac mae tystiolaeth eang o ymgysylltiad y staff mewn adolygu, diwygio a datblygu cwricwla, yn rhan o'r prosesau o lunio a chymeradwyo rhaglenni, eu monitro'n flynyddol a'u hadolygu'n gyfnodol.

Ar sail y canfyddiadau hyn, daeth y Pwyllgor CBDG i'r casgliad bod Prifysgol Wrecsam yn bodloni Maen prawf C.

Maen prawf Ch: Yr amgylchedd sy'n ategu'r gwaith o gyflwyno rhaglenni addysg uwch a addysgir

Maen prawf Ch1

Mae'r dystiolaeth yn dangos bod y seilwaith dysgu ac addysgu, yn cynnwys y trefniadau ar gyfer darparu cymorth i fyfyrwyr a chymorth gweinyddol, yn effeithiol ac yn cael eu monitro. Mae dull y Brifysgol o ddarparu amgylchedd dysgu cefnogol wedi ei ddisgrifio yn y strategaethau allweddol sy'n nodi gweledigaeth glir ar gyfer profiad y myfyrwyr, cyfranogiad y myfyrwyr fel partneriaid, a'r dull o gyflawni'r weledigaeth honno, wedi'i danategu gan ymrwymiad i gefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae'r Pwyllgor Ansawdd Dysgu ac Addysgu (Pwyllgor ADA) yn goruchwylio'r strategaethau hyn, fel y gwelwyd mewn tystiolaeth sy'n cadarnhau bod yno ymgysylltiad â'r strategaethau a'u bod yn cael eu monitro.

Mae tystiolaeth sy'n dangos yn glir fod y gwasanaethau proffesiynol yn cydweithio'n fewnol â'r adrannau academaidd wrth gynllunio, datblygu a gwerthuso gweithgareddau dysgu ac addysgu, a chymorth i fyfyrwyr. Mae deunyddiau cymorth dysgu ar gael sy'n sicrhau bod y myfyrwyr yn gallu cyflawni'r dibenion a nodwyd ar gyfer eu rhaglenni astudio. Mae prosesau effeithiol ar waith ar lefelau'r sefydliad a'r rhaglenni o fonitro a gwerthuso'r seilwaith dysgu, sy'n cynnwys ystyried adborth gan y myfyrwyr, y staff a'r cyflogwyr mewn ffordd systematig.

Mae'r myfyrwyr yn cael eu hymsefydlu'n effeithiol yn eu cyrsiau astudio, ac mae trefniadau yn eu lle i ganfod ac asesu anghenion dysgu unigol ar gam cynnar yn nhaith astudio'r myfyriwr. Mae gan y Brifysgol staff sydd â chymwysterau da i ddarparu ystod o wasanaethau chymorth lles ac iechyd meddwl a gwasanaethau cwnsela, ac i gefnogi myfyrwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac anableddau er mwyn, ymhlith pethau eraill, drafod trefniadau arholi unigol neu wneud cais am Lwfans Myfyrwyr Anabl. Hefyd, darperir cyngor am yrfaoedd a chyflogadwyedd yn ogystal â chyllid myfyrwyr ac arian. Mae'r gwasanaethau'n cael eu monitro a'u gwerthuso, a nodir a gweithredir ar y meysydd sydd angen eu datblygu. Mae amrywiaeth eang o gyfleoedd datblygiad proffesiynol priodol ar gael i'r aelodau hynny o'r staff sy'n ymwneud â chynorthwyo'r Brifysgol i gyflwyno ei darpariaeth.

Mae'r myfyrwyr yn cael gwybod am ganlyniadau eu hasesiadau mewn da bryd, ac mae'r adborth a roddir ar waith a aseswyd yn adeiladol ac yn ddatblygiadol. Mae tystiolaeth yn adroddiadau'r arholwyr allanol i ddangos bod yr adborth a roddir am waith a aseswyd yn briodol, ac mae sylwadau'r myfyrwyr am eu profiad yn dangos lefel uchel o foddhad ar y cyfan gyda'r arferion asesu.

Mae'r systemau gweinyddol yn darparu amrywiaeth o ddata ac adroddiadau am faterion megis cofrestriad, cadwraeth, cynnydd a pherfformiad y myfyrwyr, yn ogystal â boddhad y myfyrwyr, a defnyddir y rhain yn effeithiol i fonitro a gwella profiad y myfyrwyr a chynnal safonau ac ansawdd academaidd. Fel y nodwyd mewn perthynas â maen prawf A, mae'r Brifysgol wedi cyflwyno newidiadau yn ystod y cyfnod craffu i gryfhau adroddiadau data a goruchwyliaeth ar lefelau'r rhaglenni a'r sefydliad. Mae mecanweithiau effeithiol yn eu lle i sicrhau bod y wybodaeth y mae'r Brifysgol yn ei chynhyrchu am ei darpariaeth, yn cynnwys ei dyfarniadau a ddarperir gan ei sefydliadau partner, yn gywir ac yn gyflawn.

Mae mecanweithiau effeithiol ar waith ar gyfer ymdrin yn gyfrinachol â chwynion ac apeliadau academaidd gan fyfyrwyr ar draws darpariaeth gyfan y Brifysgol. Mae cwynion ac apeliadau academaidd yn cael eu dadansoddi ac adroddir arnynt yn y strwythur rheoli materion academaidd. Yn ystod y cyfnod craffu, cyflwynodd y Brifysgol newidiadau i amlder yr adrodd i sicrhau bod ei gwaith o fonitro a goruchwylio cwynion ac apeliadau'n gwbl effeithiol er mwyn gwella ansawdd. Gwelodd y tîm dystiolaeth bod hyn yn digwydd yn eu harsylwadau ac ym mhapurau cysylltiedig cyfarfodydd y Pwyllgor ADA a gynhaliwyd ym misoedd Gorffennaf a Hydref 2023.

Mae strategaethau a pholisïau'r Brifysgol yn nodi ei bod yn ymroddedig i sicrhau cyfle cyfartal, a gwelodd y tîm dystiolaeth sylweddol i ddangos bod yr ymrwymiad hwn wedi ei weithredu yn ei gweithgareddau dysgu ac addysgu, a'i chefnogaeth i'w myfyrwyr. Mae'r cynnydd tuag at gyflawni cyfle cyfartal ac ehangu mynediad i addysg uwch yn cael ei gynllunio a'i fonitro ac mae'r cyfrifoldeb am unrhyw gam gweithredu wedi ei nodi'n glir. Daeth y tîm i'r casgliad bod y Brifysgol yn benderfynol ac yn defnyddio dull gwybodus o feithrin cyfle cyfartal a chynhwysiant i'w staff a'i myfyrwyr ymhob agwedd o weithgareddau'r sefydliad.

Ar sail y canfyddiadau hyn, daeth y Pwyllgor CBDG i'r casgliad bod Prifysgol Wrecsam yn bodloni Maen prawf Ch.

Meini prawf ar gyfer rhoi pwerau dyfarnu graddau ymchwil

Maen prawf 1

Mae gan y Brifysgol brofiad hirsefydlog a llwyddiannus o hyfforddi myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig ers 1976 mewn partneriaeth â Phrifysgol Caer, ei chorff dyfarnu. Yn y cyd-destun hwn, ac mewn cydweithrediad â'i chorff dyfarnu, mae'r Brifysgol wedi datblygu ei pholisïau a'i gweithdrefnau ei hun, ac wedi eu gweithredu'n effeithiol, mewn perthynas â sicrhau bod gan y staff y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r profiad yng nghyswllt gwaith ymchwil ac ysgolheictod uwch sy'n angenrheidiol i hysbysu eu gwaith goruchwylio ac addysgu. Mae effeithiolrwydd dull y Brifysgol wedi ei gadarnhau'n llawn yn y dystiolaeth, sy'n dangos bod cyfrannau sylweddol o staff y Brifysgol yn gyfranwyr gweithgar a chydnabyddedig i gymdeithasau pynciau a chymdeithasau dysgedig, bod ganddynt brofiad diweddar o waith ymchwil mewn sefydliadau eraill, a'u bod yn gallu dangos cyflawniadau sy'n cael eu cydnabod gan y gymuned academaidd ehangach fel rhai sydd â statws cenedlaethol a/neu ryngwladol.

Mae gofynion wedi eu diffinio'n glir ar gyfer derbyn cymeradwyaeth i fod yn oruchwyliwr ar fyfyriwr ymchwil o Brifysgol Caer, ac mae'r Brifysgol wedi datblygu ei meini prawf tebyg ei hun os bydd yn llwyddiannus yn ei chais am bwerau DGY. Nododd y tîm fod dosbarthiad gwaith ymchwil rhwng y ddwy gyfadran wedi ei wyro tuag at Gyfadran y Celfyddydau, Gwyddoniaeth a Thechnoleg, o'i fesur, er enghraifft, yn ôl dosbarthiad y staff sy'n gymwys i gyflwyno gwaith i'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021, y gyfran o'r staff sydd â gradd doethuriaeth, y gyfran o'r athrawon a'r darllenwyr, neu'r gyfran o Brif Oruchwylwyr a Chyd-oruchwylwyr. Y rheswm pennaf am y gwahaniaeth yw bod y gyfran o'r staff sydd â gradd PhD yn is yng Nghyfadran y Gwyddorau Cymdeithasol a Bywyd o'i gymharu â Chyfadran y Celfyddydau, Gwyddoniaeth a Thechnoleg, gan adlewyrchu'r ffaith bod angen nifer uwch o gymwysterau proffesiynol i gefnogi darparu ystod o raglenni sy'n gysylltiedig ag iechyd.

Mae'r Brifysgol wrthi'n cynyddu nifer yr aelodau o staff sy'n gwneud gwaith ymchwil drwy gynllunio ei gweithlu, datblygu ei staff cyfredol, a phenodi staff sydd â gradd doethuriaeth yn barod ac sy'n gallu dangos eu bod yn ymwneud â gwaith ymchwil. Mae'r Pwyllgor Ymchwil, sy'n bwyllgor i'r Bwrdd Academaidd, yn monitro strategaethau ymchwil y cyfadrannau a gweithgareddau'r canolfannau ymchwil, ac mae'r Brifysgol yn parhau i gynyddu nifer y canolfannau ymchwil a'r grwpiau, ar sail meysydd o gryfder.

Mae tystiolaeth i ddangos bod y Brifysgol wedi pasio'r profion yn erbyn pob un o'r meincnodau sydd wedi eu nodi ym Maen prawf 1 ar gyfer pwerau DGY.

Ar sail y canfyddiadau hyn, daeth y Pwyllgor CBDG i'r casgliad bod Prifysgol Wrecsam yn bodloni Maen prawf 1.

Maen prawf 2

Mae'r Brifysgol yn bodloni disgwyliadau'r FHEQ mewn perthynas â lefelau ei rhaglenni gradd ymchwil. Ar hyn o bryd, mae Prifysgol Caer yn gyfrifol am sicrhau bod graddau ymchwil a ddarperir gan y Brifysgol yn cyfateb â'r FHEQ. Mae'r Brifysgol yn gweithio gyda Phrifysgol Caer i wneud yn siŵr bod trefniadau effeithiol yn eu lle ar gyfer sicrhau safonau graddau ymchwil Prifysgol Caer. Defnyddir arholwyr mewnol ac allanol sydd â'r cymwysterau priodol i fonitro bod y rhaglenni ymchwil a'u safonau'n cyfateb â'r fframweithiau cymwysterau. Am ei bod yn disgwyl derbyn pwerau DGY, mae'r Brifysgol wedi cymeradwyo ei fframwaith rheoleiddio priodol ei hun ar gyfer dyfarnu graddau ymchwil ôl-raddedig yn unol â'r FHEQ.

Mae'r Brifysgol yn mapio ei phrosesau'n rheolaidd yn erbyn disgwyliadau Cod Ansawdd y DU a'r canllawiau cysylltiedig, ac mae ei rheoliadau, ei pholisïau a'i gweithdrefnau, gan gynnwys

y rheiny sy'n berthnasol i hyfforddi myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig, wedi eu diffinio yn y cyd-destun hwnnw.

Mae'r dystiolaeth yn dangos bod trefniadau priodol yn eu lle ar gyfer llywodraethu, rheoli a gweinyddu materion academaidd, er mwyn goruchwylio a chynorthwyo gydag addysgu myfyrwyr ymchwil. Mae'r wybodaeth a ddarperir am raddau ymchwil yn eglur ac yn hygyrch i'r myfyrwyr ymchwil a'r staff. Mae amgylchedd cefnogol a chynhwysol ar gael i fyfyrwyr ymchwil, yn ogystal â chyfleoedd datblygiad proffesiynol. Mae'r Brifysgol yn llofnodwr i'r Concordat Datblygu Ymchwilwyr, ac mae ganddi raglen datblygu ymchwilwyr sydd wedi ei mapio yn erbyn Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr y DU. Anogir y myfyrwyr i gymryd rhan mewn amrywiaeth o fforymau a gweithgareddau er mwyn hwyluso rhwydweithio, a rhannu eu profiad, eu gwybodaeth, eu harbenigedd a chanlyniadau eu gwaith ymchwil. Defnyddir adborth gan y myfyrwyr i wella'r amgylchedd ymchwil, a chynrychiolir y myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig ar y Pwyllgor Ymchwil. Mae gan y Brifysgol weithdrefnau hygyrch i'w myfyrwyr ar gyfer cwynion ac apeliadau academaidd, ac mae ei myfyrwyr ymchwil yn eu defnyddio.

Mae gan y goruchwylwyr y sgiliau priodol, ac maent yn derbyn cefnogaeth addas. Mae'r gofrestr o oruchwylwyr a'u llwyth gwaith yn cael eu monitro gan Is-bwyllgor Graddau Ymchwil y Brifysgol sy'n adrodd i'r Pwyllgor Ymchwil. Mae yna raglen sefydledig ar gyfer hyfforddi goruchwylwyr myfyrwyr doethuriaeth sy'n ymwneud â materion megis dethol, cyfweld, derbyn, monitro, trosglwyddo/symud ymlaen ac arholi myfyrwyr. Mae cynnydd y myfyrwyr yn cael ei fonitro'n systematig drwy gyfarfodydd goruchwylio rheolaidd ac adroddiadau blynyddol.

Ar hyn o bryd, nid oes gan y Brifysgol unrhyw ysgoloriaethau a ariennir gan gynghorau ymchwil, ac felly nid oes gofyniad arni i weithredu unrhyw fframweithiau rheoli graddau ymchwil. Am ei bod yn disgwyl i nifer ei myfyrwyr a nifer y grantiau ymchwil gynyddu, mae'r Brifysgol wedi mapio ei phrosesau yn erbyn y canllawiau am grantiau ar gyfer hyfforddiant a'r datganiad o ddisgwyliadau ar gyfer hyfforddiant doethurol, a gyhoeddwyd gan Ymchwil ac Arloesi'r DU. Bu'r tîm yn craffu ar y ddogfennaeth fapio, ac mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn dangos bod gan y Brifysgol bolisïau a gweithdrefnau perthnasol a'i bod yn gallu bodloni'r disgwyliadau a'r canllawiau.

Ar sail y canfyddiadau hyn, daeth y Pwyllgor CBDG i'r casgliad bod Prifysgol Wrecsam yn bodloni Maen prawf 2.

Maen prawf 3

Mae'r Brifysgol wedi llwyddo i sicrhau 258 o gyflwyniadau graddau doethuriaeth i'w myfyrwyr, a ddyfarnwyd drwy ei phrifysgolion partner yn y DU.

Ar sail y canfyddiadau hyn, daeth y Pwyllgor CBDG i'r casgliad bod Prifysgol Wrecsam yn bodloni Maen prawf 3.

Crynodeb i gloi

Mae'r dystiolaeth yn dangos bod gan y Brifysgol ddulliau o adolygu ei pherfformiad ei hun yn feirniadol, a'i bod yn mynd i'r afael ag unrhyw wendidau a ganfyddir ac yn adeiladu ar ei chryfderau. Mae mecanweithiau eglur ar lefelau'r sefydliad a'i raglenni ar gyfer craffu ar ei ddarpariaeth academaidd a'i monitro, drwy adolygu rhaglenni'n flynyddol a pharatoi adroddiadau monitro i'w bwyllgorau llywodraethu ac ymgynghori. Mae'r Brifysgol yn ceisio syniadau ac arbenigedd yn rhagweithiol o'r tu mewn a'r tu allan i'r sefydliad, ac yn gweithredu mewn ymateb iddyn nhw, ac mae'n cynnwys ei staff, ei myfyrwyr, arholwyr allanol, cyflogwyr a chynghorwyr o'r diwydiant yn y gwaith o ddatblygu'r arferion dysgu, addysgu ac asesu, a'r cwricwlwm.

Mae cymuned academaidd gydlynol, sydd wedi ei galluogi drwy strategaethau corfforaethol, sy'n disgrifio'n eglur beth yw'r weledigaeth ar gyfer y ddarpariaeth addysg uwch a beth yw ei diben ar sail egwyddorion craidd i lywio arferion academaidd a datblygiad cwricwla. Mae strwythurau ymgynghorol sydd wedi eu diffinio'n glir yn hwyluso trafod a rhannu syniadau. Tynnir staff at ei gilydd fel aelodau o bwyllgorau a grwpiau academaidd, maen nhw'n cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu strategaethau a pholisïau, ac maen nhw'n cael eu cefnogi er mwyn sicrhau eu bod yn gymwys i addysgu a chynorthwyo dysgu ar y lefel ofynnol. Mae'r myfyrwyr yn cael eu cynnwys yn effeithiol yn aelodau o'r gymuned academaidd drwy gymryd rhan mewn pwyllgorau ymgynghori a rhoi adborth ar eu profiadau. Mae'r cyfrifoldeb am safonau academaidd ac ansawdd wedi ei ddiffinio'n glir yn y trefnau ar gyfer llywodraethu a rheoli materion academaidd, a gwelodd y tîm dystiolaeth o arferion goruchwylio a gweithredu effeithiol i gynnal ansawdd a safonau ar lefelau'r rhaglenni a'r sefydliad. Mae'r Brifysgol yn gwneud defnydd priodol o arholwyr allanol mewn asesiadau ac i gadarnhau bod y safonau wedi eu bodloni, ac mae'n ymateb yn systematig i sylwadau ac argymhellion yr arholwyr allanol ar gyfer gwella. Mae tystiolaeth sy'n dangos bod y sefydliad yn goruchwylio sylwadau gan arholwyr allanol yn effeithiol, a'i fod yn cymryd camau gweithredu i ymateb iddyn nhw.

Yn ystod y cyfnod craffu, cyflwynodd y Brifysgol newidiadau i'w threfniadau llywodraethu a rheoli ansawdd academaidd, mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed gan QAA yn ei hadroddiad i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) am yr Ymchwiliad i Bryderon a ddaeth i'r casgliad bod problemau difrifol yn bodoli mewn perthynas â'r safonau academaidd a'r trefnau sicrhau ansawdd, ac effeithiolrwydd y strwythur llywodraethu. Daeth y tîm i'r casgliad bod y newidiadau y mae'r Brifysgol wrthi'n eu cyflwyno'n ymddangos yn briodol ac yn ddigonol i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd yn yr adroddiad i CCAUC, ac y bydd y newidiadau hyn yn cryfhau gallu'r Brifysgol i atal, canfod a mynd i'r afael â'r diffygion a'r gwendidau a ganfuwyd yn y prosesau sicrhau ansawdd, rheoli a llywodraethu. Yn ystod y cyfnod craffu, gwelodd y tîm dystiolaeth i ddangos bod goruchwyliaeth y llywodraethwyr ar ansawdd a safonau wedi ei chryfhau'n effeithiol pan ddaeth y Panel Craffu ar Ansawdd a Safonau'n is-bwyllgor llawn i'r Bwrdd Llywodraethwyr o dan ei enw newydd, y Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd, ac roedd y tîm yn arsylwi cyfarfodydd y Bwrdd Academaidd a'r Bwrdd Llywodraethwyr lle cafodd eitemau oedd ar eu hagendâu eu craffu a'u trafod yn fanwl. Hefyd, gwelodd y tîm dystiolaeth eang o'r gwaith o gymeradwyo a gweithredu trefnau sicrhau ansawdd newydd a diwygiedig. Er bod y Brifysgol wedi gwneud cynnydd, ac yn parhau i wneud cynnydd o ran cymryd camau i fynd i'r afael â'r gwendidau a ganfuwyd, nid oedd effeithiolrwydd y newidiadau sydd wrthi'n cael eu gweithredu wedi cael ei brofi eto pan ddaeth y cyfnod craffu i ben. Byddai gwaith profi o'r fath yn darparu rhagor o dystiolaeth i alluogi i'r Brifysgol ddangos ei bod yn arfer stiwardiaeth briodol ar ei phwerau dyfarnu graddau a'i bod yn bodloni pob un o'r meini prawf gofynnol.

Penderfyniad y Cyfrin Gyngor

Penderfynodd y Cyfrin Gyngor roi pwerau dyfarnu graddau ymchwil i Brifysgol Wrecsam o 4 Mawrth 2026 ymlaen.

Gwybodaeth allweddol am Brifysgol Wrecsam

Enw cyfreithiol y darparwr	Prifysgol Wrecsam / Wrexham University
Enw masnachu'r darparwr	Prifysgol Wrecsam / Wrexham University
UKPRN	10007833
Y math o sefydliad	Prifysgol
Y dyddiad y sefydlwyd y darparwr	2008
Y dyddiad y darparwyd addysg uwch am y tro cyntaf	1975
Y llwybr ymgeisio	Pwerau llawn i ddyfarnu graddau
Lefel y pwerau y gwneir cais amdanynt	Pwerau dyfarnu graddau ymchwil (pwerau DGY) hyd at, ac yn cynnwys, lefel 8
Y maes/meysydd astudio y gwneir cais amdano/amdanynt	Pob maes astudio
Y pwerau sydd gan y darparwr ar hyn o bryd	Pwerau dyfarnu graddau a addysgir (pwerau DGA) hyd at, ac yn cynnwys, lefel 7
Y dyddiad y dyfarnwyd y pwerau presennol	2008
Y lleoliadau addysgu/darparu	Plas Coch; Stryt y Rhaglaw
Y nifer o raglenni a ddarparwyd yn 2022, yn ôl y ffurflen wybodaeth am y darparwr	172 o raglenni gradd baglor 157 o raglenni gradd meistr 13 o raglenni Gradd Sylfaen 2 raglen Cenedlaethol Uwch (HNC) 1 rhaglen Tystysgrif Addysg (Cert Ed) 3 rhaglen Diploma Addysg Uwch (Dip HE) 4 rhaglen Diploma i Raddedigion 2 raglen Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) 2 raglen Tystysgrif Addysg Broffesiynol i Raddedigion (TBAR) rhaglen MPhil a rhaglen PhD
Y nifer o fyfyrwyr cofrestredig yn 2021-22, data'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)	Myfyrwyr israddedig: 3,205 llawn amser; 4,285 rhan amser Myfyrwyr ymchwil: 25 llawn amser; 45 rhan amser
Y nifer o staff cyflogedig yn 2022-23, data'r HESA	Staff academaidd: 145 llawn amser; 80 rhan amser
Y trefniadau cyfredol â chorff dyfarnu graddau	Prifysgol Caer, Prifysgol Cymru

Ynghylch Prifysgol Wrecsam

Sefydlwyd gwreiddiau Prifysgol Wrecsam pan gyfunwyd Coleg Technegol Sir Ddinbych, Coleg Hyfforddi Athrawon Cartrefle a Choleg Celstryn i greu Athrofa Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru (NEWI) yn 1975. Yn 2004, ymunodd NEWI â strwythur ffederal Prifysgol Cymru. Sefydlwyd Prifysgol Glyndŵr ar 3 Gorffennaf 2008 yn dilyn cais llwyddiannus am bwerau DGA, pan ddyfarnwyd teitl prifysgol i NEWI gan y Cyfrin Gyngor. Yn 2016, mabwysiadodd y sefydliad yr enw 'Prifysgol Glyndŵr Wrecsam' at ddibenion masnachu, ond cadwodd ei deitl ffurfiol 'Prifysgol Glyndŵr'. Ym mis Chwefror 2023, newidiodd y Brifysgol ei henw ffurfiol i 'Brifysgol Wrecsam' ('Wrexham University' yn Saesneg).

Cenhadaeth y Brifysgol yw "ysbrydoli a galluogi; gan drawsnewid pobl a lleoedd a gyrru llwyddiant economaidd, cymdeithasol a diwylliannol yn ei flaen". Mae ganddi ddwy gyfadran: Cyfadran y Celfyddydau, Gwyddoniaeth a Thechnoleg a Chyfadran y Gwyddorau Cymdeithasol a Bywyd. Mae strwythurau arweinyddiaeth y ddwy gyfadran yn union yr un fath, gyda Deon Gweithredol a gefnogir gan bedwar Deon Cyswllt. Mae'r Is-Ganghellor a'r Tîm Gweithredol yn gyfrifol am reoli'r Brifysgol, gan adrodd i'r Bwrdd Llywodraethwyr. Mae cyfres o bwyllgorau'n ymdrin â materion academaidd a gan y Bwrdd Academaidd y mae'r prif gyfrifoldeb am oruchwylio ansawdd a safonau.

Mae prif gampws y Brifysgol ym Mhlas Coch, Wrecsam, ac o fewn ychydig funudau o gerdded gellir cyrraedd Ysgol y Celfyddydau Creadigol ar Stryt y Rhaglaw. Darperir rhaglenni a addysgir hefyd ym mhentref gwledig Llaneurgain. Mae'r Brifysgol yn rhedeg dau gyfleuster ymchwil a datblygu: Canolfan Dechnoleg OpTIC, a'r Ganolfan Ymchwil a Hyfforddiant Uwch Gyfansoddion.

Un o'r camau gweithredu sy'n cael blaenoriaeth gan y Brifysgol yn ei 'Gweledigaeth a Strategaeth hyd 2025' yw "Datblygu darpariaeth partneriaeth addysgol yn y DU a thramor ar draws amrywiaeth eang o feysydd cwricwlwm". I ddarparu ei dyfarniadau addysg uwch a addysgir, mae'r Brifysgol yn gweithio gyda thri darparwr addysg bellach sy'n darparu addysg uwch, dau sefydliad preifat yn y DU, a 24 o bartneriaid academaidd preifat tramor.

Mae'r Brifysgol wedi bod yn hyfforddi myfyrwyr ymchwil ers 1976. Ar y dechrau, roedd graddau ymchwil ôl-raddedig yn cael eu dyfarnu gan NEWI, wedi eu dilysu gan Brifysgol Salford. Ers 1993 maen nhw wedi cael eu dyfarnu gan Brifysgol Cymru. Yn dilyn uno Prifysgol Cymru i Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, mae Prifysgol Caer wedi bod yn dilysu'r ddarpariaeth i fyfyrwyr ymchwil newydd ers 2015.

Yn 2022, roedd gan y Brifysgol 3,205 o fyfyrwyr llawn amser a 4,285 o fyfyrwyr rhan amser, sef cyfanswm o 5,348 ar sail gyfwerth ag amser llawn. Roedd 25 o fyfyrwyr ôl-raddedig yn astudio'n llawn amser ar gyfer graddau ymchwil, a 45 yn rhan amser, sef cyfanswm o 47.5 ar sail gyfwerth ag amser llawn. Mae'r Brifysgol yn cyflogi 33% o'i myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig fel staff (pump ohonynt ar sail amser llawn a 21 yn rhan amser) Mae ei staff academaidd yn cynnwys 145 o aelodau sy'n gweithio'n llawn amser a 80 yn rhan amser.

Cychwynnodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ymchwiliad i Brifysgol Glyndŵr Wrecsam a chafodd ei basio i QAA ar 24 Tachwedd 2022 i wneud Ymchwiliad Cam 2 o dan y Broses Ymchwilio Pryderon (Cymru). Yn adroddiad terfynol yr ymchwiliad a roddodd QAA i CCAUC ym mis Mawrth 2023, daeth y tîm ymchwilio i'r casgliad bod problemau difrifol yn bodoli. Cyhoeddwyd adroddiad yr ymchwiliad ar wefan CCAUC ym mis Awst 2023. Gwnaeth tîm ymchwilio QAA nifer o argymhellion i gael eu hystyried gan CCAUC a'r Brifysgol. Mewn ymateb i hyn, datblygodd y Brifysgol gynllun gweithredu a gafodd ei gymeradwyo gan CCAUC, a rhoddodd gamau gweithredu ar waith mewn ymateb i argymhellion yr Ymchwiliad i Bryderon yn ystod y cyfnod craffu ar gyfer pwerau DGY. Mae gweithrediad y cynllun gweithredu'n cael ei fonitro yn rhan o fframwaith sicrhau ansawdd CCAUC. Roedd pob un o'r

argymhellion a wnaed yn adroddiad yr ymchwiliad yn ymwneud â materion sy'n berthnasol i'r meini prawf ar gyfer rhoddi pwerau dyfarnu graddau. Mae'r adroddiad hwn yn ystyried y newidiadau a wnaethpwyd gan y Brifysgol o dan ei chynllun gweithredu yn ystod y cyfnod craffu, yn rhan o'r gwaith o asesu'r sail tystiolaeth ehangach a gyflwynwyd i ategu cais y Brifysgol am bwerau DGY.

Esboniad o'r canfyddiadau

I fod yn gymwys i wneud cais am bwerau dyfarnu graddau ymchwil (pwerau DGY), mae'n rhaid i'r ymgeisydd fod â phwerau dyfarnu graddau a addysgir (pwerau DGA) yn barod, gan ddangos ei fod yn parhau i fodloni'r meini prawf sy'n llywio rhoddi pwerau DGA a'i fod yn arfer stiwardiaeth briodol ar y pwerau hynny. Dyma ganfyddiadau'r tîm craffu ('y tîm'):

Yn 2008, derbyniodd Prifysgol Wrecsam bwerau DGA wedi iddi fodloni'r meini prawf sydd wedi eu nodi yn y Canllawiau i sefydliadau sy'n ymgeisio yng Nghymru a Lloegr (Awst 2004).

Maen prawf A: Llywodraethu a rheolaeth academaidd

Maen prawf A1

1 Dyma ddywed y maen prawf hwn:

> *Mae sefydliad a gaiff bwerau i ddyfarnu graddau a addysgir yn cael ei lywodraethu, ei reoli a'i weinyddu'n effeithiol, ac mae ganddo linellau atebolrwydd clir a phriodol ar gyfer ei gyfrifoldebau academaidd. Mae ei reolaeth ariannol yn gadarn ac mae perthynas glir yn bodoli rhwng ei bolisi ariannol a'i drefniadau ar gyfer diogelu ansawdd a safonau ei ddarpariaeth o ran addysg uwch. Yn achos sefydliad nad yw'n sefydliad addysg uwch yn bennaf, mae ei brif weithgareddau'n gydnaws â'r gwaith o ddarparu rhaglenni a dyfarniadau addysg uwch.*

2 Cenhadaeth y Brifysgol yw "ysbrydoli a galluogi; gan drawsnewid pobl a lleoedd a gyrru llwyddiant economaidd, cymdeithasol a diwylliannol yn ei flaen". Dyma ei gwerthoedd: darparu dysgu hygyrch i'w myfyrwyr, ei staff a'i chymuned; cefnogi ei dysgwyr, ei staff a'i rhanbarth ehangach, gan gynnwys y diwydiant a rhanddeiliaid eraill; bod yn arloesol yn ei dulliau o gyflenwi a rheoli darpariaeth academaidd a gwasanaethau proffesiynol, ac yn ei pherthynas â'i phartneriaid cydweithredol a rheoleiddiol; a bod yn uchelgeisiol mewn perthynas â'r hyn y mae'n bwriadu ei gyflawni i'w myfyrwyr, ei staff a'i phartneriaid. Mae'r Brifysgol yn disgrifio ei hamcanion strategol yn y pedwar parth a ganlyn - addysgu, ymchwil, ymgysylltu, a strwythur. Yn sail i bob parth mae cyfres gynhwysfawr o ddogfennau strategol clir gyda dangosyddion perfformiad allweddol ac amcanion a gweithredoedd treigl sy'n cael blaenoriaeth a gymeradwywyd gan y Bwrdd Academaidd a'r Bwrdd Llywodraethwyr. Mae pob strategaeth yn nodi'r dyddiad pan wnaethpwyd ei hadolygiad diweddaraf a'r dyddiad pan fydd yr adolygiad nesaf yn ofynnol. Yn ddiweddar, i adlewyrchu diffiniad y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil o waith ymchwil 3*, mae'r Brifysgol wedi diweddaru geiriad y 'datganiad ymchwil' sy'n rhan o'i chenhadaeth, fel a ganlyn: "Ymchwil sy'n trawsnewid; cefnogi arloesi, dysgu a thwf economaidd, drwy fod yn rhagorol yn rhyngwladol o ran gwreiddioldeb, arwyddocâd a thrylwyredd".

3 Mae'r Strategaeth Cynorthwyo Dysgu a Chyflawniad Myfyrwyr yn cyfateb yn agos ac yn eglur â gweledigaeth a strategaeth y Brifysgol. Mae'n nodi'n glir y bydd y strategaeth yn "hysbysu gwaith y cyfadrannau o gynllunio a dyrannu adnoddau, yn cynnwys mewn perthynas â recriwtio myfyrwyr i raglenni academaidd a sicrhau eu cynaliadwyedd", ac yn "gyrru'r gwaith o ddatblygu'r dulliau addysgol sy'n ofynnol i hwyluso darparu cwricwla hyblyg, hygyrch, cynhwysol ac iach yn rhan o Fframwaith Dysgu Gweithredol y Brifysgol". Yn yr un modd, mae'r Strategaeth Ystadau ac Amgylchedd Dysgu, y Strategaeth Digidol, a'r Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol yn cyfateb â'r weledigaeth a'r gwerthoedd craidd y mae'r Brifysgol wedi eu nodi yn ei Gweledigaeth a Strategaeth, drwy roi ystyriaeth eglur i'r gwerthoedd craidd a'r themâu strategol a nodi blaenoriaethau a chamau gweithredu i gefnogi darpariaeth y gwerthoedd a'r strategaeth.

4 Mae'r Strategaeth Cyllid yn darparu canllawiau i'r arweinyddiaeth ar wneud penderfyniadau, mewn aliniad â Gweledigaeth a Strategaeth y Brifysgol ac, yn arbennig, i gefnogi'r flaenoriaeth strategol 'strwythur sy'n cynnal'. Ei nod yw sicrhau cynaliadwyedd ariannol y Brifysgol. Mae'n cynnwys arweiniad lefel uchel ynghylch risgiau ariannol a chamau i'w lleihau er mwyn sicrhau bod unrhyw risgiau ariannol sy'n gysylltiedig â gweithgareddau'r Brifysgol yn cael eu cyfathrebu a'u rheoli'n briodol.

5 Yng nghofnodion y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid, sy'n cofnodi ystyriaeth reolaidd i'r dangosyddion perfformiad allweddol corfforaethol, yn ogystal ag aliniad agos â'r strategaethau a dyrannu adnoddau, mae tystiolaeth i ddangos bod y polisïau ar gyfer cynllunio ariannol, sicrhau ansawdd a dyrannu adnoddau'n gydlynol ac yn ymwneud â

chenhadaeth, nodau ac amcanion y sefydliad ar gyfer addysg uwch. Mae'r broses gynllunio ariannol flynyddol yn cynnwys Tîm Gweithredol yr Is-Ganghellor a Phwyllgor Strategaeth a Chyllid y Bwrdd Llywodraethwyr, fel y maent wedi eu cofnodi yng nghylch gwaith y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid, ac ym mhapurau cyfarfodydd y Bwrdd Llywodraethwyr a'i Bwyllgor Strategaeth a Chyllid.

6 Mae'r Fframwaith Gwella'n disgrifio dull y Brifysgol o sicrhau a gwella ansawdd academaidd. Mae hon yn ddogfen lefel uchel sy'n cysylltu'r dull hwn â'r Strategaeth Cynorthwyo Dysgu a Chyflawniad Myfyrwyr (Strategaeth CDChM) a dangosyddion perfformiad allweddol. Mae'n rhannu'r broses sicrhau ansawdd yn bedwar cam: cynllunio, gweithredu, adolygu a gwella. Mae cofnodion a phapurau'r Pwyllgor Ansawdd Dysgu ac Addysgu'n dangos bod adolygu datblygiad yn erbyn cynllun gweithredu atodol y Strategaeth CDChM yn eitem sefydlog ar agenda pob un o gyfarfodydd y pwyllgor. Mae'r Bwrdd Academaidd yn derbyn adroddiadau am y Strategaeth CDChM gan y Pwyllgor Ansawdd Dysgu ac Addysgu (Pwyllgor ADA).

7 Mae tystiolaeth sy'n dangos bod gweithgareddau addysg uwch yn rhoi ystyriaeth i'r ddeddfwriaeth berthnasol, Cod Ansawdd y DU a'r canllawiau cysylltiedig, a bod cydymffurfiad yn cael ei fonitro. Mae'r Tîm Ansawdd yn gwneud ymarfer mapio'n rheolaidd o bolisïau a gweithdrefnau'r Brifysgol yn erbyn Cod Ansawdd y DU. Adroddir y canlyniadau i'r Pwyllgor ADA. Cafwyd yr adolygiad diweddaraf o'r ddogfen fapio hon yn 2022.

8 Mae'r Rheoliadau Cyffredinol yn nodi bod fframwaith rheoleiddio'r Brifysgol wedi ei osod yng nghyd-destun pwyntiau cyfeirio cenedlaethol, yn cynnwys y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch (FHEQ), Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC), Cod Ansawdd y DU a'r Datganiadau Meincnodi Pwnc perthnasol.

9 Mae'r Fframwaith Gwella'n nodi ei fod yn cyfateb â Chod Ansawdd y DU a'r cyngor a'r arweiniad cysylltiedig. Yn y fframwaith hwn, mae'r rhanddeiliaid allweddol, megis myfyrwyr, cyflogwyr, cyrff proffesiynol a chynghorwyr allanol, yn cymryd rhan yn y broses o sicrhau a gwella ansawdd. Mae'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd yn darparu fframwaith o brosesau a gweithdrefnau i fodloni'r gofynion o ran sicrhau ansawdd, ac mae'n sicrhau bod y gweithgareddau addysg uwch yn cyfateb â Chod Ansawdd y DU, y canllawiau cysylltiedig a phwyntiau cyfeirio allanol.

10 Mae adroddiad blynyddol y Panel Craffu ar Faterion Academaidd i'r Bwrdd Llywodraethwyr yn rhoi sicrwydd bod gweithgareddau addysg uwch y Brifysgol yn cydymffurfio â'r pwyntiau cyfeirio allanol allweddol, yn cynnwys: Cod Ansawdd y DU, Datganiadau Meincnodi Pwnc, y FHEQ, y Datganiadau o Nodweddion perthnasol, FfCChC, yn ogystal â gofynion cyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio (cyrff PSRh). Mae'r Brifysgol yn gwneud yn siŵr ei bod yn parhau i fodloni'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol sydd wedi eu nodi yn y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru. Rhoddir gwybodaeth i'r cyngor cyllido bob blwyddyn, ac mae prosesau craffu allanol ar waith.

11 Mae strategaethau, polisïau a gweithdrefnau'r Brifysgol yn cyfeirio'n eglur at God Ansawdd y DU a'r canllawiau cysylltiedig. Er enghraifft, yn ôl y Llawlyfr Ansawdd Academaidd, mae gofyn i bob rhaglen arfaethedig sydd i gael ei dilysu gyfateb â Chod Ansawdd y DU a'r FHEQ a/neu FfCChC. Ar gynnig cyntaf pob rhaglen cofnodir y penderfyniad ynglŷn â pha fframwaith i'w ddefnyddio, yna cyfatebir datblygiad y rhaglen â'r fframwaith cywir. Sicrheir bod y rhaglen yn cyfateb â'r fframwaith priodol yn ystod y broses ddilysu a'r prosesau monitro ac adolygu blynyddol. Mae'r canllawiau am ddatblygu modiwlau'n nodi y dylai deilliannau dysgu adlewyrchu'r disgrifyddion lefel sydd wedi eu nodi yn Rhan A Cod Ansawdd y DU, ac y dylid gosod safonau academaidd trothwy yn unol â'r FHEQ a FfCChC. Yn ystod y cyfnod craffu ar gyfer pwerau DGY, cyflwynodd y Brifysgol newidiadau i'w phrosesau cyn-ddilysu a dilysu, mewn ymateb i'r argymhelliad a wnaed yn yr

adroddiad i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) am yr Ymchwiliad i Bryderon sef bod y Brifysgol yn sicrhau y rhoddir ystyriaeth lawn i'r holl bwyntiau cyfeirio allanol perthnasol yn ystod y broses o ddatblygu a chymeradwyo rhaglenni - gwelwch y drafodaeth am Faen prawf B2. Mae cytundebau partneriaeth yn nodi'n glir fod gofyn i'r sefydliadau partner ddarparu rhaglenni'r Brifysgol yn unol â'i rheoliadau a dogfennau diffiniol ei rhaglenni, ac o dan ei systemau a'i phrosesau sicrhau ansawdd academaidd. Mae'r disgrifiad o'r broses o ddilysu rhaglenni a ddarperir gan bartneriaid academaidd hefyd yn ymwneud â rheoliadau, polisïau a gweithdrefnau, er mwyn sicrhau bod y partneriaid yn deall ac yn bodloni disgwyliadau'r Brifysgol.

12 Mae'r Brifysgol yn nodi bod cyfranogaeth ei myfyrwyr fel partneriaid yn elfen sylfaenol o'i hethos, ac un o flaenoriaethau Gweledigaeth a Strategaeth y Brifysgol a'r Strategaeth CDChM yw gweithio gyda myfyrwyr. Mae'n amlwg bod y Brifysgol wedi defnyddio cyngor ac arweiniad Cod Ansawdd y DU ar ymgysylltiad myfyrwyr fel sail i ddatblygu ei pholisi ar gynnwys ei myfyrwyr yn ei phrosesau sicrhau a gwella ansawdd. Mae'r fframwaith yn amlinellu amrywiaeth o gyfleoedd i'r myfyrwyr gyfranogi, megis cymryd rhan mewn arolygon ar lefel y modiwlau a'r rhaglenni ac yn systemau cynrychioli'r rhaglenni, bod yn gynrychiolwyr myfyrwyr ar bwyllgorau'r Brifysgol, yn ogystal â chymryd rhan mewn panelau dilysu, grwpiau tasg pwrpasol ac arolygon allanol. Mae'r fframwaith hefyd yn disgrifio manylion y gefnogaeth a'r hyfforddiant a roddir i gynrychiolwyr y myfyrwyr a'r ffyrdd y defnyddir adborth gan y myfyrwyr, ac mae'r myfyrwyr yn derbyn canllawiau ar ymgysylltu. Gwelodd y tîm dystiolaeth bod y myfyrwyr yn cael eu cynnwys yn effeithiol fel partneriaid yn y gwaith o sicrhau a gwella ansawdd - mae hyn wedi ei drafod ymhellach isod, ac o dan Faen prawf Ch1.

13 Mae tystiolaeth sy'n dangos bod y staff a'r myfyrwyr yn deall ac yn cymhwyso cenhadaeth y Brifysgol a'i pholisïau cysylltiedig. Cynhelir arolwg o'r staff bob dwy flynedd, ac roedd ei adroddiad yn 2022 yn nodi bod 91% o'r ymatebwyr yn cefnogi nodau ac amcanion strategol y Brifysgol, a bod 93% yn ymwybodol o werthoedd y Brifysgol. Roedd y staff academaidd yn gyfarwydd â gweledigaeth, cenhadaeth a strategaeth y Brifysgol ac yn gallu rhoi esiamplau o'u gweithrediad, yn cynnwys gwerthfawrogi barn y myfyrwyr ac addysgu a hysbysir gan ymchwil. Roeddent yn dweud bod y cysyniad 'ymchwil sy'n trawsnewid' yn ganolog i agenda'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil, ei fod yn amlwg yn amcanion yr adolygiad o ddatblygiad perfformiad, a'i fod yn hysbysu'r gwaith o ddatblygu rhaglenni newydd. Roedd y myfyrwyr yn ymwybodol bod gweledigaeth, cenhadaeth a strategaeth y Brifysgol ar gael ar ei gwefan, er nad oedd y mwyafrif ohonynt wedi edrych arni. Dywedodd nifer o'r myfyrwyr oedd wedi darllen y dogfennau bod y dogfennau'n cael eu gweithredu, yn arbennig mewn perthynas ag ehangu mynediad a chynhwysiant. Roedden nhw hefyd yn tystiolaethu bod y cysyniad o 'fyfyrwyr fel partneriaid' yn digwydd go iawn yn eu profiad hwy. Mae gweithrediad cyson cenhadaeth, polisïau a systemau cysylltiedig y Brifysgol ar draws ei darpariaeth gyfan yn cael ei fonitro ar lefelau'r rhaglenni a'r sefydliad - gwelwch y drafodaeth am Faen prawf B: Safonau academaidd a sicrhau ansawdd.

14 Mae'r dystiolaeth yn cadarnhau bod eglurder swyddogaeth a chyfrifoldeb ar bob lefel yn y Brifysgol mewn perthynas â'i threfnau llywodraethu a rheoli. Y Bwrdd Llywodraethwyr yw awdurdod pennaf y Brifysgol, ac mae Rheolau Sefydlog y Brifysgol yn rhagnodi cyfansoddiad y Bwrdd. Mae'r Cynllun Dirprwyo'n disgrifio cylch gwaith a chyfrifoldebau'r Bwrdd Llywodraethwyr, yn ogystal â pha rannau o'i awdurdod sydd wedi eu dirprwyo i'r Bwrdd Academaidd, yr Is-Ganghellor a'r Tîm Gweithredol. Mae'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu'n monitro aelodaeth y Bwrdd i sicrhau bod ganddi amrywiaeth briodol o brofiad ac arbenigedd. Mae Undeb y Myfyrwyr yn gyfrifol am enwebu dau lywodraethwr o blith ei swyddogion etholedig, sef Llywydd ac Is-lywydd Undeb y Myfyrwyr fel arfer. Mae swyddogaethau Cadeirydd, Is-gadeirydd ac aelodau'r Bwrdd Llywodraethwyr wedi eu disgrifio'n glir. Mae fframwaith cynllunio ar gyfer olyniaeth i aelodau annibynnol y Bwrdd Llywodraethwyr. Mae chwe is-bwyllgor gan y Bwrdd Llywodraethwyr - y Pwyllgor

Ansawdd a Safonau Academaidd, y Pwyllgor Pobl a Diwylliant, y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risgiau, y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid, y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol.

15 Bu'r tîm yn arsylwi cyfarfodydd y Bwrdd Llywodraethwyr, yn arbennig y rheiny a gynhaliwyd ar ôl cymryd camau gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad i CCAUC am Ymchwiliad i Bryderon. Gwelodd y tîm dystiolaeth bod y bwrdd yn rheoli ei fusnes yn drwyadl, yn cyfathrebu'n effeithiol â rhannau eraill o'r strwythur llywodraethu a rheoli, ac yn dal y Tîm Gweithredol yn atebol. Gwelwyd esiampl o'r olaf yng nghyfarfod y Bwrdd Llywodraethwyr ar 24 Tachwedd 2023 pan wrthodwyd cynigion y Tîm Gweithredol am weithdrefnau newydd ar gyfer partneriaethau am na fyddai'r dulliau asesu a rheoli risgiau a gynigwyd ganddynt yn ddigon trwyadl, a chytunodd y bwrdd y dylid dirprwyo'r gwaith o gymeradwyo'r fersiwn terfynol o dempled diwygiedig i'r Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd.

16 Dywedodd aelodau o'r Bwrdd Llywodraethwyr eu bod yn eu sicrhau eu hunain fod safonau academaidd yn cael eu cynnal a bod ansawdd y profiadau dysgu ac addysgu'n cael ei wella drwy fonitro metrigau perfformiad yn ymwneud ag ansawdd a safonau, arolygon myfyrwyr, a deilliannau addysgu megis cyfraddau'r myfyrwyr sydd wedi parhau i astudio, sydd wedi cwblhau'n llwyddiannus ac sydd wedi cael gwaith. Gwiriwyd hyn drwy arsylwadau a thrwy weld papurau'r Bwrdd. Sefydlwyd Panel Craffu ar Ansawdd a Safonau gan y Bwrdd ym mlwyddyn academaidd 2019-20. Mae'r panel hwn wedi cyfarfod yn amlach na'r Bwrdd Llywodraethwyr llawn, wedi cerdded o amgylch y campws yn arolygu, wedi cwrdd â'r staff a'r myfyrwyr, ac wedi bod ar ddiwrnodau strategol. Ym mis Mai 2023, daeth y Panel Craffu ar Ansawdd a Safonau'n is-bwyllgor llawn i'r Bwrdd, o dan enw newydd y Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd. Mae'r Pwyllgor Ansawdd Dysgu ac Addysgu'n comisiynu adroddiad sicrwydd bob blwyddyn sy'n cael ei anfon at y Bwrdd Academaidd, ac yna i'r Bwrdd Llywodraethwyr, cyn ei gyflwyno i CCAUC.

17 Yn ôl y Cynllun Dirprwyo, yr Is-Ganghellor yw prif weithredwr a swyddog atebol y Brifysgol. Gall ddirprwyo gweithrediad pwerau a chyfrifoldebau'r rolau fel y mae'n ei ystyried yn briodol. Mae'r Is-Ganghellor yn cadeirio'r Bwrdd Academaidd, sef awdurdod academaidd uwch y sefydliad. Mae Llawlyfr y Bwrdd Academaidd yn nodi cylch gwaith y Bwrdd Academaidd. Mae'r Bwrdd Academaidd yn gyfrifol am y gweithgareddau ymchwil, addysgu ac ysgolheictod a'r cyrsiau a ddarperir yn y Brifysgol, yn ogystal â'r meini prawf ar gyfer derbyn myfyrwyr, penodi a diswyddo arholwyr mewnol ac allanol, polisïau a gweithdrefnau ar gyfer asesu ac arholi perfformiad academaidd y myfyrwyr, cynnwys y cwricwlwm, cynnal safonau academaidd a dilysu ac adolygu cyrsiau, y gweithdrefnau ar gyfer dyfarnu graddau er anrhydedd, a'r gweithdrefnau ar gyfer diarddel myfyrwyr am resymau academaidd. Mae cyfrifoldebau o'r fath yn amodol ar ofynion y cyrff dilysu ac achredu. Mae Llawlyfr y Bwrdd Academaidd yn nodi aelodau cyfredol y Bwrdd Academaidd a'i is-bwyllgorau, sy'n cynnwys y Pwyllgor Ymchwil, y Pwyllgor ADA, y Pwyllgor Partneriaethau Academaidd, y Grŵp Mynediad ac Ymgysylltiad Dysgwyr, yn ogystal â Byrddau Arholi a Phanelau Arbenigol.

18 Mae'r Bwrdd Academaidd yn derbyn adroddiadau rheolaidd gan ei bwyllgorau, yn cynnwys y Pwyllgor Ymchwil, sydd â rôl ganolog yn y broses o oruchwylio gweithgareddau ymchwil y Brifysgol, er enghraifft, drwy fonitro'r cynnydd a gafwyd yn erbyn y dangosyddion perfformiad allweddol perthnasol ac adrodd am hyn i'r Is-Ganghellor a'r Grŵp Gweithredol, yn ogystal â chynghori'r Bwrdd Academaidd ynglŷn â gosod a datblygu polisïau i gefnogi ac ymwreiddio gwaith ymchwil yn y Brifysgol. Mae hefyd yn adrodd i'r Bwrdd Academaidd am raglenni gradd ymchwil. Mae dau gynrychiolydd y myfyrwyr yn eistedd ar y Pwyllgor Ymchwil. Mae Is-bwyllgor Graddau Ymchwil y Brifysgol yn adrodd i'r Pwyllgor Ymchwil ac yn ystyried materion yn ymwneud â'r myfyrwyr, fel derbyniad, cynnydd, monitro blynyddol, argymhellion am ddyfarnu graddau, a cheisiadau am gymryd egwyl. Mae'r Pwyllgor Ymchwil wedi dirprwyo pwerau i'r Pwyllgor Moeseg Ymchwil i ystyried cynigion gan fyfyrwyr ôl-

raddedig. Mae canllawiau a thempledi ar gyfer gwneud cais am gymeradwyaeth foesegol ar gael i'r staff a'r myfyrwyr.

19 Wrth arsylwi cyfarfodydd y Bwrdd Academaidd a'i is-bwyllgorau ac adolygu'r papurau cysylltiedig, gwelwyd fod pob eitem wedi cael eu craffu'n drwyadl, eu trafod yn fanwl a'u cofnodi'n glir, a bod y camau gweithredu dilynol wedi eu monitro'n effeithiol. Roedd y llinellau adrodd drwy'r strwythur pwyllgorau'n eglur ac wedi eu defnyddio'n briodol.

20 Fel arfer, mae'r Is-Ganghellor yn gwasanaethu fel Cadeirydd Bwrdd Cyfarwyddwyr un o'r is-gwmnïau, ac mae'n atebol i'r Bwrdd Llywodraethwyr am y busnes a weithredir drwy gyfrwng yr is-gwmnïau hynny. Mae'r Is-Ganghellor yn dirprwyo'r cyfrifoldeb am reolaeth weithredol yr is-gwmnïau a'u busnes i gyfarwyddwyr neu reolwyr eraill, fel y bo'n briodol. Adroddir am berfformiad ariannol yr is-gwmnïau drwy Bwyllgor Strategaeth a Chyllid y Bwrdd. Mae gan y Brifysgol ddau is-gwmni - Arloesiadau Glyndŵr Cyf a Gwyddoniaeth Gogledd Cymru Cyf. Mae Arloesiadau Glyndŵr Cyf yn is-gwmni i'r Brifysgol sydd wedi ei leoli ar gampws Llanelwy, lle mae'n gwneud ymchwil ac yn arwain prosiectau a ariennir gan gyllid Ewropeaidd. Mae ganddo ei fwrdd ei hun ac mae ei aelodau'n dod o'r diwydiant. Y Brifysgol sy'n berchen ar y cwmni i gyd ac mae'r cwmni'n darparu gallu craidd mewn ymchwil a datblygiad. Mae Gwyddoniaeth Gogledd Cymru Cyf yn goruchwylio'r Ganolfan Darganfod Gwyddoniaeth lle gall myfyrwyr ysgol ddod i ddarganfod gwyddoniaeth. Mae wedi derbyn cymorth ariannol gan Ymddiriedolaeth Wellcome a chronfa adfywio Llywodraeth Cymru. Mae Gwyddoniaeth Gogledd Cymru Cyf yn gweithredu o dan yr enw masnachu 'Xplore!'.

21 Mae'r Cynllun Dirprwyo'n cynnwys trefn awdurdodau ar gyfer amrywiol gamau gweithredu a thrafodion. Mae'r drefn hon yn egluro pa rai o gyfrifoldebau'r Bwrdd Llywodraethwyr na ellir eu dirprwyo, yn ogystal â pha bwerau a swyddogaethau sydd wedi eu dirprwyo i bwyllgorau ac i swyddogion gweithredol y Brifysgol er mwyn hwyluso'r gwaith o wneud penderfyniadau. Yn yr adroddiad i CCAUC am Ymchwiliad i Bryderon, cafwyd argymhellion am linellau adrodd a dirprwyaeth yr awdurdod mewn perthynas â rheoli a goruchwylio partneriaethau, ac ansawdd a safonau. Mae hyn wedi ei drafod isod.

22 Mae Tîm Gweithredol yr Is-Ganghellor yn gweithredu fframwaith strategol y Brifysgol sydd â'r nod o gyflawni gweledigaeth a chenhadaeth y Brifysgol. Mae ei gylch gwaith yn cynnwys iechyd ariannol, rheoli adnoddau, blaenoriaethau strategol, cynllunio camau gweithredu a rheoli risgiau, yn ogystal â phartneriaethau ac effaith allanol. Mae Tîm Gweithredol yr Is-Ganghellor yn cynnwys y rheolwyr hynny sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Is-Ganghellor. Mae Bwrdd yr Is-Ganghellor yn gyfrifol am reolaeth weithredol y Brifysgol, ac mae hyn yn cynnwys cynllunio strategol, rheoli materion ariannol, nifer y myfyrwyr, cyfathrebiadau marchnata, polisïau a gweithdrefnau, adroddiadau rheoli, portffolio academaidd, materion staffio (yn cynnwys datblygiad proffesiynol parhaus), sicrhau cydymffurfiad, archwiliadau o weithrediadau, iechyd a diogelwch, eiddo deallusol a rheoli risgiau. Mae'r Is-Ganghellor yn penderfynu ar aelodaeth ei Fwrdd, sy'n cynnwys y Tîm Gweithredol a Chyfarwyddwyr y Gwasanaethau Proffesiynol, Penaethiaid y Cyfadrannau Academaidd, Llywydd Undeb y Myfyrwyr, yn ogystal ag uwch reolwyr eraill, fel y bo'n briodol. Mae curricula vitae aelodau Tîm Gweithredol yr Is-Ganghellor ac aelodau eraill Bwrdd yr Is-Ganghellor yn darparu tystiolaeth i ddangos bod lefel briodol o arweinyddiaeth academaidd drylwyr a chryf ar waith. Canfu'r tîm fod gan bob daliwr swydd brofiad perthnasol a'u bod wedi dal swyddi uwch mewn sefydliadau eraill, a bod hyn yn eu galluogi i ddefnyddio eu gwybodaeth ehangach o'r sector a'u profiad i arwain datblygiad academaidd yn y Brifysgol.

23 Mae'r Brifysgol yn datblygu, yn gweithredu ac yn rhoi gwybod am ei pholisïau academaidd mewn cydweithrediad â'i staff, ei myfyrwyr a'i rhanddeiliaid eraill mewn amrywiaeth o ffyrdd. Er enghraifft, mae'r Fframwaith Gwella, y Polisi a Fframwaith Cyfranogaeth Myfyrwyr mewn Prosesau Sicrhau a Gwella Ansawdd, y Strategaeth CDChM,

Siarter y Myfyrwyr, a'r Canllaw i Fyfyrwyr ar sut i Gyfranogi mewn Prosesau Sicrhau a Gwella Ansawdd, oll yn disgrifio ymrwymiad y Brifysgol i gynnwys ei myfyrwyr yn ei phrosesau sicrhau a gwella ansawdd, ei phwyllgorau ymgynghori a'i gwaith o wneud penderfyniadau. Mae myfyrwyr yn eistedd fel aelodau ar y Bwrdd Llywodraethwyr, y Bwrdd Academaidd, y Pwyllgor ADA, y Pwyllgor Partneriaethau Academaidd, y Pwyllgor Ymchwil, y Grŵp Mynediad ac Ymgysylltiad Dysgwyr, a Byrddau Astudiaethau'r Cyfadrannau.

24 Mae cofnodion cyfarfodydd y pwyllgorau'n cadarnhau bod myfyrwyr yn bresennol ac yn cymryd rhan yn eu cyfarfodydd. Dywedodd y myfyrwyr sy'n eistedd ar bwyllgorau'r Brifysgol eu bod wedi derbyn hyfforddiant ar gyfer eu rolau ac wedi cael eu paratoi cyn iddyn nhw gymryd rhan mewn cyfarfod am y tro cyntaf. Roedden nhw'n teimlo eu bod wedi eu cefnogi a'u gwerthfawrogi a gallent roi esiamplau o gyfranogaeth mewn prosesau o ddatblygu, adolygu a dilysu rhaglenni a phrosiectau eraill, yn cynnwys, er enghraifft, cydweithio â'r staff ar faterion yn ymwneud â chymorth i fyfyrwyr, dyddiadau cyflwyno aseiniadau ac adborth ar aseiniadau, a gofodau astudio.

25 Mae'r sefydliad yn cyhoeddi pob un o'i bolisïau, ei weithdrefnau a'i fframweithiau rheoleiddio perthnasol sy'n llywio addysg uwch, ac maent ar gael i'w staff a'i fyfyrwyr. Mae'r Bwrdd Academaidd yn gyfrifol am gymeradwyo polisïau a gweithdrefnau. Mae cynrychiolwyr staff y gwasanaethau academaidd, proffesiynol a chorfforaethol yn eistedd ar y Bwrdd Academaidd a'i bwyllgorau, ac felly maent yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu polisïau drwy drafod materion a rhoi cyngor ac adborth.

26 Mae'r 'Canllaw i Staff Partneriaid: Partneriaethau Academaidd' yn rhoi trosolwg i'r partneriaid o bolisïau a gweithdrefnau'r Brifysgol, yn ogystal â chyfeiriadau at y rheoliadau academaidd a'r llawlyfrau sy'n ymwneud ag ansawdd a phartneriaethau. Mae'r canllaw hwn yn ddogfen gynhwysfawr sy'n amlinellu rolau a chyfrifoldebau a threfnau'r rhaglenni ar gyfer gweinyddu materion academaidd a materion myfyrwyr. Cadarnhaodd cynrychiolwyr y partneriaid eu bod wedi derbyn gwybodaeth am bolisïau'r Brifysgol yn ystod digwyddiadau dilysu. Mae gwybodaeth am bolisi'r Brifysgol ar gael i'r myfyrwyr yn eu llawlyfrau ac ar Google Classroom. Mae'r Swyddfa Partneriaethau'n trafod yn rheolaidd gyda phob un o'r partneriaid, ac mae cysylltiadau academaidd yn bodoli â thimau'r rhaglenni ar lefel weithredol leol. Cadarnhaodd staff y sefydliadau partner fod tiwtoriaid cyswllt yn meithrin perthynas waith agos ac yn eu helpu i sicrhau eu bod yn gwybod am unrhyw newidiadau a'u bod yn cael eu gwahodd i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu polisïau.

27 Hysbysir rhanddeiliaid allanol, yn cynnwys cyflogwyr a chynrychiolwyr cymunedau, am bolisïau, mentrau a datblygiadau, ac mae cyfleoedd ar gael iddyn nhw gyfrannu syniadau, er enghraifft, yng ngweithgareddau ymgysylltu dinesig y Brifysgol a chyfarfodydd allanol â chyflogwyr a chyrff proffesiynol lle mae cynrychiolwyr y Brifysgol yn bresennol, trwy ymgysylltiad cyflogwyr â'r gwaith o ddatblygu a darparu prentisiaethau gradd, a thrwy gyfranogaeth cyflogwyr mewn grwpiau o randdeiliaid a byrddau cyswllt â diwydiant.

28 Mae'r dystiolaeth yn cadarnhau bod polisïau, systemau a gweithgareddau academaidd y Brifysgol yn cael eu monitro a'u hadolygu mewn ffordd drefnus. Mae polisïau a chodau ymarfer y Brifysgol yn cynnwys gwybodaeth reoli fersiynau ac yn nodi dyddiadau cymeradwyo, gweithredu ac adolygu. Mae'r Rheoliadau Academaidd yn cael eu diweddaru'n flynyddol. Ym mis Medi 2022, cymeradwyodd y Bwrdd Academaidd ddiwygiadau i reoliadau a pholisïau. Ers hynny, cafodd y Rheoliadau Academaidd eu hail-ysgrifennu i sicrhau eu bod yn fwy eglur ac yn haws eu deall. Mae polisïau ymchwil yn cael eu hadolygu gan y Pwyllgor Ymchwil a'u cymeradwyo gan y Bwrdd Academaidd.

29 Cafodd y rheoliadau ar gyfer astudio ar lefel ôl-raddedig, ynghyd â'r meini prawf ar gyfer penodi goruchwylwyr a chylch gwaith wedi'i addasu'r Is-bwyllgor Graddau Ymchwil, eu

cymeradwyo gan y Pwyllgor Ymchwil ym mis Ionawr 2022 a gan y Bwrdd Academaidd ym mis Chwefror 2022. Yn 2023, adolygwyd y rheoliadau ar gyfer astudio ar lefel ôl-raddedig yn rhan o'r gwaith o egluro a symleiddio'r holl reoliadau academaidd.

30 Mae'r Brifysgol yn adolygu effeithiolrwydd ei threfnau llywodraethu a rheoli'n rheolaidd. Adolygwyd effeithiolrwydd y Bwrdd Llywodraethwyr yn ystod blwyddyn academaidd 2021-22. Mewn adroddiad o fis Ionawr 2022, cynllun gweithredu a ddiweddarwyd ym mis Hydref 2022, a chynllun gweithredu a ddiweddarwyd ym mis Gorffennaf 2023, gwelwyd tystiolaeth o fanylder y broses adolygu a'r camau a gymerwyd o ganlyniad iddi. Derbyniwyd y rhan fwyaf (15) o'r 16 argymhelliad yn llawn neu'n rhannol, ond gwrthodwyd yr argymhelliad y dylid rhannu'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid yn ddau bwyllgor ar wahân. Erbyn dyddiad y diweddaru ym mis Gorffennaf 2023, roedd yr holl gamau gweithredu wedi eu cwblhau neu wedi dod yn arfer parhaus. Mae papurau cyfarfod y Bwrdd Llywodraethwyr a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2023 yn nodi bod cynllun gweithredu'r Adolygiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd wedi ei gwblhau. Ym mhapurau'r Pwyllgor Archwilio, trafodwyd gwerthusiad o'i effeithiolrwydd ei hun, a chyfeiriwyd at adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd pob pwyllgor sy'n rhan o'r strwythur llywodraethu a rheoli.

31 Cwblhawyd adolygiad allanol o'r Bwrdd Academaidd a'i is-bwyllgorau yn 2020. Cynhyrchodd y Bwrdd Academaidd gynllun gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed yn yr adolygiad. Cyflwynwyd yr ymatebion i ganfyddiadau'r adolygiad i gyfarfod y Bwrdd Academaidd ym mis Tachwedd 2020. Gwnaethpwyd diwygiadau i rôl y cynrychiolwyr etholedig ar y Bwrdd Academaidd, cylchoedd gwaith a chyfrifoldebau Byrddau'r Cyfadrannau a chynrychiolaeth y myfyrwyr ar is-bwyllgorau'r Bwrdd Academaidd. Mae adolygiad arall o effeithiolrwydd y Bwrdd Academaidd a'i is-bwyllgorau wedi ei drefnu i gychwyn yn fuan yn 2024.

32 Yn ôl Llawlyfr y Bwrdd Academaidd, mae gofyn i bob pwyllgor werthuso ei effeithiolrwydd ei hun yn feirniadol bob dwy flynedd a rhoi adroddiad am y canlyniadau i'r uwch bwyllgor perthnasol, gan gynnwys cynlluniau gweithredu ar gyfer mynd i'r afael ag unrhyw broblemau a ganfuwyd gan aelodau'r pwyllgor hwnnw. Mae esiamplau o newidiadau a gyflwynwyd mewn ymateb i adolygiadau hunanwerthuso'r pwyllgorau o'u heffeithiolrwydd yn cynnwys y ffyrdd y mae'r Is-bwyllgor Rhaglenni Academaidd yn ystyried addasiadau bach a mawr i raglenni ac yn ystyried ceisiadau am gydnabod dysgu blaenorol, a'r gwaith a wnaed gan Fyrddau Astudiaethau dwy gyfadran i ddiwygio eu prosesau goruchwylio partneriaethau, a'u prosesau recriwtio a chadw myfyrwyr.

33 Yn 2018, comisiynodd y Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil) adolygiad allanol o'r Swyddfa Ymchwil a'r Swyddfa Gweinyddu Myfyrwyr. Roedd canfyddiadau'r adolygiad yn cynnwys nifer o argymhellion ac mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi eu cwblhau i raddau mawr erbyn hyn, er bob gwaith yn parhau ar rai ohonynt. Yn rhan o'r newidiadau a wnaed, addaswyd aelodaeth y pwyllgorau.

34 Mae'r Brifysgol yn monitro ac yn rheoli risgiau. Mae'n cadw cofrestr o risgiau sy'n cael ei diweddaru bob chwarter gan aelodau Tîm Gweithredol yr Is-Ganghellor sy'n gweithredu ar ran eu meysydd rheoli. Nodir unrhyw risgiau sydd heb eu rheoli, a chyflwynir camau i'w lleihau. Mae'r gofrestr o risgiau'n cael ei hadolygu'n rheolaidd gan Bwyllgor Archwilio a Rheoli Risgiau'r Bwrdd Llywodraethwyr. Mae papurau'r pwyllgor hwn yn dangos ei fod yn ystyried risgiau a chamau i'w lleihau'n helaeth ac yn fanwl, a'i fod yn adolygu'r Adroddiad am Risgiau Corfforaethol (y gofrestr o risgiau) yn rheolaidd ac yn adrodd i'r Bwrdd Llywodraethwyr. Mae'r Adroddiad am Risgiau Corfforaethol yn ymwneud â risgiau sy'n gysylltiedig â materion megis ansawdd academaidd ac ymgysylltiad myfyrwyr, recriwtio myfyrwyr, y proffil ymchwil, partneriaethau academaidd, y proffil masnachol, materion trefniadol a staffio, yr amgylchedd ffisegol a digidol, cynaliadwyedd ariannol, cydymffurfiad ac enw da, a pholisïau cenedlaethol.

35 Mae mecanweithiau yn eu lle i sicrhau nad yw safonau academaidd dyfarniadau'r Brifysgol yn cael eu peryglu. Mae'r Cynllun Dirprwyo'n nodi'n glir fod y Brifysgol yn derbyn y cyfrifoldeb am safonau academaidd pob dyfarniad a roddir yn ei henw, a'i bod yn atebol i CCAUC, QAA, cyrff PSRh a chyrff dyfarnu eraill am ansawdd a safonau'r ddarpariaeth y mae'n ei chynnig. Gan y Bwrdd Llywodraethwyr y mae'r cyfrifoldeb pennaf am ansawdd a safonau profiad academaidd y myfyrwyr a deilliannau dysgu'r myfyrwyr, ac mae'n derbyn adroddiadau gan y Bwrdd Academaidd i'w sicrhau ei hun fod y safonau hynny'n ddiogel. Mae papurau'r Bwrdd Llywodraethwyr yn dangos ei fod wedi derbyn ac ystyried adroddiadau gan y Bwrdd Academaidd, ac maent yn cofnodi'r busnes a weithredwyd ganddo. Mae'r busnes diweddar a ddisgrifiwyd yn adroddiadau'r Bwrdd Academaidd yn cynnwys cymeradwyo'r Adroddiad Trosolwg Blynyddol ar Safonau ac Ansawdd Academaidd, cymeradwyo camau gweithredu mewn perthynas ag argymhellion yr Ymchwiliad i Bryderon, ystyried adroddiad am fylchau yng nghyfraddau cwblhau'r myfyrwyr, cymeradwyo'r Datganiad Uniondeb Ymchwil Blynyddol, cymeradwyo'r adroddiad am ddilysiadau rhaglenni, ystyried diweddariadau am yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (ACF), yr Arolwg Profiad Myfyrwyr Ôl-raddedig a Addysgir (PTES) a'r Baromedr Myfyrwyr Rhyngwladol, a chydnabod y gwaith sy'n cael ei wneud i leihau effeithiau unrhyw weithredu diwydiannol yn ystod y cyfnod asesu a marcio. Mae ei gofnodion yn dangos bod y Pwyllgor ADA yn craffu ar adroddiadau trosolwg o ddilysiadau rhaglenni ac adroddiadau arholwyr allanol.

36 Mae'r Cynllun Dirprwyo'n nodi'n glir bod cyfrifoldeb y Brifysgol am safonau academaidd ac ansawdd ei darpariaeth yn cynnwys y ddarpariaeth a gynigir mewn cydweithrediad â'i sefydliadau partner hefyd. Mae'r cytundebau partneriaeth yn diffinio'n fanwl sut mae'r cyfrifoldebau wedi eu dyrannu, ac maent yn cynnwys tabl eglurhaol cryno, ac mae'r Adroddiadau Cymeradwyo Partneriaethau'n ymwneud yn glir â chydymffurfiad â'r cytundebau. Mae'r Adroddiadau Adolygu Partner Blynyddol yn cofnodi'r pwyntiau yn adroddiad y flwyddyn flaenorol a nodwyd i'w gweithredu ac i gadw llygad arnynt wedyn, ac mae adroddiadau'r tiwtoriaid cyswllt academaidd yn dangos bod safonau academaidd ac ansawdd yr amgylchedd dysgu ac addysgu wedi eu hystyried yn fanwl. Fel y disgrifir isod, mewn ymateb i ganfyddiadau'r adroddiad i CCAUC am Ymchwiliad i Bryderon, mae'r Weithdrefn ar gyfer Partneriaethau wrthi'n cael ei hadolygu i gryfhau'r oruchwyliaeth ar ansawdd a safonau.

37 Yn yr adroddiad i CCAUC am Ymchwiliad i Bryderon, cafwyd nifer o argymhellion sy'n perthyn i gwmpas Maen prawf A1. Mae manylion y rhain isod. Ymhob achos, gwelodd y tîm dystiolaeth o weithredu oedd yn ymddangos yn briodol ac yn ddigonol, er nad oedd effeithiolrwydd y camau gweithredu hyn wedi cael ei brofi eto pan ddaeth y cyfnod craffu i ben. Rhoddwyd y gwaith o werthuso effeithiolrwydd pob cam gweithredu ar yr amserlen ar gyfer 2024.

38 Un o argymhellion yr adroddiad i CCAUC am Ymchwiliad i Bryderon oedd sicrhau bod y rheoliadau academaidd yn cael eu gweithredu'n gyson er mwyn sicrhau y cedwir y safonau academaidd. Mewn ymateb i hyn, aeth Tîm Ansawdd a Rheoliadau'r Brifysgol ati i adolygu a diweddaru'r Rheoliadau ar sail yr egwyddorion o gynyddu eglurder, symlrwydd a chysondeb, a bydd y tîm yn defnyddio dull tebyg i adolygu'r holl bolisïau a gweithdrefnau cyfredol a datblygu rhai newydd, lle bo'n angenrheidiol, yn ystod blwyddyn academaidd 2023-24. Aeth y Bwrdd Academaidd ati i ystyried a chymeradwyo'r rheoliadau diwygiedig a'r camau gweithredu cysylltiedig i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu ym mis Tachwedd 2023.

39 Roedd argymhelliad arall yn ymwneud â rolau a chyfrifoldebau Cyfarwyddwr a Chadeirydd y Panel Amgylchiadau Esgusodol. Yn rhan o'r newidiadau ehangach a gafwyd yn y weithdrefn ar gyfer amgylchiadau esgusodol, mae rôl Cyfarwyddwr y Panel Amgylchiadau Esgusodol wedi ei dileu erbyn hyn er mwyn sicrhau bod y rolau a'r prosesau'n eglur. Hefyd, gwnaethpwyd newidiadau i'r trefnau ar gyfer adrodd a goruchwylio ceisiadau

am amgylchiadau esgusodol. Caiff adroddiadau interim ac adroddiadau blynyddol eu rhoi i'r Pwyllgor ADA ynglŷn â nifer y ceisiadau a dderbyniwyd, a gadarnhawyd ac a wrthodwyd, yn ogystal ag unrhyw argymhellion mewn perthynas â pholisïau neu weithdrefnau, neu a allai wella ansawdd y ddarpariaeth. Mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed yn adroddiad yr Ymchwiliad i Bryderon, mae'r Brifysgol hefyd wedi gweithredu newidiadau i sicrhau bod ei threfniadau ar gyfer monitro a goruchwylio apeliadau a chwynion yn gweithio'n effeithiol i wella ansawdd. Trwy arsylwi cyfarfodydd y Pwyllgor ADA a gynhaliwyd ym misoedd Gorffennaf a Hydref 2023 a chraffu ar y papurau cysylltiedig, gallai'r tîm gadarnhau bod y cyfranogwyr wedi derbyn a thrafod adroddiadau manwl am geisiadau am amgylchiadau esgusodol, apeliadau academaidd a chwynion, a bod yr adroddiadau hyn yn cynnwys dadansoddiad o ddata meintiol a data ansoddol ac argymhellion ar gyfer gwella.

40 Yn adroddiad yr Ymchwiliad i Bryderon, argymhellwyd hefyd y dylid cryfhau'r broses o adrodd ar gyfresi data allweddol am lwyddiant y myfyrwyr er mwyn hwyluso goruchwyliaeth fwy effeithiol ar lefel y sefydliad. Paratowyd matrics o adroddiadau i'r pwyllgorau am gyfresi data a bydd wedi ei gynnwys yn Llawlyfr y Bwrdd Academaidd. Mae'n cynnwys trefn newydd o adrodd am ddata ynghylch cynnydd y myfyrwyr i'r Pwyllgor ADA, y Bwrdd Academaidd, y Bwrdd Llywodraethwyr a'i Is-bwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd, a bydd adroddiad am fylchau yng nghyrhaeddiad a chyfraddau cwblhau'r myfyrwyr yn rhan o'r broses barhaus o fonitro a gwella pob rhaglen. Caiff y matrics adrodd ei adolygu o leiaf unwaith y flwyddyn yn rhan o'r broses flynyddol o adolygu'r llawlyfr. Wrth arsylwi cyfarfodydd y Bwrdd Llywodraethwyr, gwelwyd craffu manwl ar ddata am gofrestriad, cyrhaeddiad a chyfraddau cwblhau'r myfyrwyr, a gwelwyd bod llywodraethwyr yn gofyn cwestiynau archwiliadol i'r Tîm Gweithredol.

41 Roedd nifer o'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad i CCAUC am Ymchwiliad i Bryderon yn ymwneud â rheoli a llywodraethu partneriaethau, yn enwedig mewn perthynas â chymeradwyo partneriaethau newydd a'r risgiau cysylltiedig. Paratowyd gweithdrefn newydd ar gyfer partneriaethau, sy'n disgrifio'r berthynas lywodraethu'n fanwl ar gyfer partneriaethau academaidd ac yn diffinio'r dull rhagnodedig o asesu a rheoli'r risgiau cysylltiedig. Mae'n cynnwys creu swydd newydd y Pennaeth Partneriaeth, sefydlu uwch aelod o'r staff academaidd yn Gadeirydd y Pwyllgor Partneriaethau Academaidd, symud locws y goruchwylio ansawdd mewn prosesau dilysu ac adolygu cyfnodol i'r Tîm Ansawdd a Rheoliadau, a chryfhau'r oruchwyliaeth ar bartneriaethau gan y Bwrdd Llywodraethwyr a'i Is-bwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd. Mae'r weithdrefn newydd ar gyfer partneriaethau hefyd yn cynnwys matrics risgiau wedi'i ddiweddaru sy'n rhoi diffiniad mwy eglur o'r categorïau o risgiau sy'n gysylltiedig â threfniadau partneriaeth, ac yn darparu trefn sgorio risgiau a fydd, gyda'i gilydd, yn dod yn elfen o'r cam diwydrwydd dyladwy yn y broses o gomisiynu partneriaid. Er bod y ddogfen yn disgrifio dull llawer mwy manwl a deallus o ddatblygu a rheoli partneriaethau, roedd y Bwrdd Llywodraethwyr (yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2023) o'r farn nad oedd y matrics risgiau arfaethedig a'r gweithdrefnau cysylltiedig yn ddigon trwyadl ac anfonodd y cynigion yn ôl at y Tîm Gweithredol i'w diwygio.

42 Mae dull y Brifysgol o werthuso a rheoli'r risgiau sy'n benodol i'r gweithgareddau partneriaeth academaidd wedi cael ei gryfhau drwy'r mesurau sydd wedi eu disgrifio uchod. O dan y broses flaenorol, roedd gan y Pwyllgor Partneriaethau Academaidd gyfrifoldeb sylweddol am asesu a rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â phartneriaethau'r Brifysgol. Mae'r newidiadau a gafwyd yn ddiweddar yn sicrhau bod y drefn lywodraethu a rheoli wedi ei diffinio'n well a'i bod yn cyfateb yn agosach â strategaethau'r sefydliad ar gyfer rheoli risgiau.

43 Yn dilyn adroddiad yr Ymchwiliad i Bryderon, nododd yr uwch dîm rheoli a'r Corff Llywodraethu y bydd y newidiadau a gyflwynwyd mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad yn rhoi'r Brifysgol mewn sefyllfa lawer cryfach ac yn ei galluogi i atal, canfod a mynd i'r afael yn well â'r diffygion a'r gwendidau a ganfuwyd yn y prosesau rheoli a llywodraethu. Darperir tystiolaeth i gefnogi'r datganiadau hyn mewn arsylwadau dilynol o'r

Bwrdd Academaidd a'r Bwrdd Llywodraethwyr, a gwelwyd bod y ddau'n craffu a thrafod pob eitem ar yr agenda'n fanwl.

44 Ar sail y dystiolaeth sydd wedi ei hadolygu uchod, yn cynnwys hanes y Brifysgol yn y cyswllt hwn a'r ffordd y mae wedi ymateb i argymhellion yr Ymchwiliad i Bryderon, barn y tîm craffu yw bod y gallu gan y Brifysgol i barhau i reoli'r cyfrifoldebau'n llwyddiannus sy'n gysylltiedig â phwerau dyfarnu graddau a addysgir. Y rheswm am hynny yw bod ei pholisïau ar gyfer cynllunio ariannol, sicrhau ansawdd a dyrannu adnoddau'n gydlynol ac yn berthnasol i'w chenhadaeth, nodau ac amcanion ar gyfer addysg uwch. Mae ei gweithgareddau addysg uwch yn cymryd y ddeddfwriaeth berthnasol i ystyriaeth yn llawn, ac mae ei strategaethau, ei pholisïau a'i gweithdrefnau'n cyfateb â Chod Ansawdd y DU a'r canllawiau cysylltiedig. Mae'r trefnau llywodraethu a rheoli wedi eu diffinio'n glir, ac mae llinellau atebolrwydd priodol yn bodoli. Cryfhawyd goruchwyliaeth y Bwrdd Llywodraethwyr ar ansawdd a safonau yn ystod y cyfnod craffu wedi i'r Panel Craffu ar Ansawdd a Safonau ddod yn is-bwyllgor llawn i'r Bwrdd Llywodraethwyr o dan ei enw newydd, y Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd.

45 Mae lefel briodol o arweinyddiaeth academaidd drylwyr a chryf ar waith ar draws darpariaeth addysg uwch gyfan y Brifysgol. Mae'r Brifysgol yn gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth â'i staff, ei myfyrwyr a'i rhanddeiliaid eraill i ddatblygu, gweithredu a chyfleu ei pholisïau a'i systemau academaidd. Mae ei rheoliadau, ei pholisïau, ei chodau ymarfer a'i systemau'n cael eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd, ac mae'r Brifysgol yn adolygu effeithiolrwydd ei threfnau llywodraethu a rheoli'n rheolaidd. Mae mecanweithiau yn eu lle i reoli risgiau a sicrhau safonau academaidd. Yn ychwanegol at y dystiolaeth sydd wedi derbyn sylw mewn perthynas â Maen prawf A, mae'r sail tystiolaeth ehangach a adolygwyd mewn adrannau eraill o'r adroddiad hwn, yn cynnwys adroddiadau arholwyr allanol, hefyd yn dangos bod y Brifysgol yn arfer stiwardiaeth effeithiol ar ei phwerau dyfarnu graddau a addysgir.

46 Fel y trafodwyd uchod ac mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn, mae'r Brifysgol wrthi'n gweithredu newidiadau yn ei threfniadau llywodraethu a rheoli ansawdd academaidd sy'n ymwneud â'r meini prawf ar gyfer pwerau dyfarnu graddau a addysgir mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad i CCAUC am Ymchwiliad i Bryderon. Yn ystod y cyfnod craffu, daeth y tîm i'r casgliad bod y newidiadau a weithredwyd yn ymddangos yn briodol ac yn ddigonol i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd yn yr adroddiad i CCAUC, ac y bydd y newidiadau hyn yn cryfhau rheolaeth y Brifysgol ar y cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â phwerau dyfarnu graddau a addysgir. Er bod y Brifysgol wedi gwneud cynnydd, ac yn parhau i wneud cynnydd o ran cymryd camau i fynd i'r afael â'r gwendidau a ganfuwyd, nid oedd effeithiolrwydd y newidiadau sydd wrthi'n cael eu gweithredu wedi cael ei brofi eto pan ddaeth y cyfnod craffu i ben, yn unol â'r amserlenni y cytunwyd arnynt ar gyfer yr Ymchwiliad i Bryderon gan QAA/CCAUC a rannwyd gyda'r tîm craffu. Byddai gwaith profi o'r fath yn darparu rhagor o dystiolaeth i alluogi i'r Brifysgol ddangos ei bod yn rheoli'r cyfrifoldebau ychwanegol yn llwyddiannus sy'n gysylltiedig â phwerau dyfarnu graddau a addysgir.

Maen prawf B: Safonau academaidd a sicrhau ansawdd

Maen prawf B1

47 Dyma ddywed y maen prawf hwn:

> *Mae gan sefydliad a gaiff bwerau i ddyfarnu graddau a addysgir fframwaith rheoleiddio priodol ar waith i lywodraethu'r modd y caiff ei gymwysterau addysg uwch eu dyfarnu.*

48 Mae gan y Brifysgol reoliadau sefydledig i lywodraethu'r ffordd y mae'n dyfarnu credydau a chymwysterau i'r myfyrwyr sy'n astudio ar ei rhaglenni a addysgir hyd at, ac yn cynnwys, lefel 7. Cefnogir y rheoliadau gan fframwaith o bolisïau a gweithdrefnau academaidd a ddatblygwyd i reoli'r gwaith o ddarparu'r cyrsiau gradd, yn cynnwys, er enghraifft, bolisïau ar gyfer derbyn ac asesu myfyrwyr a rheoli apeliadau a chwynion ganddynt. Mae'r fframwaith rheoleiddio'n briodol oherwydd mae'n gosod y cwmpas a'r amodau y mae'r Bwrdd Academaidd yn dyfarnu cymwysterau oddi tanynt, ac yn awdurdodi byrddau arholi i ddyfarnu marciau a graddau ar ei ran, yn ogystal â'r gofynion o ran symud myfyrwyr ymlaen, a chyfrifo a dosbarthu pob un o'i ddyfarniadau, gan gynnwys trosglwyddo credydau a gweithredu byrddau arholi. Mae'r rheoliadau a'r polisïau a gweithdrefnau academaidd cysylltiedig yn gynhwysfawr oherwydd maent yn nodi'r hyn sydd ei angen i sicrhau safonau academaidd darpariaeth a addysgir y Brifysgol, er enghraifft: trefniadau ar gyfer penodi staff a derbyn myfyrwyr, gofynion o ran y Gymraeg a'r Saesneg, cofrestru myfyrwyr, eu hasesu a'u harholi, eu trosglwyddo, eu hatal dros dro a'u tynnu allan, symud myfyrwyr ymlaen a dyfarnu graddau iddynt, cyhoeddi'r canlyniadau, a threfniadau sicrhau a gwella ansawdd megis dilysu a monitro rhaglenni, yn ogystal â gweithdrefnau sy'n ymwneud â materion myfyrwyr megis apeliadau academaidd, cwynion ac achosion o gamymddwyn academaidd.

49 Mae'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd yn tanategu'r rheoliadau ac yn rhoi disgrifiad manwl o'r mecanweithiau sicrhau ansawdd y mae'r Brifysgol yn eu defnyddio i sicrhau safonau academaidd ei dyfarniadau a addysgir. Mae'r llawlyfr cynhwysfawr hwn yn ymwneud â'r gofynion o ran sicrhau ansawdd a'r gweithdrefnau ar gyfer pob agwedd o'r gwaith o ddilysu, adolygu'n gyfnodol, addasu a chau rhaglenni, a'u monitro a'u gwella'n barhaus, yn ogystal â chydnabod dysgu blaenorol a defnyddio arholwyr allanol. Mae'r llawlyfr hefyd yn disgrifio sut mae'r Brifysgol yn sicrhau bod ei fframwaith academaidd a'i fframwaith rheoleiddio'n cyfateb â Chod Ansawdd y DU a phwyntiau cyfeirio allanol eraill. Er enghraifft, mae gofyn i bob rhaglen a gyflwynir i'w dilysu gyfateb ag adrannau perthnasol Cod Ansawdd y DU, y FHEQ, Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC), Datganiadau Meincnodi Pwnc a Datganiadau o Nodweddion cymwysterau, yn ogystal â gofynion cyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio (cyrff PSRh). Mae Fframwaith Cwricwlwm Modiwlaidd y Brifysgol yn cynnwys modiwlau sydd â gwerth credyd rhagnodedig, sef 20 credyd fel arfer neu luosrif cyfannol o hynny, gyda lefelau sy'n gysylltiedig â'r FHEQ a FfCChC a chyfanswm yr oriau dysgu ar gyfer pob lefel astudio.

50 Mae rheoliadau'r Brifysgol a'i pholisïau a gweithdrefnau sicrhau ansawdd yn berthnasol i bob un o'i rhaglenni a addysgir, yn cynnwys y rheiny a ddarperir yn ei sefydliadau partner, heblaw bod eithriadau'n derbyn ystyriaeth gan Banelau Cymeradwyo Partneriaid a Dilysu Darpariaeth ac yna'n cael eu cymeradwyo gan y Bwrdd Academaidd trwy argymhelliad gan y Pwyllgor Partneriaethau Academaidd / Tîm Gweithredol yr Is-Ganghellor. Cadarnhaodd cynrychiolwyr staff sefydliadau partner yn y DU a thramor y cyfarfu'r tîm â nhw eu bod yn gyfarwydd â gofynion rheoleiddiol y Brifysgol, yn ogystal â fframweithiau cymwysterau allanol, a bod y Swyddfa Partneriaethau'n eu hyfforddi nhw yn y rheoliadau hyn, fel y mae wedi ei ddisgrifio yn y Llawlyfr Partneriaeth. Ystyriwyd y cyswllt academaidd yn un cefnogol, a rhoddwyd cyfleoedd i'r staff roi sylwadau am newidiadau

arfaethedig i bolisïau academaidd a chawsent eu hysbysu unwaith yr oedd y newidiadau wedi eu cymeradwyo.

51 Mae'r Bwrdd Academaidd yn gyfrifol am sefydlu'r rheoliadau, y polisïau a'r gweithdrefnau academaidd sy'n llywio gweithgareddau academaidd y sefydliad, ac am gynnal safonau academaidd a sicrhau a gwella ansawdd y cyfleoedd dysgu ac addysgu a phrofiad y myfyrwyr, yn cynnwys mewn perthynas â darpariaeth gydweithredol. Gwelodd y tîm dystiolaeth i ddangos bod y Bwrdd Academaidd yn cyflawni ei gyfrifoldebau mewn ffordd briodol drwy ystyried tystiolaeth sy'n galluogi cadw goruchwyliaeth gyson ar weithrediad gweithredol y fframwaith a'r rheoliadau academaidd. Ym mhapurau a chofnodion cyfarfodydd y Bwrdd Academaidd, gwelwyd tystiolaeth i ddangos bod ganddo'r awdurdod i gymeradwyo diwygiadau i'r rheoliadau academaidd a newidiadau i bolisïau a gweithdrefnau academaidd, cymeradwyo'r calendr academaidd, dilysu rhaglenni, atal rhaglenni dros dro a chymeradwyo cynigion am bartneriaethau, yn cynnwys mewn perthynas â darparu addysg ac asesu mewn ieithoedd heblaw'r Saesneg, cymeradwyo cadeiryddion byrddau asesu a dyfarnu, yn ogystal â chymeradwyo Datganiadau o Safonau Graddau a phrosesau goruchwylio cyrff PSRh. Mae cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Ansawdd Dysgu ac Addysgu (Pwyllgor ADA), y Pwyllgor Ymchwil a'r Pwyllgor Partneriaethau Academaidd yn cadarnhau bod materion yn ymwneud â phartneriaethau ac ymchwil, ac ansawdd y dysgu a'r addysgu, wedi eu cynnwys fel eitemau sefydlog ar eu hagendâu.

52 Mae prosesau monitro'r Brifysgol yn sicrhau bod y fframwaith rheoleiddio'n cael ei weithredu'n gyson ymhob rhan o'r sefydliad ac, o'r prosesau hyn, mae'r Tîm Ansawdd yn tynnu ynghyd faterion sydd wedi codi yn ystod y flwyddyn i gyflwyno diwygiadau i'r Bwrdd Academaidd i dderbyn cymeradwyaeth. Yna mae'r diweddariadau'n cael eu rhaeadru i'r staff i gyd, yn cynnwys staff sefydliadau partner. Yn ystod y cyfnod craffu, clywodd y tîm craffu gan y staff academaidd am esiampl lle gwnaed newidiadau i reoliadau Prifysgol Glyndŵr Wrecsam Ar-lein (PGWA) ar gyfer graddau meistr a addysgir er mwyn mynd i'r afael â phroblemau'n ymwneud ag amseriad y byrddau dilyniant. Roedd y rheoliadau diwygiedig wedi cyflwyno heriau dilynol i'r calendr academaidd ar gyfer y myfyrwyr hynny sy'n symud ymlaen at eu traethawd o fewn y dull o ddarparu cyrsiau gradd meistr a addysgir ar-lein. Cafodd y broblem ei datrys drwy wneud rhagor o ddiwygiadau i reoliadau PGWA ar gyfer graddau meistr a addysgir, a gafodd eu cymeradwyo gan y Bwrdd Academaidd ym mis Mai 2023, sy'n lleihau'r gofyniad i fyfyrwyr gwblhau nifer penodol o gredydau (o 150 i 120) cyn iddyn nhw allu cofrestru ar gyfer eu traethawd, ac yn diddymu rhagofynion. Roedd y Brifysgol hefyd wedi cychwyn cynllun gweithredu ar gyfer sicrhau uniondeb academaidd o ganlyniad i broses fonitro fewnol sy'n mynd i'r afael â chynnydd yn yr achosion o gamymddwyn academaidd a gafwyd yn ystod 2021-22, gyda'r bwriad o ail lansio proses newydd sy'n adlewyrchu arferion y sector ac yn mynd i'r afael â dylanwad cynyddol deallusrwydd artiffisial.

53 Yn ystod y cyfnod craffu, gwnaeth y Brifysgol adolygiad o'i rheoliadau, mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed gan QAA yn ei hadroddiad i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) am yr Ymchwiliad i Bryderon. O ganlyniad, gwnaethpwyd nifer o esboniadau ac addasiadau bach i'w rheoliadau cyffredinol er mwyn sicrhau eu bod yn fwy eglur a chyson. Yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2023, penderfynodd y Bwrdd Academaidd gymeradwyo fersiynau terfynol y Rheoliadau Cyffredinol a'r rheoliadau sy'n benodol berthnasol i ddyfarniadau a addysgir i'w gweithredu ar unwaith yn ystod 2023-24. Nodwyd y rheoliadau academaidd diwygiedig mewn adroddiad i gyfarfod y Bwrdd Llywodraethwyr ym mis Tachwedd 2023. Cyn i'r Bwrdd Academaidd gynnal ei gyfarfod ym mis Tachwedd, roedd y Gweithgor Sicrhau Ansawdd a'r Pwyllgor ADA wedi ystyried fersiynau cynharach o'r rheoliadau cyn cyflwyno'r fersiwn terfynol i'r Bwrdd Academaidd ym mis Medi i'w drafod yn fanwl, ac roedd hyn wedi cynnwys cadarnhau'r diwygiadau a gynigwyd gan Is-lywydd Undeb y Myfyrwyr.

54 Hefyd, mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed yn adroddiad yr Ymchwiliad i Bryderon, cafodd y gweithdrefnau ar gyfer amgylchiadau esgusodol eu diweddaru yn ystod y cyfnod craffu, a chymeradwyodd y Bwrdd Academaidd newidiadau ym mis Mai 2023 i egluro rolau a chyfrifoldebau Cadeirydd y Panel Amgylchiadau Esgusodol a Chyfarwyddwr y Panel Amgylchiadau Esgusodol. Hefyd, gwelodd y tîm dystiolaeth o ddiwygiadau a wnaed mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed gan QAA yn ei hadroddiad i CCAUC, i drefniadau ar gyfer monitro apeliadau academaidd a chwynion (gwelwch y drafodaeth am Faen prawf Ch), templedi ar gyfer dilysu rhaglenni (gwelwch y drafodaeth am Faen prawf B2) a gweithdrefnau ar gyfer sgorio'r risgiau sy'n gysylltiedig â chynigion am bartneriaethau newydd (gwelwch Faen prawf A).

55 Yn rhan o waith tymor hirach y Brifysgol o adolygu ei fframwaith rheoleiddio, cychwynnodd y Tîm Ansawdd a Rheoliadau broses o adolygu pob un o'i pholisïau a'i gweithdrefnau presennol sy'n cefnogi'r Rheoliadau Cyffredinol. Disgwylir y bydd y gwaith hwn wedi ei gwblhau yn ystod 2024.

56 Gwelodd y tîm dystiolaeth i ddangos bod y fframwaith rheoleiddio a'r polisïau a gweithdrefnau cysylltiedig yn cael eu gweithredu'n gyson. Er enghraifft, dilynir agendâu safonol i sicrhau bod y byrddau arholi'n cael eu gweithredu'n gyson ar draws y modiwlau a rhaglenni. Mae adran 4 y Rheoliadau Academaidd: Byrddau Arholi 2022-23 yn amlinellu cylch gwaith, cyfansoddiad a chworwm pob bwrdd arholi, ac yn gosod safonau'r dyfarniadau. Mae canllawiau clir ar gael am weithrediad byrddau modiwl a byrddau dilyniant mewn perthynas â gweithrediad y byrddau, rolau aelodau'r byrddau, cofnodi trafodaethau, ymdrin ag achosion posibl o gamymddwyn academaidd, absenoldeb arholwyr allanol a chamau gweithredu'r Cadeirydd. Trwy arsylwi cyfarfodydd byrddau arholi ar lefel y modiwlau a'r rhaglenni, gallai'r tîm gadarnhau ei bod wedi dilyn y gweithdrefnau a nodir yn rheoliadau academaidd y Brifysgol wrth iddynt wneud penderfyniadau, yn cynnwys amgylchiadau esgusodol a ystyriwyd gan fwrdd y modiwl, cyfeiriad at randdirymu yn ymwneud â gofynion cyrff proffesiynol, adolygiad o broffiliau'r myfyrwyr unigol ac achosion dosbarthu ar y ffin rhwng dau ddosbarth, a gweithrediad digolledu, ymadael ac ail eistedd. Roedd aelod o'r Tîm Ansawdd yn cyfranogi'n rhagweithiol i sicrhau bod y byrddau'n gweithredu'n gyson. Cadarnhaodd yr arholwyr allanol oedd yn bresennol yng nghyfarfodydd y byrddau bod y gweithdrefnau wedi eu gweithredu'n briodol ac yn unol â rheoliadau academaidd y sefydliad a'i bolisïau a gweithdrefnau asesu.

57 Cefnogir y Polisi Derbyn ar gyfer myfyrwyr israddedig a myfyrwyr ôl-raddedig a addysgir, a adolygwyd yn 2022, gan Bolisi Derbyn Cyd-destunol y Brifysgol, ei Pholisi Apeliadau Ymgeiswyr a'i Strategaeth Ehangu Mynediad a Chyfranogaeth sy'n nodi bwriad y Brifysgol i fod yn hygyrch, yn deg ac yn gynhwysol, yn rhan o strategaeth, gweledigaeth a gwerthoedd ehangach y Brifysgol. Mae Polisi'r Saesneg yn nodi safonau hyfedredd gofynnol sy'n adlewyrchu'r gofynion a roddir ar fyfyrwyr gan Fisâu a Mewnfudo'r DU. Ar hyn o bryd, mae'r Brifysgol yn dilyn polisïau Prifysgol Caer ar gyfer derbyn myfyrwyr i gyrsiau gradd ymchwil ôl-raddedig, ac ym mis Gorffennaf 2023, dirprwywyd y cyfrifoldeb i'r Brifysgol am ymdrin yn uniongyrchol â cheisiadau ar-lein am leoedd ar raglenni gradd ymchwil, a chyhoeddwyd gwybodaeth ar ei gwefan sy'n ymwneud â'r meini prawf derbyn, y trefniadau goruchwylio, cyfweliadau cynnig a gwrthodiadau. Siaradodd y myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig y cyfarfu'r tîm â nhw mewn ffordd gadarnhaol am y trefniadau derbyn, gan gadarnhau bod y wybodaeth gyn-gofrestru, ymatebion prydlon i ymholiadau, cymorth i ymgeiswyr gan lysgenhadon myfyrwyr a gweinyddwyr, a'r broses dderbyn, wedi eu helpu i wneud dewisiadau deallus. Trwy ystyried y polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer derbyn myfyrwyr a thrafod ag amrywiaeth o fyfyrwyr, gallai'r tîm gadarnhau bod y system dderbyn yn cael ei gweithredu'n gyson, yn unol ag amcanion polisi a gwerthoedd y Brifysgol.

58 Hefyd, gwelodd y tîm dystiolaeth o weithrediad effeithiol polisïau a gweithdrefnau'r Brifysgol ar gyfer cymeradwyo rhaglenni (gwelwch y drafodaeth am Faen prawf B2 a Maen

prawf B4), polisïau a gweithdrefnau asesu (gwelwch y drafodaeth am Faen prawf B3) a threfniadau ar gyfer rheoli cwynion ac apeliadau academaidd gan fyfyrwyr (gwelwch y drafodaeth am Faen prawf Ch1).

59 Trwy gydweithio â'i phrifysgolion partner, mae gan y Brifysgol brofiad eang o weithredu rheoliadau a fframweithiau academaidd ar gyfer graddau ymchwil ôl-raddedig. Ar hyn o bryd, mae'r Brifysgol yn defnyddio rheoliadau Prifysgol Caer ar gyfer graddau ymchwil ôl-raddedig i lywio sut y mae'n dyfarnu cymwysterau gradd ymchwil ôl-raddedig. Cyn hynny, bu'r Brifysgol yn gweithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Cymru wrth ddyfarnu cymwysterau ymchwil ôl-raddedig.

60 Roedd Prifysgol Cymru a Phrifysgol Caer wedi cydweithio â Phrifysgol Wrecsam, wrth iddi baratoi ar gyfer derbyn pwerau DGY, i ddatblygu ei hannibyniaeth o ran llywodraethu a rheoli graddau ymchwil ôl-raddedig. Gwnaethpwyd adolygiad cyfnodol o ddarpariaeth graddau ymchwil y sefydliad gan Brifysgol Cymru yn 2014 a gan Brifysgol Caer yn 2018, a lluniwyd cynlluniau gweithredu mewn ymateb i argymhellion ar gyfer gwella a gafwyd ganddynt, ond ni chanfuwyd unrhyw feysydd a fyddai'n achosi pryder mawr.

61 Yn 2020, gwnaeth Prifysgol Caer adolygiad i ymdrin â phroblemau oedd yn codi allan o adroddiadau monitro blynyddol ac adroddiadau llywodraethol oedd yn ymwneud â chapasiti goruchwylio'r sefydliad, cynnydd ei fyfyrwyr a'i drefniadau cymorth. Roedd yr adolygiad hefyd yn edrych lle'r oedd y cais arni gan Brifysgol Wrecsam am bwerau DGY. O ganlyniad i gynllun gweithredu a luniwyd mewn ymateb i'r adolygiad, sefydlwyd Cydbwyllgor Rhaglenni yn rhan o fframwaith rheoleiddio Prifysgol Caer i lywio'r bartneriaeth ac adolygu cynnydd cais y sefydliad am bwerau DGY, ac i roi cymorth i staff Prifysgol Wrecsam fel y bo'r gofyn. Er enghraifft, cadarnhaodd cofnodion cyfarfod y Cydbwyllgor Rhaglenni a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2021 fod y rheoliadau ar gyfer astudiaethau ôl-raddedig ar gael i oruchwylwyr ymchwil ar y rhith-amgylchedd dysgu, a'u bod yn cael eu hyfforddi yn y rheoliadau a'r gofynion sy'n ymwneud â goruchwylio, bod hyn yn cael ei gofnodi a'i fonitro wedyn, a bod hyfforddiant diweddaru'n cael ei ddarparu. Cadarnhaodd aelodau o staff Prifysgol Caer a Phrifysgol Wrecsam fod y Cydbwyllgor Rhaglenni wedi hwyluso perthynas waith agosach lle dirprwywyd mwy o gyfrifoldeb i'r sefydliad er mwyn cefnogi ei alluoedd ym meysydd ymchwil a'i gapasiti i oruchwylio myfyrwyr ymchwil.

62 Wrth baratoi ar gyfer derbyn pwerau DGY, mae'r Brifysgol wedi datblygu fframwaith rheoleiddio ar gyfer dyfarnu ei graddau ymchwil ei hun - fframwaith a gafodd ei gymeradwyo gan y Bwrdd Academaidd yn dilyn trafodaeth estynedig drwy gyfrwng y strwythurau llywodraethu. Mae'r rheoliadau wedi eu seilio ar Fframwaith Academaidd Cyffredin Prifysgol Cymru a chawsent eu cymeradwyo i ddechrau gan Bwyllgor Ymchwil y sefydliad ym mis Ionawr 2022 a gan ei Fwrdd Academaidd ym mis Chwefror 2022. Hefyd, mewn ymateb i'r argymhelliad a gafwyd gan y Pwyllgor Ymchwil ar 19 Hydref 2023 y dylid cefnogi'r nifer fawr o'r staff sy'n gweithio i ennill graddau doethuriaeth, cymeradwyodd y Bwrdd Academaidd reoliadau ar wahân ym mis Tachwedd 2023 ar gyfer graddau doethuriaeth (PhD) ar sail cyhoeddiadau blaenorol a graddau doethuriaeth broffesiynol. Ym mis Medi 2023, cafodd y rheoliadau academaidd arfaethedig, oedd yn ymwneud â'r holl ddyfarniadau ymchwil arfaethedig, eu hystyried gan y Bwrdd Academaidd, gan ddarparu eglurhad am y dyfarniadau meistr mewn ymchwil (MRes) gan hefyd nodi bod angen rhagor o drafodaeth am ddyfarnu graddau er anrhydedd yn lle statws Cymrawd er Anrhydedd, yn ogystal â chynlluniau i ddatblygu rhaglen sy'n arwain at Ddoethuriaeth mewn Addysg (EdD). Yn dilyn hynny, aeth y Bwrdd Academaidd ati ym mis Tachwedd 2023 i gymeradwyo'r gyfres derfynol o reoliadau drafft oedd yn cynnwys diweddariadau y cytunwyd arnynt ym mis Medi.

63 Mae fersiwn terfynol y rheoliadau ymchwil drafft yn rhoi manylion cynhwysfawr dull arfaethedig y sefydliad o reoli a dyfarnu ei raddau ymchwil, sy'n cynnwys graddau meistr mewn athroniaeth (MPhil), graddau doethuriaeth (PhD), graddau doethuriaeth broffesiynol,

graddau PhD ar sail cyhoeddiadau blaenorol, a graddau doethuriaeth uwch, yn ogystal â manylion y gofynion sy'n berthnasol i bob cam o brofiad y myfyriwr ar gwrs gradd ymchwil, o'r cam derbyn, drwy'r adolygiadau cynnydd, hyd yr arholi.

Maen prawf B2

64 Dyma'r maen prawf hwn:

> *Mae gan sefydliad a gaiff bwerau i ddyfarnu graddau a addysgir systemau clir a weithredir yn gyson ar gyfer diffinio a sicrhau safonau academaidd ei ddarpariaeth o ran addysg uwch.*

65 Mae gofynion y Brifysgol mewn perthynas â lefelau ei dyfarniadau wedi eu nodi yn ei Diffiniadau a'i Rheoliadau Cyffredinol ac maen nhw wedi eu hymwreiddio yn ei fframwaith rheoleiddio. Mae'r rheoliadau'n nodi yr aseinir lefel sy'n cyfateb â'r FHEQ a FfCChC i bob modiwl a gynigir yn y Brifysgol, ac maent yn mapio'r dyfarniadau cymeradwy a gynigir ym mhortffolio'r Brifysgol yn eglur yn erbyn y lefelau yn FfCChC a'r gofynion sylfaenol ynglŷn â faint o gredyd sy'n berthnasol i'r cymwysterau unigol, gan groesgyfeirio at y FHEQ lle mae'r gofynion credyd yn amrywio rhwng dyfarniadau penodol, er enghraifft rhwng Tystysgrif/Diploma i Raddedigion a Diploma Proffesiynol Addysg i Raddedigion. Mae'r rheoliadau hefyd yn nodi'r gofynion o ran lefel yr astudio a'r maint o gredyd ar gyfer dosbarthiad pob dyfarniad, yn cynnwys y meini prawf sydd angen eu bodloni er mwyn i ganlyniadau sydd ar y ffin rhwng dwy lefel gael eu codi i'r dosbarthiad nesaf.

66 Mae'r ymlyniad â'r lefelau cywir yn y FHEQ a FfCChC ar gyfer pob dyfarniad yn cael ei fonitro a'i ddilysu drwy amrywiol gamau proses y Brifysgol o gymeradwyo a dilysu rhaglenni, wedi'u cefnogi gan dempledi dilysu a rhestrau gwirio i gofnodi cydymffurfiad. Gofynnir i bob panel dilysu farnu ar ran y Bwrdd Academaidd a yw'r rhaglen benodol yn cyfateb â'r disgrifyddion lefel sydd wedi eu nodi yn y FHEQ a FfCChC. Mae manylebau cymeradwy'r rhaglenni a welwyd gan y tîm yn cyfeirio'n eglur at lefelau'r modiwlau sydd wedi eu dangos yn niagramau strwythurol y rhaglenni ac yn y ddogfen sy'n mapio'r deilliannau dysgu a fwriedir yn erbyn gwybodaeth, dealltwriaeth, sgiliau deallusol, sgiliau pwnc-benodol, sgiliau ymarferol a phroffesiynol, a sgiliau sy'n hybu cyflogadwyedd, ac mae manylebau'r modiwlau unigol yn nodi'r lefelau perthnasol yn eglur.

67 Archwiliodd y tîm fanylebau cymeradwy rhaglenni a modiwlau, a nododd eu bod yn adlewyrchu'r disgrifyddion lefel ar gyfer cymwysterau addysg uwch sydd wedi eu nodi yn y FHEQ a FfCChC, gan gyfeirio'n eglur at y lefel gywir o ddeilliannau dysgu y mae disgwyl i'r myfyrwyr eu dangos ar ôl cwblhau'r cwrs. Felly, gallai'r tîm adolygu gadarnhau bod y Brifysgol yn cynnig pob un o'i chymwysterau addysg uwch ar hyn o bryd ar lefel sy'n cyfateb â'r lefel berthnasol yn y Fframweithiau Cymwysterau.

68 Mae'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd yn rhoi manylion cynhwysfawr y trefniadau ar gyfer dilysu, adolygu'n gyfnodol, addasu a chau rhaglenni, monitro rhaglenni, defnyddio arholwyr allanol a gweithio gyda chyrff PSRh, gyda'r nod o sicrhau bod rheolwyr ei dyfarniadau addysg uwch yn rhoi ystyriaeth briodol i God Ansawdd y DU, Datganiadau o Nodweddion, fframweithiau credydau a Datganiadau Meincnodi Pwnc perthnasol, yn ogystal â gofynion cyrff PSRh.

69 Yn ystod y cyfnod craffu, mae'r Brifysgol wedi diweddaru ei thempledi ar gyfer adroddiadau dilysu ac adolygu cyfnodol er mwyn dangos yn eglur bod gofyniad i'r panel dilysu gadarnhau bod rhaglenni newydd neu ddiwygiedig yn cydymffurfio â phwyntiau cyfeirio mewnol ac allanol wrth ddod i'w gasgliadau yn rhan o'r broses gymeradwyo - mae'r newidiadau hyn wedi eu trafod a'u hesbonio ymhellach isod. Mae'r templedi'n adlewyrchu gofynion y Llawlyfr Ansawdd Academaidd i banelau dilysu gadarnhau bod rhaglenni wedi eu

halinio'n briodol â gofynion y cyrff PSRh perthnasol, yn ogystal â Datganiadau Meincnodi Pwnc, y lefelau yn y FHEQ a FfCChC, a Datganiadau o Nodweddion y cymwysterau. Mae canllawiau SHAPE y Brifysgol (ystyr yr acronym Saesneg hwn yw cefnogi dull cyfannol o wella rhaglenni), sy'n gofyn cwblhau'r ffurflen Cynnig Rhaglen Cychwynnol yn rhan o'r broses ddilysu, yn tynnu sylw timau'r rhaglenni at bwyntiau cyfeirio allanol a phwyntiau cyfeirio'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd ar gyfer dilysu rhaglenni.

70 Trwy graffu ar adroddiadau dilysu ac ail-ddilysu, gallai'r tîm gadarnhau bod dogfennaeth y rhaglenni wedi cael eu defnyddio gan y panelau fel sail i drafod a chadarnhau gyda thîm y rhaglen mor briodol yw alinio â fframweithiau cymwysterau, Datganiadau o Nodweddion, Datganiadau Meincnodi Pwnc a gofynion cyrff PSRh.

71 Mae prosiect CREATE y Brifysgol (ystyr yr acronym Saesneg hwn yw cydweithio wrth adolygu a gwella asesiadau a rhagoriaeth addysgu) yn broses ddatblygiadol a arweinir gan gymheiriaid ar gyfer timau'r rhaglenni sy'n cymryd rhan yn y gwaith dilysu neu sydd angen cymorth gyda gwella eu rhaglenni. Mae gweithdai CREATE yn hwyluso'r gwaith o adolygu strategaethau'r rhaglenni ar gyfer dysgu, addysgu ac asesu er mwyn sicrhau bod gan bob rhaglen/modiwl ddeilliannau dysgu effeithiol, ac i gefnogi tîm pob rhaglen sy'n paratoi ar gyfer y broses ddilysu o ran deall gofynion mewnol ac allanol, rhannu'r arferion gorau a herio arferion a syniadau cyfredol. Gwelwyd esiampl o hyn mewn gweithdy am ddeilliannau dysgu rhaglenni. Cadarnhaodd staff y gwasanaethau proffesiynol y cyfarfu'r tîm â nhw fod y gweithdai CREATE yn darparu fforwm effeithiol iddyn nhw gysylltu â chydweithwyr academaidd i drafod dogfennaeth y rhaglenni cyn dilysu neu newid y rhaglenni, er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'w dibenion, yn bodloni gofynion allanol, ac yn disgrifio deilliannau dysgu priodol.

72 Yn unol â Chod Ansawdd y DU, mae'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd yn rhoi manylion y trefniadau ar gyfer dilysu rhaglenni, gan nodi y dylai timau'r rhaglenni ddefnyddio arbenigedd priodol yn y pwnc, y proffesiwn neu'r diwydiant wrth ddatblygu'r ddogfen i'w cyflwyno, ac y dylai pob panel cymeradwyo gynnwys aseswr allanol fel aelod. Mae'r aseswr allanol yn cael ei dynnu fel arfer o blith staff sefydliad addysg uwch arall er mwyn sicrhau lefel briodol o wybodaeth ac arbenigedd yn y pwnc penodol, a'u gallu i roi sylwadau ar safonau academaidd ac alinio â fframweithiau cymwysterau cenedlaethol. Gofynnir i aseswyr allanol sy'n dilysu rhaglenni prentisiaeth fod â phrofiad o ddarpariaeth o'r fath ac efallai y penodir aseswyr allanol ychwanegol sydd â chefndir proffesiynol/diwydiannol ar raglenni sy'n canolbwyntio ar alwedigaeth benodol.

73 Trwy adolygu adroddiadau dilysu ac ail-ddilysu, gan gynnwys y rheiny ar gyfer rhaglenni'r partneriaid, a thrwy arsylwi digwyddiadau dilysu, gallai'r tîm gadarnhau bod pob un o'r panelau'n cynnwys aelodau allanol, o blith staff sefydliadau academaidd eraill, sydd â'r arbenigedd priodol yn y meysydd penodol perthnasol, yn ogystal â gweithiwr proffesiynol o'r diwydiant, lle bo'n briodol.

74 Mae'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd yn cymryd i ystyriaeth y gofynion rheoleiddiol unigol penodol i ganiatáu i raglenni sicrhau achrediad gan gyrff PSRh, yn cynnwys opsiynau i gynnal digwyddiadau dilysu naill ai ar wahân neu ar y cyd, drwy graffu gan yr Is-bwyllgor Rhaglenni Academaidd (Is-bwyllgor RhA), gyda chefnogaeth y Tîm Ansawdd a Rheoliadau. Mae'r broses ddilysu'n caniatáu craffu manwl ar ofynion cyrff PSRh ac unrhyw ddogfennau cysylltiedig cyn eu cyflwyno i'r panel dilysu i'w hystyried. Dylai o leiaf un o'r aseswyr mewnol, a benodir i'r panel dilysu o'r tu allan i faes academaidd y gyfadran, fod â phrofiad o raglenni sydd wedi eu hachredu gan gyrff PSRB. Mae'r rhaglenni cyfredol yn gofyn am addasiadau mawr sy'n gofyn am ymgynghoriad â'r corff PSRh perthnasol i'w gynnwys o fewn y ffurflen gyflawn.

75 Mae'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd yn diffinio'r broses yn glir ar gyfer cael cymeradwyaeth cyrff PSRh, lle mae'r Is-bwyllgor RhA yn gyfrifol am graffu ar adroddiadau cymeradwyo'r cyrff PSRh perthnasol a sicrhau yr ymatebir i unrhyw amodau/argymhellion atodol, gan adrodd i'r Pwyllgor ADA. Bu'r tîm yn arsylwi cyfarfod yr Is-bwyllgor RhA a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2023 oedd yn dangos bod addasiadau mawr wedi eu hystyried i nifer o raglenni/modiwlau cyfredol er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu eu haliniad i ofynion cyrff proffesiynol, er enghraifft, y rhaglen gradd LLB yn y Gyfraith a'r modiwl mewn Nyrsio. Mae Byrddau Astudiaethau'r Cyfadrannau'n cynnal goruchwyliaeth ar statws parhaus eu rhaglenni sydd ag achrediad cyrff PSRB, a bu'r tîm yn arsylwi cyfarfodydd lle trafodwyd y gwaith o baratoi ar gyfer ymweliadau achredu arfaethedig. Mae'r Brifysgol yn cynnal cofrestr o gyrff PSRh sy'n cael ei chraffu gan y Bwrdd Llywodraethwyr.

76 Mae'r Brifysgol yn defnyddio arholwyr allanol i'w sicrhau ei hun fod rhaglenni'n cael eu dylunio, eu darparu a'u hasesu i sicrhau y cedwir y safonau academaidd priodol. Mae pennod 5 y Llawlyfr Ansawdd Academaidd yn amlinellu'r meini prawf ar gyfer enwebu a phenodi arholwyr allanol i bob dyfarniad, yn cynnwys rhaglenni a gynigir o dan drefniadau cydweithredol, ynghyd â'r prosesau ar gyfer eu penodi a'u hymsefydlu, a'r trefniadau adrodd. Mae'r Llawlyfr i Arholwyr Allanol yn nodi manylion cyfrifoldeb yr arholwyr allanol am wirio a yw'r safonau academaidd yn briodol i'r dyfarniadau/modiwlau y maen nhw wedi eu penodi i'w harholi, a'u cyfrifoldeb am gefnogi/cynghori'r sefydliad wrth sicrhau a chynnal safonau academaidd ei ddyfarniadau addysg uwch i gyd. Mae arholwyr allanol hefyd yn rhoi cyngor a chymorth i'r sefydliad i sicrhau bod y prosesau asesu'n gadarn, wedi eu gweithredu'n deg ac yn cyfateb â'i bolisïau a'i reoliadau. Un o swyddogaethau allweddol yr arholwr allanol a'r prif arholwr allanol fel ei gilydd yw cymharu perfformiad y myfyrwyr sy'n astudio yn y sefydliad â pherfformiad eu cymheiriaid sy'n astudio ar raglenni cyfatebol mewn sefydliadau addysg uwch eraill. Mae pob adroddiad arholwr allanol yn cynnwys adran sy'n gofyn iddynt roi sylwadau am y gallu i gymharu safonau academaidd a chysondeb y dyfarniadau gyda'r FHEQ, ac mae gofyn i dîm pob rhaglen roi ymatebion ysgrifenedig i faterion sydd wedi eu hamlygu mewn adroddiadau.

77 Mae gofyn i arholwyr allanol fynychu cyfarfodydd y byrddau arholi perthnasol i wneud penderfyniadau am gynnydd y myfyrwyr a dyfarniadau y mae'r bwrdd yn gyfrifol amdanynt, a chadarnhawyd hyn drwy arsylwi byrddau arholi. Hefyd, rhaid i arholwyr allanol gyflwyno adroddiad blynyddol am y safonau academaidd a chyflawniad y myfyrwyr, ac am gadernid a thegwch y prosesau ar gyfer asesu a phenderfynu ar ddyfarniadau. Trwy arolygu adroddiadau arholwyr allanol, gallai'r tîm gadarnhau bod yr adroddiadau'n rhoi sylwadau agored am briodoldeb y tasgau asesu, y safonau academaidd a osodir ar y rhaglenni a'u cymaroldeb â darparwyr eraill yn y DU sy'n cynnig cymwysterau â lefelau cyfatebol, ac am safon perfformiad y myfyrwyr. Mae'r adroddiadau hefyd yn nodi meysydd o arfer da ac yn cynnwys argymhellion ar gyfer gwella. Mae'r Tîm Ansawdd a Rheoliadau a'r Tîm Partneriaethau'n cynhyrchu trosolwg blynyddol o adroddiadau'r arholwyr allanol sy'n crynhoi eu canfyddiadau, i'w hystyried gan y Pwyllgor ADA ac yna'r Bwrdd Academaidd.

78 O dan reoliadau Prifysgol Caer ar gyfer graddau ymchwil y mae'r Brifysgol yn eu dilyn ar hyn o bryd, mae un arholwr mewnol ac un arholwr allanol annibynnol yn arholi pob ymgeisydd fel arfer. Fel arfer, mae'r arholwr allanol yn aelod o staff academaidd sefydliad addysg uwch arall sydd â phrofiad o arholi myfyrwyr gradd ymchwil. Mae rheoliadau drafft y Brifysgol ar gyfer graddau ymchwil ôl-raddedig hefyd yn cynnwys trefniadau tebyg, gan olygu bod modd i'r safonau academaidd fod yn fwy cymaradwy trwy gyfranogaeth cymheiriaid allanol. Trwy graffu ar esiamplau o ddogfennaeth gyflawn gwelwyd bod y camau gofynnol o weinyddiaeth ac arholi ymgeiswyr o dan reoliadau Prifysgol Caer wedi eu cyflawni ac roedd yn cadarnhau bod arholwyr allanol yn cyfranogi.

79 Ar sail y dystiolaeth, mae'r tîm o'r farn bod mecanweithiau'r Brifysgol ar gyfer sefydlu ac yna gynnal cymaroldeb y safonau academaidd â darparwyr eraill yn nodi'n eglur y ceisir cyngor gan bwyntiau arbenigedd annibynnol.

80 Er mwyn sicrhau bod y safonau'n cael eu cynnal a'r rhaglenni'n cael eu gwella, mae'r Pwyllgor ADA yn goruchwylio trefniadau'r Brifysgol ar gyfer cymeradwyo, monitro ac adolygu rhaglenni, ac mae'n gyfrifol am fonitro'r prosesau monitro ac adolygu mewnol a'r prosesau dilysu rhaglenni. Mae'r Pwyllgor ADA yn gyfrifol hefyd am sicrhau allanoldeb o ran safonau ac ansawdd academaidd drwy benodi arholwyr allanol ac aseswyr allanol i banelau dilysu ac adolygu. Mae'r Is-bwyllgor RhA yn adrodd i'r Pwyllgor ADA, yn ei gynghori ar ganlyniadau digwyddiadau cyrff PSRh ac ar addasiadau arfaethedig bach a mawr, ac yn rhoi adroddiad trosolwg iddo am yr ymarfer monitro blynyddol, yn cynnwys a yw wedi ei gwblhau'n foddhaol, ac a yw cynlluniau gweithredu wedi eu gweithredu'n briodol.

81 Mae'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd yn cynnwys canllawiau clir sy'n ymwneud â threfnau dilysu, monitro ac adolygu, ac yn rhoi manylion trefniadau systematig ar gyfer dilysu, adolygu'n gyfnodol, addasu a chau rhaglenni, a'r defnydd a wneir o arbenigedd allanol. Mae'r Llawlyfr hwn hefyd yn cynnwys templedi ar gyfer dogfennau ategol i'w defnyddio gan staff wrth weithredu amrywiol gamau'r broses. Mae'r Tîm Ansawdd a Rheoliadau'n hyfforddi aelodau o staff newydd sy'n ymuno â phanelau dilysu, ac mae'r Brifysgol yn cyhoeddi canllawiau eglur i aelodau o banelau dilysu, sy'n cynnwys eu rolau a'u cyfrifoldebau.

82 Mae'r broses o gymeradwyo rhaglenni'n cynnwys nifer o gamau diffiniedig a reolir gan y Tîm Ansawdd a Rheoliadau, yn cynnwys datblygu ffurflen Cynnig Rhaglen Cychwynnol sydd i gael ei hystyried gan y grŵp SHAPE a'i chymeradwyo gan Fyrddau'r Cyfadrannau, yn ogystal â gwiriadau cyn-ddilysu mewnol a digwyddiad dilysu. Mae pob rhaglen yn cael ei hail-ddilysu a'i hadolygu'n gyfnodol bob pum mlynedd. Adolygodd y tîm ddogfennaeth yn ymwneud â chymeradwyo ac adolygu rhaglenni, yn cynnwys ffurflenni Cynnig Rhaglen Cychwynnol, adroddiadau dilysu, adroddiadau adolygu cyfnodol a phapurau cysylltiedig, a gallai'r tîm gadarnhau bod gweithdrefnau'r Brifysgol wedi eu gweithredu'n gyson, fel y maent wedi eu disgrifio yn y rheoliadau cymeradwy a'r polisïau cysylltiedig.

83 Trwy arsylwi digwyddiad dilysu, gallai'r tîm hefyd gadarnhau bod gweithdrefnau'r Brifysgol yn cael eu gweithredu'n gyson a bod y broses yn drwyadl. Er enghraifft, arsylwodd y tîm y digwyddiad ym mis Mai 2023 lle ail-ddilyswyd y rhaglen BA (Anrh) 'Gwaith Cymdeithasol: Statws Cymwysedig', a gallai gadarnhau bod y panel wedi ystyried y strwythur credydau a phriodoldeb y lefelau o ran y FHEQ a FfCChC ac aliniad â'r Datganiadau o Nodweddion gan QAA ar gyfer y rhaglen wedi'i hail-ddilysu. Nododd y tîm hefyd y defnydd a wnaed o arbenigedd allanol wrth ddylunio a chymeradwyo'r rhaglen ddiwygiedig, a bod aelodau'r panel dilysu wedi cynnwys adolygwr Gofal Cymdeithasol Cymru, aseswr allanol o brifysgol arall a chynrychiolydd 'Outside In', sef grŵp ffocws sy'n cyfrannu modiwlau sy'n sefyll ar eu pennau eu hunain i wella profiad y myfyrwyr. Bu'r panel ail-ddilysu'n craffu ar fanyleb y rhaglen a manylebau ei modiwlau unigol yn eu tro, gan nodi'r rhesymau academaidd dros gael blwyddyn ar leoliad gwaith â chredydau ac addasu'r rhanddirymu i'r rheoliadau er mwyn bodloni gofynion y corff PSRh perthnasol (Gofal Cymdeithasol Cymru) gyda chadarnhad gan yr asiantaeth bartner. Cadarnhaodd yr adroddiad ail-ddilysu fod y rhaglen yn cyfateb â gofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer graddau Gwaith Cymdeithasol, yn ogystal â'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol i Raddau Gwaith Cymdeithasol (2011) a'r Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol. Teitl arall y dyfarniad yw 'BA (Anrh) Lles Cymdeithasol', ac mae adran 4.4 yr adroddiad yn nodi bod hwn yn llwybr amgen heb ei achredu nad yw'n gofyn i'r myfyriwr gael oriau penodol o brofiad lleoliad gwaith. Roedd adran 4.3 yn cadarnhau dilysiad y panel bod y rhaglen yn alinio â'r Datganiad Meincnodi Pwnc ar gyfer Gwaith Cymdeithasol a gyhoeddwyd gan QAA a bod aliniad priodol â'r disgrifyddion lefel sydd wedi eu nodi yn y

FHEQ a FfCChC. Wrth adolygu'r cynllun staffio ar gyfer y rhaglen, gosododd y panel amod bod tîm y rhaglen yn llunio trosolwg cryno o statws pob un o'i haelodau fel gweithiwr gofal cymdeithasol cofrestredig, gan sicrhau bod y gymhareb o'r rhai sydd â statws cofrestredig yn cyfateb â chanllawiau Gofal Cymdeithasol Cymru.

84 Yn ystod y cyfnod craffu ar gyfer pwerau DGY, cyflwynodd y Brifysgol newidiadau i'w phrosesau cyn-ddilysu a dilysu, mewn ymateb i'r argymhellion a gafwyd yn yr adroddiad i CCAUC am Ymchwiliad i Bryderon, sydd wedi nodi y dylai'r Brifysgol sicrhau y rhoddir ystyriaeth lawn i'r holl bwyntiau cyfeirio allanol perthnasol yn ystod y broses o ddatblygu a chymeradwyo rhaglenni. Gwelodd y tîm dystiolaeth o weithrediad y newidiadau hyn i'r gweithdrefnau cyhoeddedig. Er enghraifft, yn rhan o'r diweddariadau a roddwyd i'r Pwyllgor ADA ym mis Mehefin 2023, cyflwynwyd papur sy'n amlinellu'r newidiadau arfaethedig, ochr yn ochr â dogfen sy'n crynhoi'r pwyntiau cyfeirio mewnol ac allanol a gafodd ei chymeradwyo fel atodiad i'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd, er mwyn cefnogi'r broses o ddatblygu a chymeradwyo rhaglenni, yn rhoi manylion eglur yr aliniad rhwng y Brifysgol a'r fframweithiau allanol sy'n gosod safonau cenedlaethol, disgwyliadau a chanllawiau ar gyfer dyfarniadau a addysgir. Dangoswyd cydymffurfiad ac aliniad â'r crynodeb o'r pwyntiau cyfeirio yn eglur o fewn y templed ar gyfer adroddiad y broses gyfnodol o adolygu rhaglenni, y ffurflen Cynnig Rhaglen Cychwynnol a'r rhestr wirio gyn-ddilysu, yn ogystal â'r templedi ar gyfer sylwadau, adroddiadau am bartneriaid ac adroddiadau dilysu partneriaid. Yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2023, derbyniodd y Bwrdd Academaidd addasiadau a diwygiadau pellach i'r fersiynau wedi eu diweddaru o reoliadau academaidd a chynllun gweithredu'r Brifysgol mewn ymateb i'r adroddiad gan QAA i CCAUC. Roedd hyn yn cynnwys ychwanegu adran newydd sy'n cyfeirio at y FHEQ, yn ogystal â thabl o ddyfarniadau, crynodeb o opsiynau astudio, gwybodaeth am dariffau credyd, a diffiniad o fodiwlau craidd ac opsiynol, er mwyn sicrhau bod adran 1 y Rheoliadau Cyffredinol yn eglur.

85 Hefyd, mewn ymateb i'r adroddiad gan QAA i CCAUC, mae'r Brifysgol wedi gwneud adolygiad cyfnodol ac wedi ail-ddilysu ei rhaglen MRes Ymchwil Clinigol Cymhwysol a'i rhaglen MRes Ymchwil Gwyddorau Biofeddygol Cymhwysol ym mis Mehefin 2023, er mwyn sicrhau eu bod yn cyfateb â'r FHEQ, y Datganiadau o Nodweddion a'r gofynion sy'n berthnasol i raglenni ôl-raddedig a addysgir. Mae'r adroddiad ail-ddilysu ac adolygu cyfnodol a ddarllenwyd gan y tîm yn dangos bod y panel wedi ystyried a yw'r rhaglenni'n cyfateb â'r FHEQ, a chadarnhaodd y panel dilysu fod y rhaglenni MRes yn cyfateb â'r lefelau sydd wedi eu disgrifio yn y FHEQ/FfCChC, bod amcanion a strwythur pob un o'r rhaglenni'n adlewyrchu graddau a addysgir, a bod strwythur darparu a dosbarthu credydau a addysgir a chredydau ymchwil wedi eu halinio â'r rheoliadau ar gyfer dyfarniadau MRes a addysgir, gan geisio ail achrediad y Sefydliad Gwyddorau Biofeddygol wedi i'r rhaglenni gael eu cymeradwyo ar ôl eu hail-ddilysu.

86 Mae'r Llawlyfr Partneriaethau Academaidd yn nodi'r trefniadau ar gyfer cymeradwyo rhaglenni ac adolygu darpariaeth partneriaeth yn gyfnodol, ac mae'n disgrifio'r gofynion o ran dilysu a monitro darpariaeth partneriaeth, yn cynnwys swyddogaeth y Pwyllgor Partneriaethau Academaidd sy'n adolygu cynigion cychwynnol am ddilysu partneriaethau ac yn penderfynu a ddylid cymeradwyo'r cynigion i symud ymlaen i'r cam nesaf ai peidio. Gwelwyd tystiolaeth o rôl y Pwyllgor Partneriaethau Academaidd ym mhapurau a chofnodion ei gyfarfodydd ym mis Ebrill 2022 lle ystyriwyd canlyniadau'r prosesau o ddilysu partneriaethau'r Brifysgol gydag Athrofa Bloomsbury a Phrifysgol WCDI Shanghai, gan argymell i'r Bwrdd Academaidd eu bod yn eu cymeradwyo.

87 Yn ystod y cyfnod asesu ar gyfer pwerau DGY, mae'r Brifysgol wedi adolygu a diwygio ei gweithdrefnau ar gyfer cymeradwyo partneriaid academaidd i ddarparu rhaglenni. Gwnaethpwyd hyn mewn ymateb i'r argymhelliad a gafwyd gan QAA yn ei hadroddiad i CCAUC y dylai'r Brifysgol, wrth ystyried a chymeradwyo partneriaethau, sicrhau y rhoddir ystyriaeth ehangach i allu'r partner i ddarparu rhaglenni astudio o'r safon ofynnol (gwelwch y

drafodaeth am Faen prawf A). O ganlyniad, cafodd y Llawlyfr Partneriaethau Academaidd ei ddiwygio a'i gymeradwyo i gynnwys monitro gwell gan y Pwyllgor Partneriaethau Academaidd lle ystyriwyd bod cynnig yn un risg uchel gan Dîm Gweithredol yr Is-Ganghellor a oedd wedi tynnu sylw at broblemau oedd i dderbyn sylw gan y panel cymeradwyo priodol. Byddai'r Pwyllgor Partneriaethau Academaidd yn darparu goruchwyliaeth a sicrhad bod y problemau wedi derbyn sylw, gyda lliniaru priodol yn ei le i leihau risgiau, fel y bo'n briodol.

88 Mae'r Llawlyfr hefyd yn cynnwys y templed wedi ei ddiweddaru ar gyfer adroddiadau dilysu partneriaid sydd ag adran newydd i roi sicrwydd i'r Brifysgol fod ei sefydliadau partner yn gallu darparu rhaglenni addysg uwch, er mwyn sicrhau y rhoddir ystyriaeth ehangach yn rhan o'r prosesau cymeradwyo i allu'r partner i ddarparu rhaglenni o'r safon ofynnol. Bydd templed ar gyfer rheoli risgiau partneriaethau ar sail sgorau goleuadau traffig (coch/melyn/gwyrdd) yn darparu cofnod sy'n dangos bod pob un o'r risgiau wedi eu hystyried a chamau gweithredu arfaethedig i leihau'r risgiau a fydd yn hysbysu'r prosesau cymeradwyo. Hefyd, diweddarwyd y Llawlyfr i adlewyrchu rôl swydd newydd ei chreu'r Rheolwr Datblygiad a Chyswllt Partneriaethau ar gamau cyntaf y broses o ddatblygu cynnig am bartneriaid newydd cyn cyflwyno'r cynnig i Dîm Gweithredol yr Is-Ganghellor.

89 Mae'r dystiolaeth sydd wedi ei hadolygu uchod yn dangos bod gan y Brifysgol drefniadau manwl ar gyfer cymeradwyo ac adolygu rhaglenni sy'n rhoi ystyriaeth i bwyntiau cyfeirio allanol, ac i'r gofynion sy'n gysylltiedig â'r gwahanol lefelau a mathau o ddyfarniadau. Wrth adolygu esiamplau o adroddiadau digwyddiadau dilysu ac adolygu cyfnodol a gafwyd cyn dechrau'r cyfnod craffu, ac wrth arsylwi digwyddiad adolygu cyfnodol ym mis Mai 2023, gwelodd y tîm dystiolaeth i ddangos bod y gweithdrefnau hyn wedi eu gweithredu'n effeithiol. Ar sail y dystiolaeth oedd ar gael yn ystod y cyfnod craffu, daeth y tîm i'r casgliad bod y newidiadau a weithredwyd gan y Brifysgol, mewn ymateb i'r argymhellion a gafwyd yn adroddiad yr Ymchwiliad i Bryderon, yn gredadwy ac y dylent alluogi i'r Brifysgol sicrhau bod ei gweithdrefnau'n cael eu gweithredu'n gyson ac yn cyfateb â phwyntiau cyfeirio allanol, ar draws ei darpariaeth i gyd, ac y dylai'r newidiadau hyn gryfhau'r broses gymeradwyo rhaglenni i roi ystyriaeth fanylach i drefniadau partneriaid ar gyfer darparu rhaglenni. Ond, ni allai'r tîm asesu defnydd cyson y gweithdrefnau diwygiedig hyn a'u heffaith, pan ddaeth y cyfnod craffu i ben yn ôl yr amserlenni y cytunwyd arnynt ar gyfer yr Ymchwiliad i Bryderon gan QAA/CCAUC, fel sydd wedi eu rhannu gyda'r tîm craffu ar gyfer pwerau DGY.

90 Mae proses SHAPE y sefydliad, a ddefnyddir ar y cam cychwynnol o ddatblygu cynigion, yn sicrhau perthynas amlwg ac agos rhwng y gwaith o gynllunio materion academaidd a phenderfynu sut i ddyrannu adnoddau. Gwelwyd tystiolaeth o hyn yn y ffurflenni Cynnig Rhaglen Cychwynnol a gyflwynwyd i'r broses SHAPE, a gallai'r tîm gadarnhau bod gofynion am adnoddau wedi derbyn ystyriaeth fanwl - megis adnoddau staffio, cyfarpar ac offer, gofodau dysgu, adnoddau llyfrgell ac adnoddau dysgu - cyn cymeradwyo i'r rhaglenni symud ymlaen i'r camau nesaf yn y broses o'u datblygu. Hefyd, bu'r tîm yn arsylwi cyfarfodydd Byrddau Astudiaethau'r Cyfadrannau, a gwelodd dystiolaeth i ddangos trafodaeth fanwl o ffurflenni Cynnig Rhaglen Cychwynnol cyflawn ar gyfer rhaglenni sydd i gael eu dilysu a'u hail-ddilysu, yn cynnwys costiadau, gan benderfynu a ddylid cymeradwyo'r cynigion i symud ymlaen i'r cam nesaf ai peidio.

91 Cadarnhaodd yr uwch reolwyr a chynrychiolwyr y Bwrdd Llywodraethwyr fod adnoddau'n cael eu dyrannu ar yr adeg honno o'r flwyddyn pan roddir ystyriaeth i'r cynllunio a chyllideb drosfwaol. Byddai'r Tîm Gweithredol yn cynnal cyfarfodydd i ystyried y cynlluniau ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf, yn cynnwys penderfyniadau'n ymwneud â dilysiadau, i ddod â chynlluniau ar gyfer adnoddau at ei gilydd yn ganolog. Byddai cyfarfod yr holl randdeiliaid perthnasol, yn cynnwys Cadeirydd y Bwrdd Llywodraethwyr, yn dod i gasgliad ar faterion megis ffit academaidd, agweddau ariannol ac adnoddau i ddwyn cynnig ymlaen hyd at ddilysiad. Hefyd, mae'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid yn ystyried yr achosion busnes ar gyfer cynigion am raglenni newydd, ac yn craffu ar yr incwm/gwariant yn fanwl, gan sicrhau

bod herio a holi priodol ynghylch adnoddau. Er enghraifft, cafodd yr achos busnes a'r costau ar gyfer y Clinig Nyrsio Milfeddygol newydd eu hystyried gan y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid ym mis Mehefin 2022 i gefnogi cais am gyllid CCAUC a fyddai'n darparu'r cyfleusterau ar gyfer y rhaglen gradd newydd.

Maen prawf B3

92 Dyma ddywed y maen prawf hwn:

> *Mae'r ddarpariaeth o ran addysg a gynigir gan sefydliad a gaiff bwerau i ddyfarnu graddau a addysgir yn cyflawni'n gyson yr amcanion dysgu a nodwyd ganddo a'r deilliannau a fwriadwyd ganddo.*

93 Mae'r dystiolaeth yn dangos bod strategaethau dysgu ac asesu'r Brifysgol yn cyfateb â'r amcanion academaidd a nodwyd gan y sefydliad a'r deilliannau dysgu a fwriedir. Er enghraifft, mae'n rhaid esbonio ymhob cynnig am raglen newydd y ffordd y mae'r rhaglen yn cyfrannu at gyflawni gweledigaeth a strategaeth y Brifysgol, sy'n nodi amcanion academaidd y sefydliad i gynnig 'addysgu sy'n ysbrydoli', 'ymchwil sy'n trawsnewid', 'ymgysylltu sy'n galluogi' a 'strwythur sy'n cynnal'. Mae'r Brifysgol yn disgrifio ei dulliau o ddysgu ac addysgu, a datblygiad cynnwys y cwricwlwm, yn ei Strategaeth Cynorthwyo Dysgu a Chyflawniad Myfyrwyr (Strategaeth CDChM) sydd wedi ei halinio â pharth 'addysgu sy'n ysbrydoli' ei Gweledigaeth a'i Strategaeth drwy ei hymrwymiad i 'gwricwlwm sy'n berthnasol', 'addysgu gwych' a 'dulliau asesu arloesol', 'cymorth wedi'i bersonoli' a 'myfyrwyr fel partneriaid'. Yn 2020, cyflwynodd y Brifysgol Fframwaith Dysgu Gweithredol i bob aelod o'r staff a phob myfyriwr, sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr ac yn cyfateb â Gweledigaeth, Strategaeth gyffredinol a Strategaeth CDChM y Brifysgol. Mae llawlyfr ar gael i'r staff am yr arferion gorau wrth weithredu'r Fframwaith Dysgu Gweithredol.

94 Hefyd, mae gan y Brifysgol Strategaeth Cyflogadwyedd sydd wedi ei halinio â'i Gweledigaeth a'i Strategaeth, sydd â'r nod o sicrhau bod y myfyrwyr yn barod ar gyfer eu gyrfaoedd posibl yn y dyfodol, drwy ddatblygu cwricwla a gweithgareddau dysgu ar sail yr arferion cyfredol ac anghenion y cyflogwyr. Yn rhan o'r broses o gymeradwyo rhaglenni, caiff timau'r rhaglenni eu cyfeirio at y Strategaeth CDChM a'r Strategaeth Cyflogadwyedd, ac mae gofyn iddynt ddangos yn fanwl bod y dulliau arfaethedig o ddylunio cwricwla, dysgu, addysgu ac asesu'n cyfateb ag amcanion y strategaethau. Mae'n rhaid i dimau'r rhaglenni ddangos hefyd fod y strategaethau dysgu ac asesu arfaethedig ar lefel y modiwlau'n cyfateb ag amcanion y rhaglenni ac yn galluogi cyflawni'r deilliannau dysgu diffiniedig. Yng nghyfarfod yr Is-bwyllgor RhA a arsylwyd gan y tîm, defnyddiwyd dull ystyrlon datblygedig o ystyried unrhyw newidiadau i raglenni neu fodiwlau arfaethedig i sicrhau eu bod yn cyfateb ag amcanion academaidd y rhaglen a'i deilliannau dysgu a fwriedir. Gwelwyd tystiolaeth o hyn, er enghraifft, wrth drafod modiwlau'r cwrs FdSc 'Hyfforddiant a Pherfformiad Cŵn' a'r cwrs FdSc 'Rheoli Bywyd Gwyllt Ymarferol'.

95 Mae nifer o ffyrdd y rhoddir gwybod i'r staff am y canllawiau ynghylch dulliau'r Brifysgol o lunio, monitro ac adolygu rhaglenni. Er enghraifft, mae'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd yn rhoi disgrifiad manwl o'r gweithdrefnau a'r gofynion yn ymwneud â dilysu, adolygu cyfnodol, addasu a chau rhaglenni. Mae'r staff yn cael eu hymsefydlu yn eu gwaith ar banel dilysu a'u rolau a'u cyfrifoldebau fel aelodau, yn ogystal â'r gofynion sylfaenol, a gwelwyd tystiolaeth o hyn yng nghanllawiau'r panel dilysu a'r hyfforddiant a ddarperir gan y Tîm Ansawdd a Rheoliadau. Mae prosiect CREATE y Brifysgol (ystyr yr acronym Saesneg hwn yw cydweithio wrth adolygu a gwella asesiadau a rhagoriaeth addysgu) yn broses ddatblygiadol a arweinir gan gymheiriaid ar gyfer timau'r rhaglenni sy'n cymryd rhan yn y gwaith dilysu neu sydd angen cymorth gyda gwella eu rhaglenni. Mae gweithdai CREATE yn hwyluso'r gwaith o adolygu strategaethau'r rhaglenni ar gyfer dysgu, addysgu ac asesu er mwyn sicrhau bod gan bob rhaglen/modiwl ddeilliannau dysgu effeithiol, ac i gefnogi tîm pob

rhaglen sy'n paratoi ar gyfer y broses ddilysu o ran deall gofynion mewnol ac allanol, rhannu'r arferion gorau a herio arferion a syniadau cyfredol. Gwelwyd esiampl o hyn mewn gweithdy am ddeilliannau dysgu rhaglenni. Mae'r Brifysgol wedi datblygu rhaglen SHAPE (ystyr yr acronym Saesneg hwn yw cefnogi dull cyfannol o wella rhaglenni) i dywys ei staff drwy gamau'r prosesau o lunio a dilysu rhaglenni, a rhoi adborth datblygiadol iddyn nhw ar eu dogfennau Cynnig Rhaglen Cychwynnol.

96 Bu'r tîm yn arsylwi cyfarfod SHAPE a gwelodd dystiolaeth i ddangos bod y Brifysgol yn cymryd y gwaith llunio a monitro rhaglenni o ddifrif ac yn adolygu unrhyw newidiadau mewn ffordd briodol - gwelwch hefyd y drafodaeth am Faen prawf B2 a Maen prawf B4. Roedd yr aelodau o staff y cyfarfu'r tîm â nhw'n siarad yn wybodus am y polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer llunio ac adolygu rhaglenni, ac yn gadarnhaol am fanteision y broses SHAPE. Hefyd, rhoddir hyfforddiant a chanllawiau i'r staff am y broses barhaus o fonitro a gwella rhaglenni sy'n sicrhau bod pob rhaglen yn cael ei hadolygu'n barhaus.

97 Mae'r cyfrifoldeb am ddiwygio a gwella cynigion am raglenni newydd wedi ei aseinio'n glir yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd sy'n diffinio'r camau y mae'n rhaid i gynigion am raglenni newydd basio drwyddynt cyn derbyn cymeradwyaeth derfynol gan y Bwrdd Academaidd. Mae nod pob cam wedi ei ddiffinio'n fanwl, ac maent yn cynnwys datblygiad ffurflen Cynnig Rhaglen Cychwynnol a gaiff ei chyflwyno i Fyrddau'r Cyfadrannau a'r broses SHAPE i gael ei hystyried a'i chymeradwyo, gwiriadau cyn-ddilysu mewnol a reolir gan y Tîm Ansawdd a Rheoliadau i gadarnhau bod y gofynion gweithdrefnol a dogfennol wedi eu bodloni, a digwyddiad dilysu i sicrhau bod y rhaglen yn bodloni meini prawf y Brifysgol ar gyfer cymeradwyo rhaglenni.

98 Gwelodd y tîm dystiolaeth o weithrediad effeithiol y cyfrifoldebau hyn. Er enghraifft, arsylwodd y tîm ddigwyddiad a gynhaliwyd yn rhan o'r broses SHAPE i ystyried y ffurflenni Cynnig Rhaglen Cychwynnol a'r dogfennau cyflwyno ar gyfer y rhaglen BSc (Anrh) 'Plismona Proffesiynol' a'r rhaglen MA 'Entrepreneur Creadigol', a gwelodd dystiolaeth i ddangos bod y cynigion wedi cael eu craffu'n drwyadl gan olygu bod newidiadau wedi eu nodi y mae angen eu gwneud er mwyn i'r cynigion gael eu symud yn eu blaen. Yn yr un modd, gwelwyd tystiolaeth yng nghofnodion digwyddiadau dilysu i gadarnhau bod y panelau wedi cyflawni eu cyfrifoldebau ynglŷn â chymeradwyo rhaglenni'n effeithiol, yn cynnwys adnabod y camau sy'n ofynnol cyn y rhoddir cymeradwyaeth derfynol.

99 Mae adroddiadau dilysu'n nodi pob casgliad a phob argymhelliad yn fanwl, ynghyd â'r rhesymeg dros bob un, wedi ei gefnogi gan grynodeb o'r materion a drafodwyd gan y panel a chanlyniadau'r trafodaethau hyn a'r ymatebion iddynt. Mae'r swyddog dilysu penodedig yn cadw llygad ddilynol ar bob cam gweithredu ac amod sy'n codi o ddigwyddiadau dilysu ac adolygu cyfnodol yn unol â'r dyddiadau cwblhau y cytunwyd arnynt ar eu cyfer. Mae'r panelau'n gyfrifol am ystyried ymatebion i'r canlyniadau hyn a chadarnhau bod unrhyw amodau wedi eu bodloni. Yn yr adroddiadau dilysu terfynol a ddarllenwyd gan y tîm, cofnodwyd ymatebion manwl i amodau ac argymhellion, gan ddangos pa newidiadau oedd wedi'u gwneud ac ymhle mae'r newidiadau yn nogfennaeth y rhaglenni. Yn ogystal, yn yr adroddiadau cryno am gyfres o raglenni mewn dylunio a chyfryngau creadigol, gwelodd y tîm dystiolaeth i ddangos bod cadeiryddion y panelau wedi cadarnhau bod yr amodau a'r argymhellion hynny wedi eu bodloni.

100 Mae'r Brifysgol yn cynnig nifer o raglenni sydd ag amrywiol lwybrau mynediad. Yn rhan o'r broses o ddilysu rhaglenni a'u hadolygu'n gyfnodol, sicrheir a chynhelir cydlyniad y rhaglenni er mwyn sicrhau bod profiad cyfan y myfyrwyr yn un sy'n eu galluogi i gyflawni eu nodau a'u hamcanion. Er enghraifft, yn yr adroddiad dilysu ar gyfer y rhaglen MA 'Cynhyrchu Cyfryngau Creadigol', sydd ag amrywiol lwybrau mynediad, nodwyd bod "y panel yn teimlo bod cydlyniad a chydbwysedd da gan y rhaglen arfaethedig, gan ganiatáu ymgysylltu arwyddocaol â chynhyrchion ar sail gwaith go iawn".

101 Mae tystiolaeth i ddangos bod cysylltiadau agos yn cael eu cynnal rhwng gwasanaethau cymorth dysgu a phrosesau cynllunio, cymeradwyo a monitro rhaglenni. Mae'r Brifysgol yn defnyddio ei gwasanaethau cymorth dysgu o gamau cynharaf y cynllunio a chymeradwyo rhaglenni, a gwelwyd tystiolaeth o hyn yng ngwaith y prosiectau SHAPE a CREATE. Mae'r canllawiau SHAPE yn rhoi cyfarwyddiadau clir i dimau'r rhaglenni gysylltu â'u cydweithwyr ym meysydd cymorth TG a chymorth dysgu eraill yng nghamau cychwynnol datblygu rhaglenni newydd. Wrth gwblhau'r ffurflen Cynnig Rhaglen Cychwynnol, mae gofyn i dîm y rhaglen ddadansoddi a rhoi gwybodaeth am anghenion y rhaglen arfaethedig am adnoddau staffio ac adnoddau eraill. Hefyd, mae cyngor ar gael gan staff y gwasanaethau cymorth dysgu i helpu timau'r rhaglenni i ddatblygu eu cynigion. Er enghraifft, mae'r gwasanaethau cymorth dysgu'n cynghori ar sut i lunio rhestrau darllen ac yna'u haddasu ar gyfer modiwlau penodol yn gynnar iawn yn y broses o ddatblygu rhaglen. Rhoddir cyngor ar sicrhau bod cwricwla'r rhaglenni'n gynhwysol, a'r ffyrdd gorau o ddefnyddio technoleg. Yn rhan o'r broses gymeradwyo, mae gofyn i banelau dilysu ac adolygu cyfnodol gadw llygad manwl ar argaeledd adnoddau a chymorth dysgu ar gyfer y rhaglen, a gwelodd y tîm dystiolaeth o hyn mewn adroddiadau am ddigwyddiadau dilysu ac adolygu cyfnodol.

102 Mae trefniadau ar waith i sicrhau bod y sefydliad yn darparu cyfleoedd dysgu digonol i'w fyfyrwyr sydd efallai'n astudio o bell. Yn ystod digwyddiadau cyfnodol dan reolaeth y Swyddfa Partneriaethau, mae rhaglenni'r partneriaid yn cael eu dilysu a'u hadolygu, gan wirio a oes cyfleoedd dysgu digonol ar gael i fyfyrwyr sy'n astudio yn sefydliadau partner y Brifysgol. Mae pob un o'r rhaglenni hyn yn cael eu monitro'n barhaus gan diwtoriaid cyswllt academaidd a benodir gan y Brifysgol. Gwelodd y tîm dystiolaeth i ddangos bod cyfleoedd dysgu mewn sefydliadau partner wedi eu gwerthuso. Er enghraifft, mae'r adroddiad dilysu ar gyfer rhaglenni a ddarparwyd gan Athrofa Bloomsbury Cyf yn cofnodi bod ansawdd y cyfleoedd dysgu wedi ei ystyried yn rhan o waith craffu'r panel. Mae adroddiadau blynyddol y tiwtoriaid cyswllt academaidd am y rhaglenni a ddarparwyd gan Goleg MBS Creta yn ystod 2018-22 yn cofnodi bod ansawdd y cyfleoedd dysgu wedi ei werthuso. Hefyd, mae gofyn i bob sefydliad partner gyflwyno adroddiad Adolygu Partner Blynyddol a lunnir gan ei uwch reolwyr i werthuso ei bartneriaeth â Phrifysgol Wrecsam ar draws ei darpariaeth gyfan. Cyflwynir adroddiadau i'r Swyddfa Partneriaethau i gael eu cymeradwyo, a'u hystyried gan y Pwyllgor Partneriaethau Academaidd. Mae'r adroddiadau hyn hefyd yn cynnwys tystiolaeth i ddangos bod materion yn ymwneud ag ansawdd y cyfleoedd dysgu wedi eu gwerthuso, er enghraifft, yr adolygiad blynyddol o'r bartneriaeth â Choleg MBS Creta.

103 Hefyd, yn rhan o broses y Brifysgol o ddilysu rhaglenni a'u monitro'n barhaus, mae'r trefniadau ar gyfer dysgu o bell neu e-ddysgu'n cael eu gwerthuso, sy'n berthnasol i'r holl fyfyrwyr, gan gynnwys y rheiny sy'n astudio yn y Brifysgol. Mae'r trefnau dilysu'n gosod meini prawf ychwanegol sydd i gael eu hystyried yn rhan o'r broses o lunio a chymeradwyo rhaglenni, er mwyn adlewyrchu anghenion y myfyrwyr a chynnal safonau academaidd ac ansawdd.

104 Mae'r systemau ar gyfer rhoi adborth ac adroddiad am ansawdd eu profiadau ar gael i'r myfyrwyr i gyd (gan gynnwys y rheiny sy'n astudio o bell ac mewn sefydliadau partner). Rhoddir llawlyfr i bob myfyriwr ymchwil ôl-raddedig (yn cynnwys y rheiny sy'n astudio'n rhan amser ac/neu o bell) i gefnogi eu dysgu, ac mae gofyn iddyn nhw gyflwyno adroddiadau cynnydd blynyddol. Mae hawl gan fyfyrwyr ymchwil gael deg cyfarfod ffurfiol â'u goruchwyliwr yn ystod y flwyddyn a chânt eu gwahodd yn eu hadroddiadau cynnydd i roi sylwadau ar lefel y rhyngweithio â thiwtoriaid neu oruchwylwyr. Hefyd, anogir y myfyrwyr ymchwil i gwblhau'r holiadur Monitro Myfyrwyr Ymchwil Blynyddol, a chaiff canlyniadau'r arolwg hwn eu hystyried yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Ymchwil.

105 Mae amrywiaeth o brosesau ar waith i sicrhau bod safonau academaidd yn cael eu monitro a'u cynnal drwy, er enghraifft, brosesau o gymeradwyo ac ail-gymeradwyo

rhaglenni a'u monitro'n flynyddol, ac mae eu safonau academaidd yn cael eu goruchwylio gan arholwyr allanol, fel yr amlinellwyd yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd a'r Llawlyfr Partneriaeth. Gofynnir i bob panel dilysu ac adolygu cyfnodol, sy'n cynnwys arbenigwyr allanol annibynnol, werthuso a yw safonau academaidd priodol wedi eu gosod ar gyfer y rhaglenni, ac a yw'r arferion asesu'n addas i brofi eu deilliannau dysgu. Mae'r adroddiadau am ddigwyddiadau dilysu ac adolygu cyfnodol a ddarllenwyd gan y tîm yn cadarnhau bod hyn wedi digwydd. Yn ystod y cyfnod craffu ar gyfer pwerau DGY, cyflwynodd y Brifysgol newidiadau i'w threfnau dilysu ac adolygu cyfnodol i gryfhau'r gydnabyddiaeth eglur o ddefnyddio pwyntiau cyfeirio allanol, yn cynnwys aliniad â'r disgrifyddion lefel sydd wedi eu nodi yn y FHEQ, yn rhan o'r broses o ddatblygu a chymeradwyo rhaglenni - gwelwch y drafodaeth am Faen prawf B2.

106 Mae'r Rheoliadau Academaidd yn disgrifio dull asesu'r Brifysgol a sut mae'r sefydliad yn cynnal safonau academaidd drwy asesiad. Mae hyn yn cynnwys trefniadau ar gyfer ystyried amgylchiadau esgusodol a chaniatáu i fyfyrwyr unigol gyflwyno eu gwaith yn hwyr, rheoliadau ar gyfer cynnal asesiadau, a threfniadau ar gyfer marcio, safoni a samplu gwaith a aseswyd. Mae'r fframwaith rheoleiddio hefyd yn cynnwys gweithdrefnau clir ar gyfer cydnabod dysgu ardystiedig neu brofiadol blaenorol.

107 Mae'r Brifysgol yn penodi arholwyr allanol ar gyfer pob un o'i rhaglenni/modiwlau. Mae hyn hefyd yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth a gynigir ar y cyd â phartneriaid y Brifysgol. Mae arholwyr allanol yn cael eu cynnig gan arweinwyr y rhaglenni drwy gwblhau ffurflen enwebu, ac mae eu penodiad yn amodol ar gymeradwyaeth y Pwyllgor ADA a phennaeth y gyfadran. Mae'r meini prawf penodi cyhoeddedig yn cynnwys gofynion am gymwysterau sy'n briodol i'r lefel benodol a'r maes astudio penodol, yn ogystal ag arbenigedd a phrofiad. Mae hefyd ddarpariaethau yn eu lle i osgoi trefniadau dwyochrog a hirsefydlog a gwrthdaro buddiannau er mwyn sicrhau annibyniaeth.

108 Mae'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd a'r Llawlyfr i Arholwyr Allanol yn disgrifio'r cyfrifoldeb yn fanwl sydd gan arholwyr allanol am wirio a yw'r safonau academaidd yn briodol. I'w galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau, mae'r llawlyfrau'n nodi y dylai arholwyr allanol gael gweld amlinellau'r rhaglenni, papurau'r gwaith cwrs, cwestiynau'r aseiniadau a'r arholiadau, samplau o'r gwaith a aseswyd sy'n cynnwys y graddau a roddwyd, yr adborth a roddwyd gan yr aseswyr i'r myfyrwyr, yn ogystal â chofnodion y prosesau mewnol o wirio'r asesiadau hynny. Mae eu cyfrifoldebau'n cynnwys safoni tasgau asesu cyn eu rhoi i'r myfyrwyr, a rhoi adborth ar y deunyddiau asesu gan ddefnyddio templed safonol. Mae gofyn hefyd i arholwyr allanol fynychu cyfarfodydd y byrddau dyfarnu/dilyniant perthnasol i wneud penderfyniadau am gynnydd y myfyrwyr a dyfarniadau graddau y mae'r bwrdd yn gyfrifol amdanynt, gan gyflwyno adroddiad blynyddol i arweinydd y rhaglen berthnasol.

109 Trwy adolygu adroddiadau blynyddol yr arholwyr allanol, gallai'r tîm gadarnhau bod yr adroddiadau'n cynnwys sylwadau sy'n dweud yn glir a yw'r safonau academaidd yn cyfateb â'r FHEQ, a yw'r safonau'n gyfatebol â rhaglenni tebyg a ddarperir mewn sefydliadau eraill yn y DU, ac a yw'r myfyrwyr wedi cyflawni'r safonau hynny. Gofynnir hefyd i bobl allanol roi sylwadau ar yr arferion asesu i wirio a ydynt yn ddigon trwyadl ac yn addas i brofi a yw'r myfyrwyr wedi cyflawni'r deilliannau dysgu.

110 Mae'r Brifysgol wedi mapio ei meini prawf asesu a'i fframwaith ar gyfer marcio asesiadau yn erbyn y lefelau perthnasol sydd wedi eu nodi yn y FHEQ. Mae'r templed 'Cofnod Gwerthuso a Chymedroli Modiwlau' yn gofyn i arholwyr mewnol ac allanol gadarnhau bod asesiadau wedi eu marcio yn nhermau deilliannau dysgu diffiniedig yr aseiniad/arholiad, ac yn unol â'r meini prawf marcio.

111 Bu'r tîm yn adolygu gweithrediad y broses asesu mewn sampl o fodiwlau ar lefel israddedig ac ôl-raddedig, a gallai gadarnhau bod y prosesau mewnol o farcio a safoni marciau a'r prosesau arholi allanol wedi eu gweithredu'n gyson.

112 Gwelodd y tîm dystiolaeth i ddangos bod timau'r rhaglenni wedi cynnwys sylwadau ac argymhellion gan arholwyr allanol yn eu hadroddiadau a chynlluniau gweithredu yn rhan o'r broses barhaus o fonitro a gwella rhaglenni, o dan oruchwyliaeth Byrddau'r Cyfadrannau, y Pwyllgor ADA a'r Bwrdd Academaidd - gwelwch y drafodaeth am Faen prawf B2. Goruchwylir data am lwyddiant y myfyrwyr o fewn y strwythur llywodraethu a rheoli materion academaidd - gwelwch y drafodaeth am Faen prawf A1. Mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed yn adroddiad yr Ymchwiliad i Bryderon sef bod y Brifysgol yn cryfhau'r broses o adrodd ar gyfresi data allweddol am lwyddiant y myfyrwyr er mwyn hwyluso goruchwyliaeth fwy effeithiol ar lefel y sefydliad, mae'r Brifysgol wedi datblygu matrics ar gyfer adrodd data am faterion o'r fath. Mae'r matrics yn nodi pa fath o ddata y dylid ei gynnwys, ymhle mae'n cael ei adrodd, a pha mor aml. Mae'r matrics hefyd yn cynnwys adroddiadau newydd arfaethedig am gyrhaeddiad a chyfraddau cwblhau'r myfyrwyr, er mwyn monitro rhaglenni'n flynyddol, ac i fonitro cynnydd y myfyrwyr yng nghyfarfodydd Byrddau'r Cyfadrannau, y Pwyllgor ADA, y Bwrdd Academaidd a'r Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd (gwelwch A1).

113 Mae arferion a meini prawf asesu'r Brifysgol yn cael eu cyfleu'n glir i'r myfyrwyr a'r staff yn llawlyfrau'r cyrsiau, manylebau'r rhaglenni, manylebau'r modiwlau, llawlyfrau'r modiwlau a'r briffiau asesu, sy'n cynnwys gwybodaeth am y dulliau asesu, y meini prawf graddio, ystyr y meini prawf graddio mewn perthynas â chyflawniad y myfyrwyr o'r deilliannau dysgu, y ffordd y defnyddir y graddau i wneud penderfyniadau dyfarnu/dilyniant, a beth sy'n digwydd os bydd myfyriwr yn methu asesiad. Mae'r holl wybodaeth hon ar gael ar y rhith-amgylchedd dysgu ac mewn print. Hefyd, mae'r arferion asesu wedi eu diffinio'n glir yn y Rheoliadau Academaidd a'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd. Rhoddir canllawiau i'r myfyrwyr yn ymwneud ag uniondeb academaidd a chamymddwyn academaidd.

114 Hefyd, rhoddir adborth ar waith a aseswyd er mwyn datblygu cyd-ddealltwriaeth ymhlith y myfyrwyr a'r staff fel sail i wneud beirniadaethau ynglŷn â materion academaidd. Gwelodd y tîm sampl o waith a aseswyd sy'n dangos bod adborth yn cael ei roi i'r myfyrwyr ynglŷn â'u cryfderau a'u gwendidau mewn perthynas â'u cyflawniad o'r meini prawf asesu. Dywedodd y myfyrwyr fod cyfle ar gael iddynt hefyd i siarad â'r staff academaidd wyneb yn wyneb er mwyn cael dealltwriaeth well o'r tasgau asesu a'r deilliannau asesu.

115 Yn rhan o'r broses o gymeradwyo rhaglenni, ceir gwiriad bod y dulliau asesu arfaethedig ar gyfer pob dull darparu'n addas i brofi'r amcanion dysgu a'r deilliannau dysgu. Mae gan y Brifysgol brosesau gwirio ar waith i sicrhau bod y dulliau asesu a ddefnyddir ar gyfer ei rhaglenni'n briodol mewn perthynas â'u deilliannau dysgu a fwriedir. Er enghraifft, gofynnir i arholwyr allanol gymeradwyo ffurf a chynnwys y tasgau asesu arfaethedig cyn iddynt gael eu cyflwyno i'r myfyrwyr er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni amcanion y modiwl a'r safon ofynnol. Mae gofyn i arholwyr gadarnhau yn eu hadroddiadau blynyddol a oedd yr arferion asesu'n briodol mewn perthynas â'r rhaglenni/modiwlau a'u deilliannau dysgu a fwriedir. Yn ogystal, mae'r templed 'Cofnod Gwerthuso a Chymedroli Modiwlau' yn gofyn i arholwyr mewnol ac allanol gadarnhau bod asesiadau wedi eu marcio yn nhermau amcanion a deilliannau dysgu diffiniedig yr aseiniad/arholiad. Mae'r adroddiadau gan arholwyr allanol a'r esiamplau o Gofnodion Gwerthuso a Chymedroli Modiwlau a ddarllenwyd gan y tîm yn cadarnhau bod y gwiriadau hyn yn digwydd, a bod yr arholwyr allanol yn fodlon bod yr asesiadau'n ymwneud yn llawn â phob un o'r deilliannau dysgu sydd wedi eu diffinio. Roedd y samplau o waith y myfyrwyr a ddarllenwyd gan y tîm yn dangos bod yr arferion asesu, marcio, graddio a rhoi adborth i fyfyrwyr wedi eu cysylltu'n glir â deilliannau dysgu'r modiwl. Ar sail y dystiolaeth, daeth y tîm i'r casgliad bod arferion asesu'r Brifysgol, yn cynnwys y

defnydd a wneir o brosesau gwirio mewnol ac allanol, yn sicrhau bod yr asesiadau'n ymwneud yn llawn â phob un o'r amcanion dysgu a'r deilliannau dysgu sydd wedi eu diffinio.

116 Mae dibynadwyedd a dilysrwydd trefnau asesu'r Brifysgol yn cael eu monitro mewn amrywiaeth o ffyrdd, a defnyddir canlyniadau'r asesiadau i hysbysu'r gwaith cynllunio yng nghyswllt rhaglenni a myfyrwyr yn y dyfodol. Fel y nodwyd uchod, mae arholwyr allanol yn darparu golwg annibynnol ar addasrwydd a chywirdeb y dulliau asesu wrth brofi deilliannau dysgu'r rhaglen/modiwl, ac am gysondeb marcio a graddio gwaith myfyrwyr. Mae'r arholwyr mewnol a'r arholwyr allanol yn cyfrannu at y gwaith o fonitro'r trefnau asesu drwy gwblhau Cofnodion Gwerthuso a Chymedroli Modiwlau, sy'n darparu tystiolaeth o'r broses o farcio gwaith y myfyrwyr am y tro cyntaf a'r broses o'i ail farcio, y broses o gysoni'r marciau a roddwyd yn fewnol, a'r broses o gofnodi barn y safonwr mewnol. Mae timau'r modiwlau a'r rhaglenni'n cymryd rhan fel cymheiriaid yn y broses o adolygu tasgau asesu, cyn iddynt gael eu cyflwyno i'r myfyrwyr, er mwyn sicrhau eu bod yn addas i fesur cyflawniad y deilliannau dysgu.

117 Hefyd, mae effeithiolrwydd y dulliau asesu a'r trefnau asesu'n cael ei fonitro drwy'r broses barhaus o fonitro a gwella rhaglenni, sy'n defnyddio sylwadau gan arholwyr allanol, tystiolaeth mewn gwerthusiadau o fodiwlau, data am lwyddiant y myfyrwyr, adborth gan y myfyrwyr a'r rhanddeiliaid eraill, a data'r ACF a data am gyflogadwyedd, ac yn arwain at ddatblygu adroddiadau blynyddol a chynlluniau gweithredu. Defnyddir yr adroddiadau a'r cynlluniau gweithredu ar lefel y rhaglenni i hysbysu'r gwaith cynllunio yng nghyswllt rhaglenni a myfyrwyr. Er enghraifft, gwelodd y tîm dystiolaeth i ddangos bod adroddiadau'r broses barhaus o fonitro a gwella rhaglenni wedi eu hystyried a'u trafod yng nghyfarfodydd Byrddau'r Cyfadrannau. Creffir ar adroddiadau'r broses barhaus o fonitro a gwella rhaglenni, yn ogystal ag adroddiadau arholwyr allanol ac adborth gan y rhanddeiliaid, yn rhan o'r broses o adolygu rhaglenni'n gyfnodol a weithredir bob pum mlynedd. Gwelwyd tystiolaeth o hyn, er enghraifft, drwy arsylwi'r cyfarfod SHAPE ac adolygu ei ddogfennau cysylltiedig, lle ystyriwyd y cyflwyniadau i'r broses ddilysu ac adolygu cyfnodol ar gyfer y rhaglenni 'Entrepreneur Creadigol' a 'Phlismona Proffesiynol', a thrwy arsylwi cyfarfod cyfnodol y panel adolygu ar gyfer y rhaglen BA (Anrh) 'Gwaith Cymdeithasol: Statws Cymwysedig'. Mae canlyniadau'r asesiadau'n cael eu monitro a'u goruchwylio o fewn y strwythur pwyllgorau yng nghyfarfodydd Byrddau'r Cyfadrannau, y Pwyllgor ADA a'r Bwrdd Academaidd (gwelwch y drafodaeth uchod).

118 Mae trefn glir ar gyfer cau rhaglenni (naill ai drwy dynnu allan neu drwy atal dros dro), yn cynnwys ar gyfer ymgynghori â'r myfyrwyr a'r rhanddeiliaid perthnasol, yn ogystal â threfniadau ar gyfer sicrhau bod y myfyrwyr yn gallu cwblhau eu hastudiaethau neu drosglwyddo i ddarpariaeth amgen, fel y bo'n briodol. Mae'r rheoliadau hyn wedi eu hamlinellu ym Mhennod 1 y Llawlyfr Ansawdd Academaidd. Hefyd, mae gan y Brifysgol broses o roi gwybod i'r myfyrwyr a'r ymgeiswyr am unrhyw newidiadau arfaethedig i'w rhaglenni ac, am ei bod yn disgwyl derbyn pwerau DGY, mae ganddi broses hefyd ar gyfer rhoi'r dewis i'r myfyrwyr ôl-raddedig cofrestredig naill ai aros yn gofrestredig gyda Phrifysgol Caer neu drosglwyddo i Brifysgol Wrecsam.

Maen prawf B4

119 Dyma ddywed y maen prawf hwn:

> *Mae sefydliad a gaiff bwerau i ddyfarnu graddau a addysgir yn cymryd camau effeithiol i hybu cryfderau ac ymateb i gyfyngiadau a nodir.*

120 Mae dull y Brifysgol o'i gwerthuso ei hun yn feirniadol er mwyn sicrhau gwelliant wedi ei ddisgrifio yn ei Fframwaith Gwella, sydd wedi ei alinio'n glir â Chod Ansawdd y DU, ac sy'n disgrifio sut mae'r Brifysgol yn rheoli ansawdd academaidd ac yn sicrhau ei fod yn

cael ei wella'n barhaus, ac mae myfyrwyr a staff y Brifysgol, yn ogystal â chynghorwyr allanol, cyflogwyr a chyrff proffesiynol, yn cyfranogi yn y gwaith o sicrhau a gwella ansawdd. Mae'r fframwaith yn amlinellu dull cyffredinol y Brifysgol sy'n cael ei lywio gan ei Gweledigaeth, ei Strategaeth a'i Strategaeth Cynorthwyo Dysgu a Chyflawniad Myfyrwyr, ac mae'n cael ei weithredu drwy'r drefn reoli, y strwythur pwyllgorau a'r drefn adolygu a datblygu staff. Mae'r fframwaith hefyd yn disgrifio'r mecanweithiau adolygu a gwella. Gwelodd y tîm dystiolaeth i ddangos bod gweithgareddau adolygu effeithiol wedi eu rhoi ar waith, yn cynnwys defnyddio arholwyr allanol, craffu allanol, rheoleiddio gan gyrff PSRh, casglu adborth gan fyfyrwyr a chyflogwyr, monitro rhaglenni'n barhaus, yn ogystal â dilysu rhaglenni a'u hadolygu'n gyfnodol.

121 Mae'r Brifysgol wedi ymwreiddio nifer o brosesau gwerthuso a monitro rhaglenni yn ei threfn ar gyfer llywodraethu a rheoli materion academaidd, sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer hunanasesu beirniadol, canfod problemau ac adrodd am y camau gweithredu a gymerwyd i fynd i'r afael â nhw, fel y disgrifiwyd yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd. Mae'r sefydliad wedi diwygio ei brosesau o fonitro ac adolygu rhaglenni'n flynyddol, gan gyflwyno'r broses 'Monitro a Gwella Rhaglenni'n Barhaus' (y broses MGRhB) o 2022-23 ymlaen yn lle'r Adolygiad Monitro Blynyddol gynt, gyda'r nod o alluogi i dimau'r rhaglenni gymryd camau gwella'n brydlon mewn ymateb i dystiolaeth ac adborth pan fo problemau'n codi. Mae'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd yn disgrifio'r broses MGRhB fel elfen allweddol o Fframwaith Gwella'r sefydliad a'r broses y mae'r sefydliad yn ei defnyddio i ddangos bod ganddo ddull hunan-feirniadol ac agored o sicrhau ansawdd a safonau ymhob cyfadran a bod y dull yn gweithredu o fewn ac ar draws y rhaglenni i gyd.

122 I gefnogi'r staff wrth weithredu'r broses MGRhB, mae templedi ar gael ar gyfer cynllun gweithredu ac adroddiad ar ddiwedd pob blwyddyn. Mae gofyn i dîm pob rhaglen ystyried a dadansoddi tystiolaeth o amrywiaeth eang o ffynonellau pan fo ar gael. Mae'r rhain yn cynnwys adroddiadau arholwyr allanol, adroddiadau cyrff PSRB, adborth gan y myfyrwyr, y cyflogwyr a'r rhanddeiliaid eraill, adroddiadau gwerthuso modiwlau, adroddiadau arholwyr allanol a'r ymatebion iddyn nhw, ystadegau am y myfyrwyr, a chanlyniadau digwyddiadau dilysu ac adolygu cyfnodol, yn ogystal ag unrhyw faterion sy'n codi o drefniadau cydweithredol. Mae gofyn hefyd i dîm pob rhaglen gadarnhau ei bod yn parhau i gyfateb â'r FHEQ, FfCChC, Datganiadau Meincnodi Pwnc, Cod Ansawdd y DU, Datganiadau o Nodweddion prentisiaethau a gofynion cyrff PSRh. Yn ôl y fframwaith ar gyfer rheoli a llywodraethu materion academaidd, mae adroddiadau'r broses MGRhB a'r cynlluniau gweithredu cysylltiedig yn cael eu goruchwylio gan Fyrddau Astudiaethau'r Cyfadrannau, yr Is-bwyllgor RhA a'r Pwyllgor ADA, a rhoddir adroddiadau i'r Bwrdd Academaidd. Mae'r Tîm Ansawdd a Rheoliadau'n monitro ac yn rheoli'r broses MGRhB.

123 Adolygodd y tîm esiamplau o adroddiadau'r broses MGRhB a'r cynlluniau gweithredu cysylltiedig o flwyddyn academaidd 2022-23 ar gyfer nifer o raglenni. Roedd yr adroddiadau'n werthusol ac yn cynnwys adborth gan y myfyrwyr, y staff a'r arholwyr allanol, gan ddefnyddio data am berfformiad a deilliannau dysgu'r myfyrwyr yn eu gwerthusiadau. Roedd y cynlluniau gweithredu'n nodi camau gweithredu gofynnol oedd â sgorau goleuadau traffig (coch/melyn/gwyrdd) mewn meysydd megis llais y myfyrwyr a recriwtiad a chadwraeth myfyrwyr, gan ddyrannu'r cyfrifoldeb am bob cam gweithredu, ochr yn ochr â'u dyddiadau cwblhau disgwyliedig, y meysydd sydd angen eu gwella, a'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn. Trwy arsylwi cyfarfodydd Byrddau Astudiaethau'r Cyfadrannau, gallai'r tîm gadarnhau bod adroddiadau'r broses MGRhB wedi derbyn ystyriaeth, a nododd themâu cyffredin sy'n codi o adroddiadau ar lefel y meysydd astudio, meysydd o arfer da, meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach ar lefel y cyfadrannau, a materion i'w trafod neu eu hargymell yn ehangach ar lefel y sefydliad cyfan. Yng nghyfarfodydd y Cyfadrannau, adolygwyd hefyd effeithiolrwydd y broses MGRhB, gan nodi cryfderau'r broses newydd a'r heriau sy'n codi ohoni yn ystod y flwyddyn bontio, a thynnwyd sylw at y ffaith fod angen hyfforddi timau'r rhaglenni ymhellach i sicrhau eu bod yn cadw'n agosach at y broses adolygu barhaus a'u

bod yn ei gweithredu'n gyson. Roedd yr uwch reolwyr a'r staff academaidd yn cefnogi'r broses newydd, gan nodi bod y cyfarfodydd a gynhelir yn rheolaidd ar lefel y meysydd astudio sy'n cefnogi'r broses MGRhB yn fuddiol o ran canfod arferion da, yn ogystal â meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach. Hefyd, nodwyd ganddynt y gallai timau'r rhaglenni ymateb i ddata mewn amser real bellach a phennu camau gwella yn y cynllun gweithredu wrth iddyn nhw godi, gan olygu bod modd ymdrin â chamau gweithredu a'u cwblhau'n gyflym, ynghyd â symud problemau'n chwim i dderbyn sylw ar lefel sefydliadol os byddai hynny'n angenrheidiol.

124 Yn ogystal â monitro rhaglenni yn ystod y flwyddyn, gwelwyd tystiolaeth o ddull hunanasesu beirniadol yn nhrefniadau'r Brifysgol ar gyfer adolygu rhaglenni'n gyfnodol bob pum mlynedd - gwelwch hefyd y drafodaeth am Faen prawf B2. Bu'r tîm yn arsylwi'r gwaith cyfnodol o adolygu'r rhaglen BA (Anrh) 'Gwaith Cymdeithasol: Statws Cymwysedig', a gwelodd fod y rhaglen wedi ei hasesu'n drwyadl, gan gynnwys ystyried penderfyniadau derbyn, deilliannau dysgu, dysgu, addysgu ac asesu, cymorth i fyfyrwyr, cyflogadwyedd y graddedigion, ac adnoddau. Roedd cynrychiolwyr y myfyrwyr, ac arbenigwyr allanol o'r diwydiant a phrifysgol arall, yn cymryd rhan yn yr adolygiad, a defnyddiwyd adborth gan yr arholwyr allanol, y myfyrwyr a'r diwydiant, yn ogystal â data am berfformiad a deilliannau dysgu'r myfyrwyr. O ganlyniad i'r adolygiad, rhoddwyd argymhellion ac amodau cymeradwyo, a nodwyd meysydd sydd wedi derbyn canmoliaeth.

125 Mae mecanweithiau clir ar lefelau'r rhaglenni a'r sefydliad ar gyfer adrodd ar adborth gan y myfyrwyr - gwelwch y drafodaeth am Faen prawf Ch1.

126 Fel y trafodwyd eisoes yn yr adroddiad hwn - gwelwch Faen prawf A - canfu'r tîm fod y Brifysgol wrthi'n cymryd camau gweithredu i adolygu effeithiolrwydd ei threfn lywodraethu a'r strwythur pwyllgorau, a bod y newidiadau a gyflwynwyd yn 2023 mewn ymateb i adroddiad yr Ymchwiliad i Bryderon wedi rhoi'r Brifysgol mewn sefyllfa lawer cryfach ac yn ei galluogi i atal, canfod a mynd i'r afael yn well â'r diffygion a'r gwendidau a ganfuwyd yn y prosesau rheoli a llywodraethu. Ar sail y dystiolaeth, daeth y tîm i'r casgliad fod gan y Brifysgol ddulliau effeithiol o adolygu ei pherfformiad yn feirniadol, a bod camau gweithredu'n cael eu cymryd mewn ymateb i adolygiadau mewnol ac allanol. Mae'r Brifysgol wrthi'n cymryd camau priodol i gryfhau ei phrosesau rheoli a llywodraethu er mwyn canfod cyfyngiadau a diffygion.

127 Mae mecanweithiau eglur i bennu a chyflawni camau gweithredu a nodwyd yn rhan o'r prosesau monitro rhaglenni. Gwelwyd hyn yn y broses MGRhB newydd sy'n monitro ac yn adolygu amcanion dysgu a deilliannau dysgu'r rhaglenni. Mae'r cynlluniau gweithredu sy'n gysylltiedig â'r broses MGRhB yn nodi'r camau gweithredu gofynnol yn glir, ynghyd â'r cyfrifoldeb am bob cam gweithredu, eu dyddiadau cwblhau disgwyliedig a diweddariadau ynghylch y cynnydd a wnaed. Mae'r camau gweithredu'n cael eu diffinio mewn cyfarfodydd adolygu ar lefel y meysydd astudio, ac mae Byrddau Astudiaethau'r Cyfadrannau'n monitro eu gweithrediad a'u cynnydd. Yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2023, derbyniodd y Bwrdd Academaidd adroddiad am weithrediad y broses MGRhB a oedd yn ei blwyddyn gyntaf o weithredu yn 2022-23, sydd wedi rhoi trosolwg o adroddiadau a gynhyrchwyd gan Fyrddau Astudiaethau'r Cyfadrannau yn rhan o'r broses barhaus o fonitro a gwella rhaglenni.

128 Mae systemau clir ar waith ar gyfer pennu a chyflawni camau gweithredu sy'n ymwneud â phrosesau'r Brifysgol o ddilysu rhaglenni a'u hadolygu'n gyfnodol. Mae'r rhain yn asesu strwythur y cwricwlwm, yn ogystal â'r strategaethau dysgu, addysgu ac asesu, er mwyn sicrhau bod dyluniad pob rhaglen yn galluogi i'r myfyrwyr gyflawni'r deilliannau dysgu a fwriedir, a sicrhau bod y rhaglen a'i threfniadau'n ddigon hyblyg i ateb anghenion amrywiaeth eang o fyfyrwyr. Gofynnir i bob panel dilysu ystyried cynnwys a deilliannau dysgu pob modiwl a chadarnhau bod y strategaeth ar gyfer asesu pob un o'r deilliannau dysgu wedi ei llunio'n briodol. Hefyd, rhaid i deitl pob dyfarniad adlewyrchu deilliannau dysgu

a fwriedir y rhaglen. Mae swyddogaethau aelodau'r panel dilysu/adolygu cyfnodol wedi eu disgrifio'n glir. Mae hyfforddiant ar gael i aelodau newydd o banelau dilysu, a rhoddir ffurflen 'Sylwadau cyn dilysu' iddynt sy'n tynnu eu sylw at faterion sydd angen eu hystyried cyn y digwyddiad dilysu.

129 Mae tystiolaeth i ddangos bod y panelau dilysu wedi cyflawni eu cyfrifoldebau o ran craffu'r amcanion dysgu y cytunwyd arnynt, a'r deilliannau dysgu a fwriedir ar lefelau'r rhaglenni a'r modiwlau. Er enghraifft, nodwyd yn adroddiad dilysu'r corff PSRh fod yr amcanion a'r deilliannau dysgu wedi cael eu hystyried yng nghyd-destun rhaglen newydd arfaethedig, yn rhan o ddigwyddiad dilysu ac achredu a gynhaliwyd ar y cyd â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Tynnodd y panel ar gyfer ail-ddilysu dwy raglen radd/brentisiaeth sylw at y dyblygiad a'r tebygrwydd cryf rhwng amcanion y ddwy raglen a phennwyd amod o ail gymeradwyo oedd yn gofyn i dîm y rhaglen ail-adolygu'r adran am amcanion y rhaglenni i nodi amcanion unigryw ar gyfer y ddwy raglen, ochr yn ochr ag amcanion sy'n gyffredin i'r ddwy. Pennwyd amod ail gymeradwyo hefyd ar gyfer adolygu'r ddogfen sy'n mapio deilliannau dysgu modiwl y prosiect yn dilyn cyngor gan yr aseswr allanol na fyddai'r prosiectau i gyd yn gallu cyflawni'r deilliannau dysgu cyfredol.

130 Hefyd, arsylwodd y tîm ddigwyddiad ail-ddilysu'r rhaglen Gwaith Cymdeithasol, a gallai gadarnhau bod y deilliannau dysgu wedi cael eu hystyried yn erbyn gofynion y corff PSRh. Yn ogystal, bu'r tîm yn arsylwi cyfarfod SHAPE lle cafodd adroddiad yr adolygiad cyfnodol o'r rhaglen 'Plismona Proffesiynol' ei ystyried, a gwelwyd tystiolaeth ynddo i ddangos gwaith tîm y rhaglen o fonitro ac adolygu'r deilliannau dysgu ar sail adroddiadau arholwyr allanol, data am y rhaglenni, yn ogystal â dulliau o gasglu adborth gan y myfyrwyr, y cyflogwyr, a'r Coleg Plismona.

131 Mae'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd yn cynnwys diffiniad clir o'r cyfrifoldeb am gyflawni camau gweithredu a monitro eu heffeithiolrwydd, os rhoddwyd argymhellion ac amodau cymeradwyo o ganlyniad i ddigwyddiadau dilysu. Gwelodd y tîm dystiolaeth i ddangos bod y cyfrifoldeb am gyflawni camau gweithredu penodol wedi ei ddyrannu'n glir er mwyn sicrhau bod yr amodau'n cael eu bodloni - gwelwch y drafodaeth am Faen prawf B3.

132 Canfu'r tîm drefniadau clir ar gyfer dyrannu cyfrifoldebau a chyflawni camau gweithredu mewn ymateb i sylwadau arholwyr allanol ar lefel y rhaglenni. Mae gofyn i dîm pob rhaglen roi ymateb i adroddiad pob arholwr allanol gan ddefnyddio templed. Mae'r esiamplau o'r ymatebion hyn a welwyd gan y tîm yn cadarnhau eu bod yn nodi camau gweithredu sydd i gael eu cymryd mewn ymateb i sylwadau gan bobl allanol, amseriadau, a phwy sy'n gyfrifol am roi'r camau gweithredu hyn ar waith. Mae'r templed ar gyfer adroddiadau arholwyr allanol a gwblheir gan arholwyr allanol bob blwyddyn yn gofyn iddynt gadarnhau a yw camau gweithredu wedi eu cymryd mewn ymateb i adroddiadau blaenorol, ac mae'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn gyffredinol gadarnhaol yn yr adroddiadau a welwyd gan y tîm.

133 Mae systemau clir ar waith ar gyfer pennu a chyflawni camau gweithredu mewn perthynas â dull y Brifysgol o asesu deilliannau dysgu. Mae'r sefydliad wedi mapio ei feini prawf asesu a'i fframwaith ar gyfer marcio asesiadau yn erbyn lefelau dysgu 3 i 7, ac mae'r templed 'Cofnod Gwerthuso a Chymedroli Modiwlau' yn gofyn i arholwyr gadarnhau bod asesiadau wedi eu marcio yn nhermau amcanion a deilliannau dysgu diffiniedig yr aseiniad/arholiad ac yn unol â'r meini prawf marcio. Adolygodd y tîm sampl o waith cyflawn y myfyrwyr ar draws bob lefel o'r ddarpariaeth oedd yn dangos bod deilliannau dysgu'r rhaglen wedi eu mapio yn erbyn fframwaith marcio'r sefydliad, a chlustnodwyd marciau ar gyfer deilliannau dysgu unigol. Mewn sampl o gofnodion Gwerthuso a Chymedroli Modiwlau cyflawn, nodwyd bod y deilliannau dysgu wedi cael eu hystyried; er enghraifft, nododd yr adborth gan yr arholwr allanol ym modiwl HLT511 'Support and Empowerment' fod y dulliau asesu wedi eu gweithredu'n drwyadl, a rhoddwyd marciau mewn ffordd deg yn erbyn y

deilliannau dysgu a fwriedir. Yn y ffurflen gyflawn am fodiwl PSYON711 'Emerging Technologies in Psychology', nodwyd nad oedd yr un aseiniad oedd wedi ei gyflwyno o'r blaen, a oedd wedi sbarduno sgôr tebygrwydd uchel, yn ateb y deilliannau dysgu a fwriedir ar gyfer yr aseiniad.

134 Fel y trafodwyd uchod ac mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn, wrth ddatblygu ei threfniadau ar gyfer dylunio a dilysu rhaglenni a'u hadolygu'n gyfnodol mae'r Brifysgol yn defnyddio syniadau ac arbenigedd o'r tu mewn a'r tu allan i'r sefydliad. Yn ogystal, yn y digwyddiadau SHAPE misol, mae arbenigwyr o'r tu mewn i'r Brifysgol yn tywys ei staff drwy gamau 1 a 2 y broses ddilysu, ac mae'r digwyddiadau hyn yn amgylchedd cefnogol i'r timau rannu a threialu eu syniadau gyda'u cydweithwyr cyn eu cyflwyno nhw i Fyrddau'r Cyfadrannau a'r digwyddiad dilysu.

135 Arsylwodd y tîm y digwyddiad SHAPE a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd 2023 lle cafodd cynigion eu cefnogi i ail-ddilysu'r rhaglen BSc (Anrh) 'Plismona Proffesiynol' a'r rhaglen MA 'Entrepreneur Creadigol'. Roedd y dogfennau a ddarparwyd ar gyfer y digwyddiad hwn yn cynnwys templedi ar gyfer addasiadau mawr, adroddiadau monitro blynyddol, adroddiadau'r broses barhaus o fonitro a gwella rhaglenni ar ddiwedd pob blwyddyn, adroddiadau'r arholwr allanol a'r ymatebion iddynt, adroddiad monitro blynyddol y Coleg Plismona, yn ogystal â'r templed cyflawn ar gyfer yr adroddiad adolygu cyfnodol. Yn ystod y digwyddiad, gofynnwyd i dimau'r rhaglenni egluro materion penodol oedd yn codi o'r ddogfennaeth oedd yn ymwneud â recriwtio myfyrwyr, newidiadau arfaethedig i deitl y rhaglen, materion ariannol megis y ffi am y rhaglen, darpariaeth ran amser, a materion yn ymwneud â'r Gymraeg. Ar sail y drafodaeth hon, rhoddwyd caniatâd i'r rhaglen 'Plismona Proffesiynol' symud ymlaen i'r cam nesaf ym mhroses gymeradwyo'r gyfadran, ond gofynnwyd i dîm y rhaglen 'Entrepreneur Creadigol' wneud newidiadau iddi mewn ymateb i'r trafodaethau ac ail gyflwyno'r cynnig i ddigwyddiad SHAPE i gael ei ystyried ymhellach. Hefyd, mae gweithdai CREATE dan arweiniad cymheiriaid yn hwyluso rhannu syniadau ac arbenigedd mewn llunio rhaglenni ac yn cefnogi timau'r rhaglenni yn eu gwaith paratoi ar gyfer y broses ddilysu.

136 Mae'r Brifysgol wedi sefydlu Grŵp Rhanddeiliaid Prentisiaethau Gradd, Strategaeth Cydweithio ac Ymgysylltu â Chyflogwyr ar gyfer Prentisiaethau Gradd, a phroses Adolygu Ymgysylltiad ar gyfer Prentisiaethau Gradd, er mwyn cryfhau'r ymgysylltiad â chyflogwyr a chefnogi datblygiad ei rhaglenni prentisiaeth gradd yn y tymor hir. Sicrhawyd aliniad y prentisiaethau gradd â gofynion Fframwaith Prentisiaethau Cymru drwy ymgysylltu â chyflogwyr, gyda chefnogaeth y tîm Menter a chafodd ei hysbysu gan adborth y myfyrwyr, y grŵp o randdeiliaid a'r broses fonitro flynyddol (sef y broses MGRhB erbyn hyn). Cadarnhaodd aelodau uwch o'r staff academaidd fod y Brifysgol yn ceisio adborth gan y rhanddeiliaid allanol, megis cyflogwyr a chyn-fyfyrwyr, er mwyn hysbysu ei phrosesau monitro a gwella ei darpariaeth. Roedd yr esiamplau a roddwyd yn dangos bod y Brifysgol wedi ei chynrychioli mewn cyfarfodydd lefel uchel gyda'r Bwrdd Iechyd ac yng nghyfarfodydd misol y Bwrdd Dysgu o Gamgymeriadau, a datblygwyd rhaglenni newydd o ganlyniad i hynny.

137 Aseinir arholwyr allanol i bob un o'r rhaglenni ac maen nhw'n dod â'u harbenigedd a'u profiad o weithio gyda rhaglenni tebyg mewn sefydliadau eraill yn y DU, ac yn rhoi argymhellion am wella strwythur a safonau'r rhaglen, yn ogystal â'r gweithgareddau dysgu, addysgu ac asesu. Mae'r problemau a godir yn adroddiadau'r arholwyr allanol a'r camau a gymerir i fynd i'r afael â nhw, yn cael eu cofnodi yn adroddiadau'r broses MGRhB sy'n derbyn ystyriaeth gan Fyrddau Astudiaethau'r Cyfadrannau. Mae'r Tîm Ansawdd a Rheoliadau'n tracio'r camau gweithredu a gymerir mewn ymateb i adroddiadau'r arholwyr allanol, ac mae'n cynhyrchu adroddiad trosolwg cryno blynyddol i'r Pwyllgor ADA a'r Bwrdd Academaidd am weithgareddau'r arholwyr allanol a'r ymatebion iddynt.

138 Gwelodd y tîm dystiolaeth i ddangos bod gan y Brifysgol ddulliau effeithiol o annog gwelliant parhaus. Er enghraifft, drwy gynllunio camau gweithredu yn rhan o'r broses MGRhB, mae timau'r rhaglenni'n gallu canfod a datrys problemau gynted ag y bo modd. Bob mis, mae tîm y rhaglen yn adolygu'r gweithgareddau gwella a gychwynnwyd yn y flwyddyn academaidd flaenorol, a chaiff camau gweithredu newydd eu hychwanegu'n rheolaidd yn rhan o broses barhaus mewn ymateb i adborth mewnol ac allanol. Mae adroddiadau'r broses MGRhB a gynhyrchir ar ddiwedd pob blwyddyn yn hysbysu adroddiadau sy'n rhoi trosolwg o'r cyfadrannau i Fyrddau Astudiaethau'r Cyfadrannau. Mae'r byrddau'n ystyried yr adroddiadau i ganfod themâu cyffredin, arferion da, a meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach ar lefelau'r cyfadrannau neu'r sefydliad. Mae'r templed ar gyfer adroddiadau adolygu cyfnodol yn gofyn i dimau'r rhaglenni nodi unrhyw gynlluniau ar gyfer sicrhau gwelliant a ddatblygwyd ar sail proses fonitro flynyddol barhaus, a gwelodd y tîm dystiolaeth o gynlluniau gwella sydd wedi eu seilio ar waith monitro parhaus, yn y dogfennau a gyflwynwyd i'r adolygiad cyfnodol o'r rhaglenni BSc (Anrh) mewn Plismona Proffesiynol a BA (Anrh) mewn Gwaith Cymdeithasol. Mae'r ymatebion ysgrifenedig i adroddiadau arholwyr allanol yn dangos sut mae'r arbenigedd hwn yn cael ei ddefnyddio i wella'r ddwy raglen.

139 Mae amrywiaeth o systemau ar gyfer canfod a rhannu arferion da. Er enghraifft, yn rhan o'r Strategaeth CDChM, sefydlwyd 'sesiynau dysgu amser cinio' i hwyluso rhannu'r arferion gorau. Bu'r tîm yn arsylwi cyfarfod y Pwyllgor ADA ym mis Gorffennaf 2023 lle nodwyd cynllun gweithredu atodol y Strategaeth CDChM ar gyfer 2022-23, a chyflawniad nod y sesiynau dysgu amser cinio o gynyddu'r ymwybyddiaeth o arferion gorau a'u rhannu, yn dilyn adolygiad o'u heffaith. Hefyd, nodwyd mai'r bwriad ar gyfer 2023-24 yw cynnig rhagor o sesiynau dysgu yn ystod amser cinio, a bod angen casglu esiamplau mwy penodol a mesuradwy o'r effaith y maent wedi ei gael ar y dysgu a'r addysgu. Yng nghyfarfod y Pwyllgor ADA, trafodwyd defnyddio arolygon i gasglu adborth am yr effaith a gafodd y sesiynau dysgu amser cinio, gan nodi bod y data'n dangos bod presenoldeb y staff yn amrywio rhwng y cyfadrannau, a bod angen annog rhagor o aelodau'r staff academaidd i fynychu.

140 Anogir y staff i ddefnyddio'r broses o arsylwi'r addysgu gan gymheiriaid i adfyfyrio ar ansawdd eu haddysgu a'i wella'n barhaus. Cadarnhaodd y rheolwyr academaidd a'r staff academaidd ei bod hi'n orfodol iddynt gael eu hadolygu gan gymheiriaid, ac, yn gyffredinol, roeddent o'r farn bod y broses hon yn brofiad cadarnhaol sy'n darparu adborth defnyddiol iddyn nhw ddatblygu eu sgiliau addysgu.

141 Mae adroddiadau blynyddol a gyflwynir i'r Pwyllgor ADA am effeithiolrwydd prosesau mewnol, megis dilysu ac adolygu cyfnodol, a gweithrediad y gweithdrefnau ar gyfer myfyrwyr, yn hybu gwelliant yn effeithiol. Er enghraifft, yn yr adroddiad cryno am achosion a gafodd eu trin yn ystod 2022-23 o dan y gweithdrefnau ar gyfer myfyrwyr, gwelwyd dadansoddiad o gwynion a gafwyd gan fyfyrwyr, yn ogystal ag apeliadau academaidd, problemau yn ymwneud ag ymddygiad myfyrwyr ac uniondeb academaidd, a cheisiadau am amgylchiadau esgusodol. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys argymhellion am wella'r gweithdrefnau, yr hyfforddiant i'r staff a'r cymorth i'r myfyrwyr, a nodwyd argymhellion i ddadansoddi natur y cwynion yn fanylach er mwyn deall y problemau sylfaenol yn well, yn ogystal â gwaith pellach y Tîm Ansawdd a Rheoliadau i hwyluso'r broses o apelio yn erbyn penderfyniadau ynglŷn ag amgylchiadau esgusodol drwy'r Panel Amgylchiadau Esgusodol. Yng nghyfarfod y Pwyllgor ADA a arsylwyd gan y tîm lle cafodd yr adroddiad ei ystyried, trafodwyd hefyd ffyrdd posibl o annog y myfyrwyr i gymryd mwy o ran yn y broses ddilysu, er enghraifft, drwy gynnig tâl iddynt, gweithredu fel cynrychiolwyr cwrs, neu roi tystysgrifau digidol i'r myfyrwyr i'w cefnogi i ganfod swydd. Ar sail y dystiolaeth, daeth y tîm i'r casgliad bod dulliau effeithiol ar waith i hybu camau parhaus i wella ansawdd y ddarpariaeth a chyflawniad y myfyrwyr.

Maen prawf C: Ysgolheictod ac effeithiolrwydd pedagogaidd staff academaidd

Maen prawf C1

142 Dyma ddywed y maen prawf hwn:

> *Bydd staff sefydliad a gaiff bwerau i ddyfarnu graddau a addysgir yn gymwys i addysgu, hwyluso dysgu, ac asesu i lefel y cymwysterau a ddyfernir.*

143 Un o bwyllgorau sefydlog y Bwrdd Llywodraethwyr yw'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant sy'n gyfrifol am sicrhau bod diwylliant a gwerthoedd y Brifysgol, a'i strategaethau, ei pholisïau a'i harferion sy'n ymwneud â phobl, yn cefnogi gweithrediad strategaeth y Brifysgol yn effeithiol. Mae'n derbyn adroddiadau rheolaidd am ddatblygiad y staff ymchwil, academaidd a phroffesiynol.

144 Mae'r Strategaeth Pobl yn disgrifio amcanion a chynlluniau'r Brifysgol ar gyfer denu, datblygu a chadw staff sydd ag arbenigedd proffesiynol perthnasol. Mae'r strategaeth wedi ei halinio'n glir â gwerthoedd y Brifysgol - bod yn hygyrch, cefnogol, arloesol ac uchelgeisiol. Mae'n nodi ymrwymiad y Brifysgol i ddatblygu a gwella diwylliant o welliant parhaus drwy ddarparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu ac adnabod talent perfformiad uchel sy'n galluogi datblygiad, cynnydd a chynllunio dilyniant yn y tymor hir. Ochr yn ochr â'r strategaeth, lluniwyd cynllun gweithredu tair blynedd. Mae'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant wedi monitro'r cynnydd a gafwyd yn erbyn y strategaeth ac wedi adrodd amdano i'r Bwrdd Llywodraethwyr yn rheolaidd. Ym mis Mehefin 2023, diwygiwyd y Strategaeth Pobl yn gynhwysfawr a chafodd ei henw newydd, sef Strategaeth Pobl a Diwylliant. Mae diweddariad ynghylch y cynnydd yn nwy flynedd gyntaf gweithrediad cynllun gweithredu cefnogol y Strategaeth Pobl a Diwylliant yn dangos bod y rhan fwyaf o'r camau gweithredu wedi eu cwblhau. Mae'r uwch dîm rheoli'n ymwybodol mai ychydig iawn y mae'r Strategaeth Pobl a Diwylliant yn ei ddweud am faterion ymchwil (cyfeirir ati yn y cyflwyniad ond ni cheir sôn amdani yn unlle arall) a bod angen iddi gael ei diweddaru i adlewyrchu uchelgeisiau'r Brifysgol ym maes ymchwil. Caiff y strategaeth ei diweddaru yn rhan o broses gynhwysfawr o adolygu strategaeth y Brifysgol a'i strategaethau cynorthwyol ategol sy'n cael eu dwyn ymlaen i 2024. Roedd proses ymgynghori wedi cychwyn eisoes ar adeg yr ail ymweliad gan y tîm ym mis Hydref 2023.

145 Mae amcanion y Strategaeth Pobl a Diwylliant yn cyfateb â'r Strategaeth Cynorthwyo Dysgu a Chyflawniad Myfyrwyr, sydd â chynllun gweithredu i gefnogi datblygiad addysgu sydd wedi ei hysbysu gan ymchwil, ac sy'n cydbwyso sialens uchel gyda chymorth o safon uchel i fyfyrwyr drwy adnoddau hygyrch, dysgu gweithredol a darpariaeth gyda chymorth technoleg ddigidol. Mae'r mesurau a ddisgrifiwyd yn cynnwys gwella'r rhaglen datblygu staff academaidd fewnol ymhellach, a chymorth parhaus i ennill cymwysterau addysgu a chydnabyddiaeth broffesiynol am addysgu. Mae cynnydd y camau gweithredu hyn yn cael ei fonitro drwy ddangosyddion perfformiad, yn cynnwys sgorau'r ACF am foddhad y myfyrwyr, yr oriau o ddatblygiad staff academaidd, adolygiad cymheiriaid sy'n tynnu sylw at yr arferion gorau, nodyn o unrhyw feysydd sydd angen eu gwella, a'r gyfran o academyddion sy'n meddu ar gymwysterau addysgu addysg uwch neu gydnabyddiaeth broffesiynol. Mae'r cynllun gweithredu'n cael ei fonitro'n barhaus, a gwelwyd y dystiolaeth bod hyn yn digwydd mewn papur, a gafodd ei ystyried gan y Bwrdd Academaidd yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2023, oedd yn adrodd am drafodaethau yng nghyfarfod y Pwyllgor Ansawdd Dysgu ac Addysgu (Pwyllgor ADA) ym mis Mai 2023. Cafodd yr adroddiad am flwyddyn academaidd 2022-23, a'r adroddiad terfynol am y strategaeth, ei dderbyn gan y Bwrdd Academaidd yng nghyfarfod ei Bwyllgor ADA ym mis Medi. Roedd yr

adroddiad yn cynnwys dadansoddiad manwl o'r cyflawniadau, oedd yn dangos bod y rhan fwyaf o'r amcanion wedi eu cyflawni neu y rhagorwyd arnynt.

146 Mae disgrifiad swydd academaidd generig ac enghraifft wedi'i chyflawni'n disgrifio'r disgwyliadau y mae'r Brifysgol yn eu rhoi ar ei staff addysgu, yn cynnwys cymryd rhan yn y gwaith ymchwil ac ysgolheigaidd a chyfrannu at y gwaith o reoli'r rhaglenni addysgu perthnasol, fel y bo'r gofyn. Mae gofyn i'r staff ddarparu arbenigedd a phrofiad sy'n ymwneud â'r pwnc perthnasol ar lefel israddedig ac ôl-raddedig, a datblygu'r cwricwlwm. Disgwylir iddyn nhw weithio gyda chydweithwyr academaidd wrth ddatblygu rhaglenni a meysydd astudio, er mwyn sicrhau bod y portffolio cwricwla'n parhau'n gyfredol a bod y trefnau asesu'n parhau'n berthnasol. Hefyd, mae'n rhaid iddyn nhw dderbyn y cyfrifoldeb am sicrhau eu bod yn parhau i ddiweddaru eu gwybodaeth a'u sgiliau er mwyn bod yn effeithiol yn eu rolau, a chymryd rhan yn y broses Adolygu Datblygiad Perfformiad (ADP), gan gymryd rhan yn y gwaith o osod amcanion er mwyn helpu i fonitro perfformiad a datblygiad y myfyriwr unigol.

147 Mae'r wybodaeth a ddarparwyd gan y Brifysgol yn dangos bod gan ei staff gymwysterau academaidd a phroffesiynol perthnasol. Mae gan bob aelod o'r staff gymwysterau lefel 6 neu'n uwch: mae gan 41% o'r staff gymwysterau doethuriaeth, mae gan 56% gymwysterau lefel 7, mae gan 70% o'r staff gymwysterau sy'n uwch na'r lefel y maent yn addysgu arni, ac mae gan 120 o aelodau staff (59%) gymwysterau proffesiynol.

148 Mae'r Brifysgol yn gweithredu cynllun mewnol sydd wedi ei achredu gan Advance HE er mwyn annog pob aelod o'i staff academaidd i gael cydnabyddiaeth broffesiynol fel Cymrawd Advance HE. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys gweithdai a chymorth arall ar gyfer y broses ymgeisio. Mae gan ychydig yn llai na hanner (46%) y staff academaidd statws Cymrawd Advance HE, sef dau ohonynt sydd â statws Cymrawd Cyswllt, 79 sydd â statws Cymrawd a naw arall sydd â statws Uwch Gymrawd. Mae'r Brifysgol yn adolygu nifer a chanran ei staff sy'n ennill statws Cymrawd Advance HE yn rhan o gynllun atodol y Strategaeth Cynorthwyo Dysgu a Chyflawniad Myfyrwyr (Strategaeth CDChM).

149 Mae'n rhaid i bob aelod o staff sy'n darparu rhaglenni a addysgir y Brifysgol mewn sefydliadau partner gael eu cymeradwyo gan y Brifysgol yn gyntaf. Mae pob cytundeb partneriaeth yn cynnwys y cymal "Bydd pob aelod o staff a ddefnyddir i ddarparu'r Rhaglen yn amodol ar gael eu cytuno a'u cymeradwyo gan Brifysgol Glyndŵr".

150 Yn ôl yr adroddiadau i'r Bwrdd Academaidd a Byrddau'r Cyfadrannau, mae canlyniadau'r ACF am foddhad y myfyrwyr yn gyffredinol uchel ac yn uwch na'r meincnod ar gyfer arferion addysgu ac asesu, ac ymdrin ag adborth. Siaradodd y myfyrwyr y cyfarfu'r tîm â nhw mewn ffordd gadarnhaol am arferion addysgu a chymhwysedd y staff. Mae adroddiadau'r arholwyr allanol yn cadarnhau manylder yr arferion asesu, safonau'r gwaith marcio ac ansawdd yr adborth i'r myfyrwyr. Ar sail y dystiolaeth, daeth y tîm i'r casgliad bod yr arbenigedd academaidd a phroffesiynol priodol gan y staff hynny sy'n ymwneud â'r gwaith o addysgu myfyrwyr, cynorthwyo eu dysgu neu asesu eu gwaith.

151 Mae tystiolaeth sy'n dangos bod y staff yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith o ddatblygu eu meysydd pwnc drwy fod yn aelodau o gymdeithasau pynciau a chyrff proffesiynol. Mae'r wybodaeth am y staff yn darparu tystiolaeth o arbenigedd academaidd a phroffesiynol aelodau'r staff a'u hymwneud â rhwydweithiau allanol sy'n gysylltiedig â chymunedau ymchwil, ymarferol, creadigol a phroffesiynol. Mae'r data'n dangos bod 53% o'r staff academaidd llawn amser yn cymryd rhan weithredol mewn cymdeithasau dysgedig a chyrff proffesiynol.

152 Mae'r Brifysgol yn defnyddio dull strategol o sicrhau bod gan ei staff wybodaeth a dealltwriaeth o'r gwaith ymchwil cyfredol a'r ysgolheictod uwch cyfredol yn eu meysydd pwnc er mwyn gwella eu haddysgu, a bod y rheiny sy'n addysgu ar raglenni ymchwil ôl-raddedig

yn cymryd rhan weithredol mewn gwaith ymchwil ac ysgolheictod uwch - mae hyn wedi ei drafod ymhellach mewn perthynas â Maen prawf 1 ar gyfer pwerau DGY.

153 Mae gan y Brifysgol Dîm Datblygu Academaidd gyda Rhwydwaith o Gymdeithion sy'n cynnal nifer o brosiectau yn ymwneud â datblygu'r dysgu a'r addysgu, y maent oll wedi eu halinio â'r Strategaeth Cynorthwyo Dysgu a Chyflawniad Myfyrwyr. Mae'r tîm craidd yn cynnwys y Deoniaid Cyswllt ar gyfer Materion Academaidd, Datblygiad Academaidd ac Ymgysylltiad Myfyrwyr, yr Arweinydd Academaidd (Profiad Myfyrwyr ac Ansawdd) dros dro yng Nghyfadran y Celfyddydau, Gwyddoniaeth a Thechnoleg, y Rheolwr Dysgu Digidol, Pennaeth Datblygu Academaidd Cyfrwng Cymraeg, a'r Dirprwy Is-Ganghellor. Mae 'Cymdeithion' y Tîm Datblygu Academaidd yn aelodau cyswllt o blith y staff academaidd sydd wedi gwirfoddoli i ymwneud â'r prosiectau, ac i weithredu fel modelau rôl i'w cydweithwyr. Dechreuodd y fenter gyda'r Fframwaith Dysgu Gweithredol a datblygodd yn dîm craidd gydag aelodau cyswllt sy'n gweithio ar brosiectau unigol mewn grwpiau fel grwpiau gorchwyl a gorffen. Mae pob grŵp yn ymwneud â maes penodol sydd o ddiddordeb arbennig i'r Brifysgol, megis mentora ac asesu. Mae'r grwpiau'n cynnwys staff o bob lefel. Yn ogystal ag ymwneud â meysydd sydd angen eu gwella, mae'r timau hefyd yn cefnogi datblygiad aelodau o'r staff ar gyfer swyddi arwain. Roedd y gyfadran o'r farn bod y grwpiau hyn yn arbennig o ddefnyddiol i ddatblygu aelodau iau o'r staff ac i annog y staff i ymgysylltu â'r gwaith ymchwil cyfredol a'r ysgolheictod uwch cyfredol yn eu meysydd pwnc. Ar adeg yr adolygiad, roedd pum aelod o'r staff academaidd yn aelodau craidd o'r Tîm Datblygu Academaidd ac roedd 27 yn aelodau cyswllt. Er enghraifft, ceir y prosiect TrACE i ddod yn brifysgol sy'n ystyriol o drawma a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, a'r prosiect CREATE i gydweithio wrth adolygu a gwella asesiadau a rhagoriaeth addysgu.

154 Mae'r dystiolaeth sydd wedi ei hadolygu yma, *ac mewn perthynas â Maen prawf 1 ar gyfer pwerau DGY*, yn cadarnhau bod gan y staff y wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r gwaith ymchwil cyfredol a'r ysgolheictod uwch cyfredol y maent eu hangen yn eu meysydd pwnc i hysbysu a gwella eu harferion addysgu, a bod pob aelod o'r staff sy'n addysgu ar raglenni ymchwil ôl-raddedig yn cymryd rhan weithredol bersonol mewn gwaith ymchwil ac ysgolheictod uwch.

155 Mae cyfleoedd datblygu a gwerthuso ar gael i'r staff sydd â'r nod o alluogi iddynt ddatblygu a gwella eu hysgolheictod a'u cymhwysedd proffesiynol. Darperir sesiwn gynefino wyneb yn wyneb i bob dechreuwr newydd sy'n rhoi trosolwg o strategaethau ymchwil y Brifysgol a'r cyfadrannau a'u gweithgareddau cysylltiedig, yn ogystal â gwybodaeth am rolau a chyfrifoldebau ymchwil y staff academaidd. Mae fideo ac adnoddau ar-lein wrthi'n cael eu datblygu i gefnogi'r broses gynefino i aelodau newydd o'r staff.

156 Elfennau canolog o'r cynllun Adolygu Datblygiad Perfformiad (ADP) yw cenhadaeth a gwerthoedd y Brifysgol. Mae'r broses yn cynnwys cyfnod o hunanystyriaeth, cyfarfod ADP, gyda rheolwr llinell yr aelod o staff fel arfer, ac o ganlyniad iddi ceir cynllun hyfforddi a datblygu. Mae'r broses ADP yn orfodol ac wedi ei bwriadu i ysgogi gwaith ymchwil, datblygu mwy o gapasiti i ymchwilio ac annog staff academaidd i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r datblygiadau cyfredol ym meysydd ymchwil ac ysgolheictod lefel uwch. Cadarnhawyd hyn i gyd gan y staff academaidd. Mae cynlluniau ymchwil personol yn rhan o'r cylch ADP sydd â'r nod o gefnogi'r staff i fyfyrio ar eu cyflawniadau ym maes ymchwil a chynllunio cyfeiriad eu gwaith ymchwil yn y dyfodol. I'w helpu i gwblhau'r cynllun, darperir arweiniad yn benodol i ymchwilwyr sydd ar gam cynnar yn eu gyrfa, sydd ar gam canolig neu sy'n ymchwilwyr profiadol.

157 Yn rhan o fodel dyrannu llwyth gwaith y Brifysgol, clustnodir 170 o oriau i bob aelod o'r staff wneud gwaith ymchwil a gweithgarwch ysgolheigaidd. Mae modd rhoi amser ychwanegol ar sail trafodaeth a chytundebau sy'n ymwneud â chynlluniau ymchwil a'u deilliannau. Dywedodd yr uwch reolwyr a'r staff academaidd fod y dyraniad llwyth gwaith o

170 o oriau ar gyfer gweithgarwch ysgolheigaidd yn rhoi cyfle iddyn nhw glywed y diweddaraf am y datblygiadau ymchwil a phroffesiynol yn eu meysydd pwnc. Gallai'r staff academaidd roi nifer o esiamplau i'r tîm o'u gweithgareddau ysgolheigaidd a sut mae'r gweithgaredd hwn yn hysbysu eu harferion addysgu'n uniongyrchol.

158 Fel y dywedwyd wrth drafod Maen prawf 1 ar gyfer pwerau DGY, sefydlwyd nifer o fforymau ar draws y sefydliad cyfan i gefnogi'r staff a rhannu canlyniadau gwaith ymchwil. Mae cronfa arian sbarduno ar gael i gefnogi prif brosiectau ymchwil i allu gwneud ceisiadau am arian grant allanol. Mae'r Brifysgol yn llofnodwr i'r Concordat Datblygu Ymchwilwyr, ac mae wedi datblygu rhaglen hyfforddi gynhwysfawr ar gyfer 2023-24 i ddatblygu ymchwilwyr. Mae hon yn agored i'w staff a'i myfyrwyr i gyd ac mae wedi ei mapio yn erbyn Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr y DU.

159 I annog pob aelod o'i staff i gymryd rhan mewn dysgu parhaus, mae gan y Brifysgol bolisi i gefnogi ei staff i ennill cymwysterau ar lefel 5 neu'n uwch a gwneud cyrsiau byr perthnasol eraill trwy ganiatáu gostyngiad rhannol yn y ffi. Mae rhaglen ddatblygu staff flynyddol ar waith a oedd, yn 2022-23, yn cynnwys elfennau megis hyfforddiant i reolwyr llinell, sesiynau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, amrywiaeth o gyrsiau byr, darlithoedd ar amrywiaeth eang o bynciau a digwyddiadau hyfforddi'r Swyddfa Ymchwil. Mae'r gynhadledd staff 'Ymgysylltu' flynyddol yn cynnwys sesiynau am ddysgu ac addysgu yn ogystal â lles cyffredinol.

160 Yn ôl y Polisi Arsylwi Addysgu gan Gymheiriaid Academaidd, dylai pob aelod o'r staff sy'n addysgu a chynorthwyo dysgu gymryd rhan mewn proses arsylwi gan gymheiriaid o leiaf unwaith ymhob blwyddyn academaidd, lle cânt eu harsylwi eu hunain ac y maent yn arsylwi eu cydweithwyr. Cadarnhaodd y rheolwyr academaidd a'r staff academaidd ei bod hi'n orfodol iddynt gael eu hadolygu gan gymheiriaid, ac, yn gyffredinol, roeddent o'r farn bod y broses hon yn brofiad cadarnhaol sy'n darparu adborth defnyddiol iddyn nhw ddatblygu eu sgiliau addysgu.

161 Mae mecanweithiau yn eu lle i sicrhau bod gan y staff brofiad priodol o ddatblygu cwricwla a dylunio asesiadau. Mae'r Brifysgol yn monitro profiad ei staff o ddatblygu cwricwla a dylunio asesiadau. Mae'r templed ar gyfer curricula vitae aelodau staff yn cynnwys cwestiwn yn ymwneud â phrofiad o ddylunio cwricwla ac asesiadau. Yn ôl y data a ddarparwyd, mae gan fwy na 70% o'r staff academaidd brofiad o ddylunio cwricwla ac asesiadau.

162 Mae'r Brifysgol yn cynnig hyfforddiant mewn trefnu a rheoli rhaglenni astudio ar ffurf modiwl o 20 credyd dan y teitl 'Arwain rhaglenni'n effeithiol'. Nod y modiwl hwn yw cefnogi datblygiad arweinwyr rhaglen a'u dealltwriaeth o'r rolau a'r cyfrifoldebau yn y broses o drefnu a rheoli rhaglen academaidd. Hyd at y flwyddyn academaidd 2021-22, roedd 42 o aelodau staff wedi cwblhau'r modiwl, ac roedd 20 o aelodau staff eraill wrthi'n ymgymryd â'r modiwl ar adeg y craffu.

163 Mae Cofrestr Ddilysu o Gadeiryddion ac Aseswyr Mewnol 2022-23 yn rhoi manylion y meini prawf ar gyfer penodi aelodau a chadeiryddion panelau asesu mewnol ar gyfer dilysu, ail-ddilysu neu gymeradwyo partneriaid, neu gymeradwyo darpariaeth rhaglenni. I gael ei benodi'n aelod o banel, mae'n rhaid i'r unigolyn fod â phrofiad o ddylunio a datblygu cwricwla a darparu rhaglenni, neu brofiad o wneud gwaith ymchwil neu ymgynghori sy'n ymwneud ag addysgu neu ddatblygu cwricwla. Mae gofyn i gadeirydd pob panel allu dangos profiad priodol o gymryd rhan mewn prosesau sicrhau ansawdd allanol a enillwyd drwy unrhyw rai o'r gweithgareddau a ganlyn: gweithio i QAA i archwilio/adolygu sefydliadau neu adolygu pynciau; cymryd rhan weithredol mewn cyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio (cyrff PSRh) (er enghraifft, fel aelod o banelau achredu neu grwpiau

cenedlaethol); cymryd rhan fel aelod allanol mewn digwyddiadau dilysu sefydliadau addysg uwch eraill; gweithio fel arholwr allanol mewn sefydliadau addysg uwch eraill.

164 Mae ymgysylltiad â gweithgareddau darparwyr addysg uwch mewn sefydliadau eraill yn cael ei gofnodi ar y templed ar gyfer curricula vitae aelodau staff, yn cynnwys profiad o weithio fel adolygwr, aseswr neu arholwr allanol. Mae'r data a ddarparwyd yn dangos bod gan 71 (36%) o'r staff academaidd brofiad o weithio fel adolygwr, aseswr neu arholwr allanol. O'r rhain, mae 40 o aelodau staff wedi gweithio fel arholwyr allanol.

Maen prawf Ch: Yr amgylchedd sy'n ategu'r gwaith o gyflwyno rhaglenni addysg uwch a addysgir

Maen prawf Ch1

165 Dyma ddywed y maen prawf hwn:

> *Mae seilwaith addysgu a dysgu sefydliad a gaiff bwerau i ddyfarnu graddau a addysgir, gan gynnwys ei drefniadau ar gyfer darparu cymorth i fyfyrwyr a chymorth gweinyddol, yn effeithiol ac yn cael ei fonitro.*

166 Strategaeth Cynorthwyo Dysgu a Chyflawniad Myfyrwyr 2020-2025 (Strategaeth CDChM) a'i gynllun gweithredu atodol yw'r prif gyfrwng ar gyfer datblygu gweithgareddau dysgu ac addysgu effeithiol oherwydd mae'n nodi'r bwriadau a'r amcanion, a chynllun gweithredu mewn perthynas â dulliau dysgu ac addysgu'r Brifysgol a chynnwys y cwricwlwm. Mae'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd yn disgrifio'r prosesau a'r gweithdrefnau sydd ar waith ar lefelau'r rhaglenni a'r sefydliad ar gyfer monitro ac adolygu effeithiolrwydd y dysgu a'r addysgu mewn perthynas â'r amcanion dysgu a nodwyd a'r deilliannau dysgu a fwriedir.

167 Mae cynllun gweithredu atodol y Strategaeth CDChM, a gymeradwywyd gan y Bwrdd Academaidd, yn cael ei fonitro gan y Pwyllgor ADA, ac mae'n eitem sefydlog ar agenda pob un o'i gyfarfodydd. Wrth arsylwi'r Pwyllgor ADA a chraffu ar gofnodion ei gyfarfodydd a phapurau cysylltiedig, gwelodd y tîm dystiolaeth sy'n dangos bod aelodau'r pwyllgor hwn yn rhoi sylw yn eu gwaith i'r egwyddorion sydd wedi eu hamlinellu yn y Strategaeth CDChM, a bod y Brifysgol yn monitro ei gweithrediad ac yn sicrhau bod y trefniadau a'r targedau'n briodol, gan nodi'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae'r adroddiad terfynol am gynllun gweithredu atodol y Strategaeth CDChM ar gyfer 2023-24, a gyflwynwyd i'r Bwrdd Academaidd, yn nodi bod y Brifysgol yn bwriadu llunio strategaeth dysgu ac addysgu newydd, a bod gweithdai cysylltiedig i staff wedi eu cynllunio a'u bod ar fin cychwyn.

168 Yn ogystal â derbyn cynllun gweithredu atodol y Strategaeth CDChM a chofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor ADA, mae'r Bwrdd Academaidd yn monitro effeithiolrwydd y dysgu a'r addysgu drwy dderbyn adroddiadau data am gofrestriad, cadwraeth a chynnydd y myfyrwyr, adroddiadau trosolwg am gwynion ac apeliadau gan fyfyrwyr, ac adroddiadau trosolwg arholwyr allanol. Hefyd, mae'r Bwrdd Llywodraethwyr yn cadw llygad ar ystod o ddangosyddion perfformiad allweddol dros y flwyddyn, gan gynnwys profiad y myfyrwyr, dadansoddiad mewnol o ganlyniadau'r ACF a chyflogadwyedd (data am ddeilliannau'r graddedigion), er mwyn adolygu perfformiad y Brifysgol mewn cyd-destun cenedlaethol.

169 Mae fforymau 'Llais y Myfyrwyr' yn rhoi cyfle i'r myfyrwyr, gan gynnwys y rheiny sy'n astudio mewn sefydliadau partner, gynnal trafodaethau dwyochrog gyda staff y Brifysgol am ansawdd y dysgu a'r addysgu ar eu rhaglenni. Mae gan y Brifysgol Ddeoniaid Cyswllt penodol ar gyfer ymgysylltiad myfyrwyr, ac mae adroddiadau 'Llais y Myfyrwyr' yn cael eu trafod yng nghyfarfodydd y Pwyllgor ADA a'r Bwrdd Academaidd. Mae'r Bwrdd Llywodraethwyr yn gweld yr adroddiadau am faterion 'Llais y Myfyrwyr' drwy adroddiadau Llywydd Undeb y Myfyrwyr a'r adroddiad blynyddol am gwynion y myfyrwyr.

170 I fonitro effeithiolrwydd y dysgu a'r addysgu o ran galluogi i'r myfyrwyr ddangos y deilliannau dysgu a fwriedir, cyflwynwyd y broses 'Monitro a Gwella Rhaglenni'n Barhaus' (y broses MGRhB) ar lefel y rhaglenni, yn lle'r broses flaenorol o fonitro rhaglenni'n flynyddol, o flwyddyn academaidd 2022-23 ymlaen. Ei nod yw meithrin diwylliant o adolygu a hunanwerthuso parhaus sy'n galluogi i dimau'r rhaglenni ymateb i adborth mewnol ac allanol yn brydlon a rhoi gweithgareddau gwella ar waith. Mae cynlluniau gweithredu 'byw' y broses

MGRhB yn cael eu hadolygu a'u monitro'n rheolaidd yn ystod cyfarfodydd misol timau'r rhaglenni. Mae unrhyw broblemau neu unrhyw arferion da sy'n haeddu sylw drwy'r gyfadran gyfan yn cael eu hadrodd i Fyrddau Astudiaethau'r Cyfadrannau i gael eu trafod a'u rhannu. Rhan allweddol o'r broses yw'r defnydd a wneir o ddata am brofiadau a deilliannau dysgu'r myfyrwyr. Mae rhaglenni a myfyrwyr y partneriaid hefyd wedi eu hintegreiddio'n llawn i mewn i'r broses hon. Mae pob un o adroddiadau'r rhaglenni'n cael eu harchwilio mewn cyfarfodydd adolygu ar lefel y meysydd astudio, ac mae adroddiadau trosolwg yn cael eu hystyried yng nghyfarfodydd Byrddau Astudiaethau'r Cyfadrannau, Is-bwyllgor Rhaglenni Academaidd, y Pwyllgor ADA a'r Bwrdd Academaidd. Ar sail y dystiolaeth, daeth y tîm i'r casgliad bod systemau cadarn ac effeithiol ar waith i fonitro'r gweithgareddau dysgu ac addysgu.

171 Canfu'r tîm fod y myfyrwyr yn cael gwybod am ganlyniadau eu hasesiadau mewn da bryd. Mae arweinwyr y modiwlau'n gyfrifol am fonitro'r broses o roi adborth ar waith a aseswyd mewn da bryd. Mae briffiau'r aseiniadau a llawlyfrau'r myfyrwyr yn rhoi manylion y meini prawf marcio sy'n berthnasol i'r myfyrwyr, dyddiad yr adborth a ffurf yr adborth. Yn ôl y rheoliadau asesu ac arholi, dylid rhoi canlyniadau heb eu cadarnhau i'r myfyrwyr gynted ag y bo modd, fel arfer cyn pen tair wythnos ar ôl i'r gwaith gael ei gyflwyno. Os bydd digwyddiadau annisgwyl yn codi sy'n golygu nad yw'r canlyniadau'n dod o fewn yr amser hwnnw, rhoddir gwybod i'r myfyrwyr ar ba ddyddiad y maen nhw'n debygol o dderbyn yr adborth hwnnw. Nes bydd y marciau wedi eu cymeradwyo'n ffurfiol gan Fwrdd Arholi, rhoddir marciau dros dro yn unig.

172 Bu'r tîm yn adolygu sampl o waith myfyrwyr a aseswyd yn ystod 2021-22 o blith rhaglenni israddedig a rhaglenni ôl-raddedig a addysgir fel ei gilydd, ac maen nhw'n dangos yn glir beth oedd y dyddiad derbyn ac ar ba ddyddiad y derbyniodd y myfyrwyr yr adborth, gan gadarnhau bod y gofynion amser wedi eu bodloni. Yn y sampl hwn, gwelwyd tystiolaeth i ddangos bod y broses farcio'n brydlon a bod yr adborth a roddwyd am berfformiad y myfyrwyr yn gyffredinol adeiladol a datblygiadol, ond nad oedd ansawdd yr adborth ysgrifenedig yn gyson ar draws y rhaglenni i gyd a adolygwyd. Yn arbennig, nododd y tîm ddefnydd gwael o'r Saesneg ar brydiau mewn rhai esiamplau o'r adborth a roddwyd i'r myfyrwyr. Yn ogystal, nid oedd yr adborth yn dangos yn glir bob amser sut y sicrhawyd y marciau.

173 Mae adroddiadau'r arholwyr allanol yn rhoi sylwadau cadarnhaol am ansawdd yr arferion asesu a'u heffeithiolrwydd o ran galluogi i'r myfyrwyr wybod a yw'r deilliannau dysgu wedi eu cyflawni ac ymhle mae cyfleoedd i sicrhau gwelliant. Cadarnhaodd y myfyrwyr fod cyfleoedd ar gael iddyn nhw i siarad â'r staff, yn ogystal â derbyn adborth ysgrifenedig, a'u bod yn derbyn adborth ffurfiannol drwy 'gymorthfeydd traethodau'. Hefyd, cafwyd sylwadau cadarnhaol gan y myfyrwyr am yr adborth fideo oedd yn cael ei ddarparu ar y rhaglenni Troseddeg am ei fod wedi eu helpu i ymgysylltu â'r adborth. Mae adroddiadau mewnol y Brifysgol am ganlyniadau'r ACF a gynhaliwyd yn 2021 a 2022 yn dangos lefelau hynod o uchel o foddhad gydag ansawdd a phrydlondeb yr adborth a roddwyd am y gwaith a aseswyd.

174 Mae'r Brifysgol yn nodi bod cyfranogaeth ei myfyrwyr fel partneriaid yn elfen sylfaenol o'i hethos, ac un o flaenoriaethau Gweledigaeth a Strategaeth y Brifysgol a'r Strategaeth CDChM yw gweithio gyda myfyrwyr. Mae'r Polisi a Fframwaith Cyfranogaeth Myfyrwyr mewn Prosesau Sicrhau a Gwella Ansawdd, a'r Canllaw i Fyfyrwyr ar sut i Gyfranogi mewn Prosesau Sicrhau a Gwella Ansawdd, oll yn amlinellu'r mecanweithiau ar gyfer ymgysylltu â'r myfyrwyr, casglu adborth ganddynt a rhoi adborth yn ôl iddynt. Mae'r mecanweithiau ar gyfer ymgysylltu â'r myfyrwyr a chasglu adborth ganddynt yn cynnwys amrywiaeth o gyfleoedd i'r myfyrwyr gymryd rhan mewn arolygon ar lefel y modiwlau a'r rhaglenni, yn fforymau llais y myfyrwyr, systemau cynrychioli'r rhaglenni a chynrychiolaeth y myfyrwyr ar bwyllgorau'r Brifysgol, yn ogystal â chymryd rhan mewn panelau dilysu, grwpiau tasg pwrpasol ac arolygon cenedlaethol.

175 Cadarnhaodd y myfyrwyr eu bod yn cael eu hannog i drafod eu barn unrhyw bryd gyda thiwtoriaid modiwlau eu rhaglenni. Gallant fynegi eu barn hefyd drwy gynrychiolwyr y myfyrwyr neu drwy gyfarfodydd Fforymau Llais y Myfyrwyr. Cadarnhaodd y myfyrwyr hefyd fod arolygon 'Gwerthuso Modiwlau gan Fyfyrwyr' ar-lein a gynhelir yn ystod wythnosau cyntaf pob modiwl ac ar ddiwedd pob modiwl yn rhoi cyfleoedd iddyn nhw roi adborth yn ddienw ar fodiwlau mewn perthynas â materion academaidd megis addysgu, cymorth dysgu, asesu ac adnoddau.

176 Mae tystiolaeth sy'n dangos bod y Brifysgol yn gwrando ar adborth y myfyrwyr ac yn ei werthuso ar lefelau'r rhaglenni a'r sefydliad. Er enghraifft, mae adroddiadau blynyddol y broses MGRhB a'r cynlluniau gweithredu cysylltiedig yn dangos bod adborth gan y myfyrwyr wedi derbyn sylw, gan ddefnyddio data ansoddol o arolygon 'Gwerthuso Modiwlau gan Fyfyrwyr', Fforymau Llais y Myfyrwyr, canlyniadau'r ACF (lle maent ar gael), a chynlluniau gweithredu sy'n gysylltiedig â'r ACF (lle bo'n berthnasol).

177 Mae llywydd Undeb y Myfyrwyr yn aelod o'r Bwrdd Llywodraethwyr, ac mae cynrychiolwyr y myfyrwyr yn eistedd ar y Bwrdd Academaidd, y Pwyllgor ADA, y Pwyllgor Partneriaethau Academaidd, y Pwyllgor Ymchwil, y Grŵp Mynediad ac Ymgysylltiad Dysgwyr, a Byrddau Astudiaethau'r Cyfadrannau. Trwy arsylwi cyfarfodydd y pwyllgorau a chraffu ar eu cofnodion, gallai'r tîm gadarnhau bod myfyrwyr yn bresennol ac yn cymryd rhan yn eu cyfarfodydd. Mae eitemau sefydlog ar agendâu'r cyfarfodydd sy'n cynnwys adroddiadau a diweddariadau gan gynrychiolwyr y myfyrwyr. Mae adroddiadau 'Llais y Myfyrwyr' blynyddol yn cael eu trafod yng nghyfarfodydd y Bwrdd Academaidd a'r Bwrdd Llywodraethwyr, yn rhan o adroddiadau Undeb y Myfyrwyr a'r adroddiad blynyddol am gwynion y myfyrwyr. Wrth arsylwi cyfarfod Bwrdd Astudiaethau un o'r Cyfadrannau, gwelwyd tystiolaeth i ddangos ffordd ymatebol o ystyried materion a godwyd gan y myfyrwyr, ac o wneud penderfyniadau i ddatrys problemau.

178 Mae'r Brifysgol yn monitro ac yn gwerthuso canlyniadau'r ACF yn ofalus. Lle mae'r cyfraddau boddhad wedi mynd yn is na'r disgwyl, mae timau'r rhaglenni'n datblygu cynllun gweithredu mewn ymateb i ganlyniadau'r ACF. Ar sail canlyniadau'r ACF yn 2023, canfuwyd bod tri maes astudio wedi disgyn yn is na'r meincnod, sef y rhaglenni BS mewn Cyfrifiadureg, y rhaglen BA mewn Astudiaethau Dylunio, a'r rhaglen BA (Anrh) 'Gweithio gyda Phlant a Theuluoedd'. Mewn ymateb i ganlyniadau'r ACF, mae cynlluniau gweithredu wrthi'n cael eu llunio mewn cydweithrediad â'r Deon Cyswllt (Profiad y Myfyrwyr), Deon Cyswllt (Materion Academaidd), ac arweinwyr a thimau'r rhaglenni, ac maen nhw'n cael eu rhannu gyda'r Deon. Ymgynghorir ag Undeb y Myfyrwyr ar y camau gweithredu o fewn y cynllun a gwneir addasiadau ar sail adborth ac awgrymiadau gan y myfyrwyr. Mae'r cynllun gweithredu'n cael ei fonitro drwy gydol y flwyddyn yng nghyfarfodydd timau'r rhaglenni, cyfarfodydd timau rheoli'r cyfadrannau a Byrddau Astudiaethau'r Cyfadrannau. Wedi iddyn nhw gael eu hadolygu yng nghyfarfod y Pwyllgor ADA ym misoedd Hydref a Thachwedd 2023, cyflwynwyd y cynlluniau gweithredu hyn i'r Bwrdd Academaidd.

179 Un o'r blaenoriaethau allweddol i Undeb y Myfyrwyr yn ystod blwyddyn academaidd 2021-22 oedd cryfhau'r ymgysylltiad â'r myfyrwyr mewn sefydliadau partner. Mae Adroddiad am Effeithiau 2020-21 gan Undeb y Myfyrwyr yn cadarnhau bod nifer y cynrychiolwyr cwrs wedi cynyddu yn y sefydliadau partner, a bod mwy o adborth wedi ei gasglu. Cyflwynwyd swydd newydd i Undeb y Myfyrwyr, sef y Swyddog Myfyrwyr mewn Partneriaid. Ers 2021-22, mae'r Is-lywydd Undeb y Myfyrwyr a'i Gydlynydd Llais y Myfyrwyr yn eistedd ar y Pwyllgor Partneriaethau Academaidd.

180 Mae nifer o ffyrdd y cesglir adborth gan gyflogwyr. Mae dull strategol o ddatblygu rhaglenni newydd yn gofyn deialog â chyrff proffesiynol, yn ogystal â chyflogwyr lleol. Mae cyflogwyr yn eistedd ar banelau dilysu. Dull effeithiol o gasglu adborth gan gyflogwyr ac ymgysylltu mewn deialog â nhw yw sefydlu grwpiau cyswllt yn ffurfiol sy'n cynnwys

cyflogwyr. Mae Strategaeth Cydweithio ac Ymgysylltu â Chyflogwyr ar gyfer Prentisiaethau Gradd sydd â'r nod o sicrhau bod y cyflogwyr yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu rhaglenni prentisiaeth, ac mae cyfarfodydd tairochrog ar gyfer adolygu'r cynnydd rhwng y myfyriwr, y cyflogwr a'r Brifysgol yn darparu cyfleoedd i drafod a rhoi adborth. Ar sail y dystiolaeth, daeth y tîm i'r casgliad bod y Brifysgol yn ymgysylltu'n rhagweithiol â rhanddeiliaid ac yn gweithredu prosesau effeithiol o gasglu adborth, a bod yr adborth yn cael ei werthuso a'i ddefnyddio mewn prosesau gwella.

181 Mae'r myfyrwyr yn cael eu hymsefydlu yn eu rhaglenni astudio drwy weithgareddau'r Wythnos Groesawu sy'n cynnwys digwyddiadau i 'dorri'r ia', cyfleoedd i gwrdd â staff y rhaglenni, cyflwyniad i Undeb y Myfyrwyr, a digwyddiadau penodol yn ymwneud â rhaglenni unigol, ac maen nhw'n derbyn llawlyfr eu rhaglen a gwybodaeth arall amdani. Hefyd, mae'r myfyrwyr yn gwneud modiwl cynefino ar-lein â chredydau sydd â'r nod o'u galluogi i ddod yn gyfarwydd â'r amrywiaeth o wasanaethau cymorth sydd ar gael iddyn nhw, deall y disgwyliadau o ran astudio ar lefel addysg uwch, a chanfod eu cryfderau a'r meysydd y mae angen iddyn nhw eu datblygu.

182 Cadarnhaodd y myfyrwyr eu bod yn hapus gyda'r sesiynau cynefino a ddarparwyd iddynt, ac roeddent yn gallu rhoi esiamplau o sesiynau cynefino oedd yn briodol i'w hanghenion astudio unigol. Esboniodd cynrychiolwyr Undeb y Myfyrwyr eu bod yn estyn allan yn weithredol i'r myfyrwyr hynny sy'n astudio ar-lein yn ystod yr wythnos gynefino drwy fideos a chynrychiolwyr cyswllt y sefydliadau partner i sicrhau eu bod hwy'n ymwybodol o'r gwasanaethau y mae Undeb y Myfyrwyr yn eu cynnig iddyn nhw.

183 Cesglir adborth ar sesiynau cynefino drwy Fforymau Llais y Myfyrwyr er mwyn sicrhau bod y broses yn gweithio'n effeithiol, ac mae'r broses gynefino'n eitem sefydlog ar agenda pob un o'u cyfarfodydd. Trwy arsylwi cyfarfodydd Byrddau Astudiaethau'r Cyfadrannau a chraffu ar y papurau cysylltiedig, gallai'r tîm gadarnhau yr adroddir ar weithgareddau cynefino a chânt eu gwerthuso drwy ddata am adborth a phresenoldeb y myfyrwyr. Ar sail y dystiolaeth sydd ar gael iddyn nhw, daeth y tîm i'r casgliad bod y myfyrwyr yn cael eu hymsefydlu'n effeithiol yn eu rhaglenni astudio, gan roi ystyriaeth i'w gwahanol anghenion, a bod y gweithgareddau cynefino'n cael eu gwerthuso i sicrhau eu bod yn parhau'n effeithiol.

184 Mae'r Brifysgol yn cymryd camau i sicrhau bod ei hamgylchedd dysgu a'i deunyddiau cymorth dysgu'n ddigonol i gynorthwyo ei phoblogaeth amrywiol o fyfyrwyr i berfformio'n dda ar eu rhaglenni astudio. Gweithredwyd y Fframwaith Dysgu Gweithredol yn 2020 yng nghyd-destun yr hyn a ddysgwyd o gyfnod y pandemig COVID-19. Mae'r llawlyfr cysylltiedig i staff yn esbonio ei fod wedi ei seilio ar werthoedd y Brifysgol - bod yn hygyrch, cefnogol, arloesol ac uchelgeisiol - a'i nod yw cefnogi dysgu hyblyg drwy wneud y defnydd gorau o'r gofodau astudio sydd ar gael ar y campws ynghyd â chyfleoedd dysgu drwy gyfrwng digidol sydd wedi eu llunio i gael eu hasesu'n briodol ac yn gynhwysol gan unrhyw un sydd angen gwneud hynny, yn cynnwys y rheiny sydd ag anghenion dysgu penodol. Mae'r Strategaeth Ystadau ac Amgylchedd Dysgu 'Campws 2025' hefyd yn adlewyrchu'r amcanion hyn.

185 Mae gan y Brifysgol wasanaethau sefydledig ar gyfer cynghori, cwnsela a chefnogi ei myfyrwyr. Yn weithredol, mae'r Gyfarwyddiaeth Bywyd Myfyrwyr a Bywyd ar y Campws, o dan oruchwyliaeth y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau, yn gyfrifol am ddarparu'r gwasanaethau cymorth myfyrwyr. Yn ystod y modiwl 'Yn barod i'ch astudiaethau ym Mhrifysgol Glyndŵr Wrecsam' a gynhelir yn ystod yr wythnos gynefino, a gweithgareddau cynefino eraill (fel sydd wedi ei nodi uchod), mae'r myfyrwyr yn cael cyflwyniad i'r cyngor a'r gefnogaeth sydd ar gael i fyfyrwyr ag anableddau, y gwasanaethau iechyd a lles, y gwasanaethau gyrfaoedd a chyflogadwyedd, y ffioedd a'r cymorth ariannol sydd ar gael, a'r gwasanaethau llety.

186 Mae'r Gwasanaethau Cynhwysiant yn darparu ystod gynhwysfawr o wasanaethau cymorth i fyfyrwyr ag anableddau, sy'n cynnwys cynnal ymweliadau cyn ymgeisio, asesu cymhwysedd myfyrwyr i gael Lwfans Myfyrwyr Anabl, rhoi cymorth arbenigol a llunio trefnau addasu unigol. Cymeradwyir cynlluniau dysgu unigol drwy Banelau Amgylchiadau Esgusodol i sicrhau cysondeb a chydraddoldeb i'r myfyrwyr hynny sydd â chyflyrau hirdymor sy'n effeithio ar eu gallu i astudio.

187 Mae gwerthuso a monitro'r gwasanaethau hyn yn rhan allweddol o nifer o'r strategaethau sydd wedi eu datblygu i hybu darpariaeth gwasanaethau cynghori a chwnsela myfyrwyr, ac i hysbysu'r gwaith o gynllunio a dyrannu adnoddau. Mae'r strategaethau hyn yn cynnwys, er enghraifft, y Strategaeth Ymgysylltiad a Chadwraeth Dysgwyr, Strategaeth Ehangu Mynediad a Chyfranogaeth, Strategaeth Cyflogadwyedd, y Strategaeth Iechyd Meddwl a Lles, a'r Strategaeth CDChM. Mae'r strategaethau'n cael eu monitro, ac mae unrhyw anghenion am adnoddau'n cael eu canfod drwy'r strwythur pwyllgorau sy'n defnyddio adborth gan y myfyrwyr a'r staff, ac yn goruchwylio gweithrediad strategaethau a chynlluniau gweithredu perthnasol. Er enghraifft, mae papurau'r Pwyllgor ADA yn dangos y gwaith o fonitro'r Strategaeth CDChM a'r Strategaeth Cyflogadwyedd, yn ogystal â'r gwaith rheolaidd o adolygu'r Fframwaith Tiwtoriaid Personol, er enghraifft, a luniwyd i roi rhai o'r egwyddorion cefnogaeth ac arweiniad ar waith sydd wedi eu hymwreiddio yn y strategaethau, yn cynnwys, er enghraifft, ar gyfer cyflogadwyedd ac iechyd meddwl y myfyrwyr. Mae'r gwahanol wasanaethau'n cynhyrchu eu hadroddiadau monitro eu hunain am effeithiolrwydd eu meysydd sy'n cael eu hystyried drwy'r strwythur pwyllgorau. Gwelwyd tystiolaeth o hyn, er enghraifft, wrth arsylwi cyfarfod y Pwyllgor Mynediad ac Ymgysylltiad Dysgwyr a chraffu ar y papurau cysylltiedig, lle derbyniwyd adroddiadau'r gwasanaethau cynhwysiant a'r gwasanaethau cymorth myfyrwyr ('Bywyd Myfyrwyr' a 'Bywyd ar y Campws') sydd wedi rhoi manylion y gweithgareddau ac wedi dadansoddi'r defnydd a wnaed ohonynt gan y myfyrwyr, a gwelwyd hefyd fod y gwasanaethau iechyd meddwl a chynhwysiant wedi derbyn ystyriaeth weithredol yn ystod y cyfarfod, gan bennu camau gweithredu i wella'r gwasanaethau. Daeth y tîm i'r casgliad bod y gwasanaethau cynghori a chwnsela myfyrwyr yn cael eu monitro'n effeithiol, a bod unrhyw anghenion am adnoddau'n cael eu hystyried yn effeithiol.

188 Mae anghenion datblygiad y staff sy'n cefnogi'r ddarpariaeth addysg uwch yn cael eu monitro a'u gwerthuso drwy'r broses ADP. Cefnogir pob aelod o'r staff i ennill statws Cymrawd Advance HE. Mae'r Tîm Datblygu Academaidd a'i Rwydwaith o Gymdeithion, sy'n cynnwys staff y gwasanaethau proffesiynol, yn gweithredu nifer o brosiectau yn ymwneud â datblygiad addysgol ar draws y Brifysgol i gefnogi'r Strategaeth Cynorthwyo Dysgu a Chyflawniad Myfyrwyr a'r Fframwaith Dysgu Gweithredol. Mae'r staff cymorth yn gymwys i wneud cais am gymorth ariannol i fynd i gynadleddau/digwyddiadau ac ennill cymwysterau, yn cynnwys graddau doethuriaeth. Cadarnhaodd y staff cymorth proffesiynol fod cyfleoedd datblygiad proffesiynol ar gael iddynt. Ar sail y dystiolaeth, daeth y tîm i'r casgliad bod digon o gyfleoedd datblygiad proffesiynol priodol ar gael i'r aelodau hynny o'r staff sy'n ymwneud â chefnogi cyflenwad y ddarpariaeth.

189 Mae systemau cymorth gweinyddol y Brifysgol yn cynhyrchu amrywiaeth o ddata sy'n cael ei ddefnyddio wrth fonitro cynnydd a pherfformiad y myfyrwyr. Gwelwyd tystiolaeth o hyn, er enghraifft, wrth arsylwi cyfarfodydd y Bwrdd Academaidd a chraffu ar y papurau cysylltiedig, lle cafodd adroddiadau am gofrestriad a chadwraeth myfyrwyr, ac am fylchau yng nghyrhaeddiad a chyfraddau cwblhau'r myfyrwyr, eu derbyn a'u trafod. Mae cofnodion y cyfarfodydd yn dangos y camau gweithredu a gymerwyd mewn ymateb i'r dadansoddiad data. Yn yr un cyfarfodydd, roedd hi'n amlwg bod data a gynhyrchir yn ganolog am faterion yn ymwneud â myfyrwyr yn cael ei ddefnyddio wrth dderbyn adroddiadau am gwynion ac apeliadau a gafwyd gan fyfyrwyr ac achosion o gamymddwyn academaidd, ac wrth ddadansoddi adroddiadau arholwyr allanol.

190 Wrth arsylwi cyfarfodydd y Pwyllgor ADA a chraffu ar eu papurau, gwelwyd bod y pwyllgor wedi derbyn diweddariadau gan y Gwasanaeth Cynhwysiant oedd yn cynnwys dadansoddiad ystadegol manwl o achosion myfyrwyr a thueddiadau cysylltu a ddefnyddiwyd i gynllunio cymorth ac ymyriadau i fyfyrwyr. Wrth arsylwi cyfarfodydd y Bwrdd Llywodraethwyr a chraffu ar eu papurau, gwelwyd tystiolaeth i ddangos bod data am gofrestriad, cynnydd a chyrhaeddiad y myfyrwyr wedi ei ystyried yn rheolaidd. Wrth arsylwi cyfarfodydd byrddau'r modiwlau a'r byrddau dyfarnu, gwelwyd bod data am ddeilliannau dysgu'r myfyrwyr wedi ei ddarparu i alluogi gwneud penderfyniadau am gynnydd a chyflawniad y myfyrwyr, ac mae hyn yn dangos bod systemau gweinyddol y Brifysgol yn hwyluso'r gwaith o fonitro data ynghylch cynnydd a pherfformiad y myfyrwyr. Gwelodd y tîm dystiolaeth o'r defnydd a wneir o ddata i wella ansawdd yng nghyfarfod y Pwyllgor Mynediad ac Ymgysylltiad Dysgwyr lle cyflwynwyd diweddariadau am gynlluniau gweithredu'r cyfadrannau ar gyfer cadw myfyrwyr, ar sail y dadansoddiad a wnaed ar lefel y rhaglenni o ddata am gynnydd y myfyrwyr.

191 Yn ystod y cyfnod craffu, mae'r Brifysgol wedi cryfhau'r broses o adrodd ar gyfresi data allweddol am lwyddiant y myfyrwyr er mwyn hwyluso goruchwyliaeth fwy effeithiol ar lefel y sefydliad. Defnyddir matrics ar gyfer adrodd ar gyfresi data i bwyllgorau er mwyn sbarduno a thywys gwaith dadansoddi a thrafod y pwyllgorau. Hefyd, cynigwyd cyflwyno adroddiadau newydd am gynnydd y myfyrwyr i'r Pwyllgor ADA, y Bwrdd Academaidd a'r Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd, yn ogystal ag adroddiadau newydd sy'n dadansoddi bylchau yng nghyrhaeddiad a chyfraddau cwblhau'r myfyrwyr ar gyfer y broses MGRhB. Ond, nid oedd yr adroddiadau hyn wedi eu cyflwyno eto pan ddaeth y cyfnod craffu i ben. Caiff y matrics ei adolygu o leiaf unwaith y flwyddyn yn rhan o'r broses flynyddol o adolygu Llawlyfr y Bwrdd Academaidd. Daeth y tîm i'r casgliad bod y systemau cymorth gweinyddol yn gallu monitro data ynghylch cynnydd a pherfformiad y myfyrwyr, ac yn gallu darparu gwybodaeth amserol er mwyn ateb anghenion y rheolwyr am wybodaeth. Mae'n debyg y bydd matrics newydd o adroddiadau am gyfresi data, ac adroddiadau newydd arfaethedig, yn cryfhau'r oruchwyliaeth sefydliadol.

192 Gwelodd y tîm dystiolaeth i ddangos bod gweithdrefnau'r Brifysgol ar gyfer cwynion ac apeliadau academaidd gan fyfyrwyr yn hygyrch i'r myfyrwyr a'u bod yn eu defnyddio. Mae'r gweithdrefnau'n cael eu hesbonio i'r myfyrwyr mewn sesiynau cynefino a chanllawiau i fyfyrwyr. Mae gan y Brifysgol Drefn Gwyno ar gyfer Myfyrwyr sy'n cael ei goruchwylio gan y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddu Myfyrwyr. Anogir y myfyrwyr i leisio pryderon, a hynny i ddechrau drwy systemau adborth y cyfadrannau, megis system gynrychiolaeth y myfyrwyr. Yn ei gyfarfodydd gyda'r myfyrwyr a'u cynrychiolwyr, clywodd y tîm am nifer o esiamplau lle gwnaed newidiadau o ganlyniad uniongyrchol i adborth a gasglwyd gan y myfyrwyr yn bennaf drwy'r platfform llais myfyrwyr 'Unitu'. Yn ystod y cyfarfod, roedd myfyrwyr yn dangos eu bod yn deall y prosesau cwyno ffurfiol, ac roeddent yn llawn canmoliaeth am y gefnogaeth y mae Undeb y Myfyrwyr yn ei chynnig iddyn nhw yn y cyswllt hwn. Ar gyfer y cwynion a gafodd eu datrys ar y cam ffurfiol neu'r cam adolygu, mae Deon neu Bennaeth Gweithrediadau'r Gyfadran, fel y bo'n briodol, yn gyfrifol am fonitro i weld a yw unrhyw gamau gweithredu a gymerir mewn ymateb i gwynion yn derbyn sylw llawn mewn da bryd. Mae Deon y Gyfadran a Deon Cyswllt/Pennaeth Gweithrediadau'r Gyfadran yn datblygu cynllun gweithredu er mwyn sicrhau fod unrhyw argymhellion a wneir yn cael eu dyrannu i aelodau penodol o'r staff i gael eu gweithredu ac y gosodir dyddiadau cwblhau ar gyfer eu rhoi ar waith. Bu'r tîm yn craffu ar esiampl o gŵyn a roddwyd gan y Brifysgol oedd yn dangos bod y mater wedi ei drin yn unol â'r drefn gyhoeddedig.

193 Mae'r Drefn Apeliadau Academaidd yn gadael i fyfyrwyr apelio yn erbyn penderfyniad Bwrdd Dyfarnu/Dilyniant os oes ganddynt "bryderon bod eu cynnydd neu statws academaidd wedi cael ei effeithio'n niweidiol gan benderfyniad/canlyniad y Bwrdd Dyfarnu/Dilyniant hwnnw". Dywedwyd wrth y tîm fod negeseuon e-bost yn cael eu hanfon at

bob myfyriwr, wrth iddynt ddynesu at ddyddiadau cwblhau eu hasesiadau neu ddyddiadau eu harholiadau, sy'n rhoi gwybodaeth ynglŷn â sut i gyflwyno apêl academaidd, gyda dolen at gyngor gan Undeb y Myfyrwyr. Mae'n rhaid cyflwyno apeliadau academaidd o fewn 10 diwrnod gwaith i gyhoeddi'r canlyniadau. Yn dilyn eu cyflwyniad, rhoddir gwybod i'r myfyrwyr a yw eu hapêl wedi cael ei wrthod neu a yw eu cais wedi ateb y meini prawf angenrheidiol, gan symud felly i gam ffurfiol y broses. Ar y cam ffurfiol, ymchwilir yr apêl academaidd gan Swyddog Ymchwilio a benodir gan y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddu Myfyrwyr. Cyfathrebir canlyniad yr ymchwiliad i'r myfyriwr. Mae Canllaw i Fyfyrwyr y Brifysgol yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â sut i gyflwyno apêl academaidd, ac roedd y myfyrwyr y cyfarfu'r tîm â nhw'n ymwybodol o'r prosesau hyn. Bu'r tîm yn craffu ar esiampl o apêl academaidd un o'r myfyrwyr oedd yn dangos bod y mater wedi ei drin yn unol â'r drefn gyhoeddedig.

194 Mae adroddiad blynyddol am gwynion ac apeliadau a gafwyd gan fyfyrwyr yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor ADA sy'n darparu dadansoddiad cymharol dros nifer o flynyddoedd, fesul cyfadran, maes astudio, lefel academaidd, sefydliad, cam yn y broses ddatrys, a chanlyniadau, ac sy'n cynnwys sylwadau ac argymhellion, gyda'r nod o wella gweithdrefnau ac ansawdd. Mewn ymateb i'r argymhelliad a wnaed yn yr adroddiad i CCAUC am yr Ymchwiliad i Bryderon sef bod y Brifysgol yn sicrhau bod ei threfniadau monitro a goruchwylio ar gyfer cwynion ac apeliadau academaidd wedi eu gweithredu'n llawn er mwyn gwella ansawdd, mae'r Brifysgol wedi cyflwyno, o fis Mawrth 2023 ymlaen, adroddiadau rheolaidd am ei threfnau apelio a chwyno sy'n derbyn ystyriaeth yng nghyfarfodydd y Pwyllgor ADA yn ystod y flwyddyn. Gwelodd y tîm dystiolaeth bod hyn yn digwydd yn eu harsylwadau ac ym mhapurau cysylltiedig cyfarfodydd y Pwyllgor ADA a gynhaliwyd ym misoedd Gorffennaf a Hydref. Daeth y tîm i'r casgliad bod gan y Brifysgol fecanweithiau effeithiol ar gyfer ymdrin ag apeliadau academaidd a chwynion am faterion anacademaidd ac ymateb iddynt.

195 Mae trefniadau yn eu lle i sicrhau bod y wybodaeth y mae'r Brifysgol yn ei chynhyrchu am ei darpariaeth yn gywir ac yn gyflawn. Mae'r wybodaeth y mae adran farchnata'r Brifysgol yn ei chynhyrchu i hyrwyddo'r Brifysgol a'i darpariaeth addysg uwch yn mynd drwy brosesau gwirio er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn gywir ac yn cyfateb â nifer o reoliadau, sy'n cynnwys canllawiau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, Safonau'r Gymraeg a'r rheoliadau am hygyrchedd gwefannau cyrff y sector cyhoeddus. Mae'r holl gynnwys yn cael ei reoli a'i wirio gan yr adran Cyfathrebu, Marchnata, Recriwtio a Derbyn Myfyrwyr. Mae'r wybodaeth yn cael eu harchwilio'n rheolaidd i sicrhau ei bod yn gywir. Mae'r Tîm Ansawdd yn gwirio'r wybodaeth y mae timau staff yn ei chynhyrchu am y cyrsiau er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn adlewyrchu dogfennau diffiniol y rhaglenni a'u modiwlau sy'n cael eu llunio yn rhan o'r gweithdrefnau ar gyfer cymeradwyo ac addasu rhaglenni, ac sy'n cael eu cynnal gan y Tîm Ansawdd. Rhoddwyd digon o sicrwydd i'r tîm fod systemau'r Brifysgol yn briodol i sicrhau bod y wybodaeth y mae'n ei chynhyrchu am ei darpariaeth addysg uwch yn gywir ac yn gyflawn.

196 Mae ymrwymiad y Brifysgol i sicrhau cyfle cyfartal i'w staff a'i myfyrwyr wedi ei ymgorffori yn ei gwerthoedd craidd - bod yn hygyrch, cefnogol, arloesol ac uchelgeisiol. Nod y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yw rhoi gweledigaeth a strategaeth y Brifysgol ar waith er mwyn cefnogi teithiau'r myfyrwyr a'r staff. Gyda chefnogaeth nifer o bolisïau, cynlluniau strategol ac arferion sydd oll yn cyfateb â'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol, mae'r strategaeth yn rhoi manylion y ffyrdd y mae'r Brifysgol yn ymdrechu i sicrhau cyfle cyfartal. Mae'r rhain yn cynnwys y Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (CAC) sy'n berthnasol i'r staff a'r myfyrwyr fel ei gilydd, y Strategaeth Cynorthwyo Dysgu a Chyflawniad Myfyrwyr, a'r Strategaeth Ehangu Mynediad a Chyfranogaeth. Mae cyflawniad amcanion y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cael ei fonitro gan Grŵp Gweithredu CAC y Brifysgol sy'n cyfarfod bob chwarter i drafod y cynnydd a gafwyd a datblygu mentrau ar gyfer sicrhau bod y camau gweithredu gofynnol sydd wedi eu nodi yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn

parhau i gael eu cyflawni. Hefyd, rhoddir diweddariadau chwarterol i Bwyllgor Pobl a Diwylliant y Brifysgol. Mae cofnodion y Grŵp Gweithredu CAC, sy'n cynnwys aelodau o bob rhan o'r Brifysgol a chynrychiolwyr y myfyrwyr, yn nodi amrywiaeth eang o weithgareddau i gefnogi'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol, yn cynnwys, er enghraifft, hyfforddiant i Hyrwyddwyr Lles Gofalwyr yn y Gweithle, gweithgareddau i gefnogi'r wythnos Ymwybyddiaeth o Iechyd Meddwl, sesiynau dysgu a gynhelir yn ystod amser cinio gan y Tîm Dysgu Digidol i wella hygyrchedd, sesiynau hyfforddi yn ymwneud â chydsyniad, cyfarfodydd â chynghorydd Stonewall penodedig y Brifysgol, a gweithgareddau i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Siarter Cydraddoldeb Hiliol.

197 Gwelodd y tîm lawer esiampl o weithgareddau a chynlluniau eraill sydd â'r nod o sicrhau cyfle cyfartal. Mae'r Brifysgol wrthi'n datblygu ei Strategaeth Digidol er mwyn sicrhau bod y dechnoleg yn helpu i ehangu a chydraddoli'r mynediad i ddysgu a chymorth dysgu. Trwy ei strategaethau recriwtio a derbyn myfyrwyr, mae'r Brifysgol yn ymdrechu i ehangu mynediad a sicrhau ei bod yn gynhwysol ac yn deg, a'i bod yn dangos i'r holl grwpiau sut y gallant elwa o gyfleusterau ac adnoddau'r Brifysgol. Elfen ganolog o'r cynllun 'Campws 2025' yw ateb anghenion hygyrchedd. Mae'r Brifysgol yn defnyddio dull strategol o ehangu ei darpariaeth sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ac sy'n gynhwysol i bobl sy'n rhugl yn y Gymraeg a dysgwyr Cymraeg fel ei gilydd. Nod y Strategaeth Partneriaeth Cenhadaeth Ddinesig yw sicrhau bod y Brifysgol ar gael i bawb sy'n byw yn y rhanbarth drwy gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau cymunedol, gan gynnwys drwy sefydlu Prifysgol y Plant, a nod y Strategaeth Menter a'r Strategaeth Cyflogadwyedd yw gwella cyflogadwyedd y graddedigion drwy adolygu'r cwricwlwm a'r arferion dysgu ac addysgu er mwyn sicrhau bod cyfleoedd dysgu cysylltiedig â gwaith ar gael i'r myfyrwyr, yn ogystal â chyfleoedd i ddatblygu cyfres briodol o sgiliau, dealltwriaeth a nodweddion personol i'w galluogi i fynd i mewn i'r gweithle. Mae camau'n cael eu cymryd i sicrhau bod myfyrwyr duon, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig yn cael eu cefnogi er mwyn mynd i'r afael â bylchau mewn cyrhaeddiad. Mae'r Grŵp Cydraddoldeb Hiliol, sef is-grŵp i'r Grŵp Gweithredu CAC, dan gadeiryddiaeth aelod o'r staff academaidd sydd â phrofiad byw personol, yn gweithio i gefnogi'r Siarter Cydraddoldeb Hiliol drwy, er enghraifft, gynnal digwyddiadau rhannu a dathlu Hanes Du yn ystod y flwyddyn ac adolygu a diwygio rhestrau darllen modiwlau.

198 Mae'r strwythur o bwyllgorau'n monitro a oes gan y myfyrwyr i gyd cyfle cyfartal i fynd i mewn i addysg uwch, symud ymlaen a chyflawni, fel y gwelwyd yng nghofnodion y Bwrdd Academaidd. Mae'r bwrdd hwn yn derbyn adroddiadau am fylchau yng nghyrhaeddiad a chyfraddau cwblhau'r myfyrwyr sydd wedi eu dadansoddi fesul rhywedd, ethnigrwydd, oed ac anabledd, adroddiadau diweddaru'r Grŵp Mynediad ac Ymgysylltiad Dysgwyr ac adroddiadau am fonitro cydymffurfiad â'r Cynllun Mynediad a Ffioedd. Mae newidiadau wrthi'n cael eu gwneud i gryfhau'r oruchwyliaeth gan bwyllgorau ar y prosesau o recriwtio a chadw myfyrwyr ac ymgysylltu â nhw, ac ehangu mynediad a chyfranogaeth, drwy greu'r Grŵp Ehangu Mynediad (yn lle'r Grŵp Mynediad ac Ymgysylltiad Dysgwyr) sy'n adrodd i'r Bwrdd Academaidd, a chreu Grŵp Recriwtiad a Chadwraeth Myfyrwyr newydd sy'n adrodd i'r uwch dîm rheoli a'r Bwrdd Academaidd. Daeth y tîm i'r casgliad bod y Brifysgol yn benderfynol ac yn defnyddio dull gwybodus o feithrin cyfle cyfartal a chynhwysiant i'w staff a'i myfyrwyr ymhob agwedd o weithgareddau'r sefydliad.

Craffu'n fanwl ar dystiolaeth i gefnogi'r meini prawf ychwanegol ar gyfer pwerau dyfarnu graddau ymchwil

Maen prawf 1

199 Dyma ddywed y maen prawf hwn:

> *Mae'r modd y mae'r sefydliad yn goruchwylio ei fyfyrwyr ymchwil, ac unrhyw addysgu y mae'n ymgymryd ag ef ar lefel ddoethurol, wedi'i seilio ar lefel uchel o wybodaeth broffesiynol am waith ymchwil cyfredol a gweithgarwch ysgolheigaidd uwch yn ei bynciau astudio.*

Bydd yn ofynnol i'r sefydliad sy'n cyflwyno cais ddangos bod y staff sy'n ymwneud â chyflwyno ei raglenni graddau ymchwil yn meddu ar wybodaeth, dealltwriaeth a phrofiad perthnasol sylweddol yng nghyswllt gwaith ymchwil cyfredol ac ysgolheictod uwch ym maes eu disgyblaeth a bod y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r profiad dan sylw'n llywio ac yn gwella eu goruchwyliaeth a'u haddysgu'n uniongyrchol.

200 Mae'r drafodaeth am Faen prawf C1 hefyd yn ymwneud â rhan o'r dystiolaeth sy'n berthnasol i'r maen prawf hwn.

201 Mewn cydweithrediad â'i chyrff dyfarnu, mae'r Brifysgol wedi datblygu ei pholisïau a'i gweithdrefnau ei hun, ac wedi eu gweithredu'n effeithiol, mewn perthynas â sicrhau bod gan y staff y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r profiad yng nghyswllt gwaith ymchwil ac ysgolheictod uwch sy'n angenrheidiol i hysbysu eu gwaith goruchwylio ac addysgu. Mae corff dyfarnu perthnasol y Brifysgol yn monitro effeithiolrwydd y trefniadau hyn, a gwelwyd tystiolaeth o hyn, er enghraifft, yn adroddiadau'r digwyddiadau adolygu cyfnodol a gynhaliwyd yn llwyddiannus ar y cyd â Phrifysgol Cymru a Phrifysgol Caer, ac yn yr adroddiad am adnewyddu'r cytundeb â Phrifysgol Caer i ddarparu ei rhaglen.

202 Mae'r Brifysgol yn defnyddio dull strategol o sicrhau bod gan ei staff wybodaeth a dealltwriaeth o'r gwaith ymchwil cyfredol a'r ysgolheictod uwch cyfredol yn eu meysydd pwnc er mwyn gwella eu haddysgu, a bod y rheiny sy'n addysgu ar raglenni ymchwil ôl-raddedig yn cymryd rhan weithredol mewn gwaith ymchwil ac ysgolheictod uwch. Disgwylir i bob aelod o staff academaidd y Brifysgol fod â gwybodaeth a dealltwriaeth o'r gwaith ymchwil cyfredol a'r ysgolheictod uwch cyfredol yn eu maes pwnc, a disgwylir hefyd i'r staff wneud gwaith ymchwil ac ysgolheictod uwch a chyfrannu at broffil ymchwil eu cyfadran drwy bennu, gwneud a chwblhau gwaith ymchwil sy'n gysylltiedig ag amcanion ymchwil ehangach y Brifysgol a'i chyfadrannau. Yn 2018, penderfynodd y Brifysgol ofyn hyn gan bob aelod newydd o'r staff academaidd sydd â gradd doethuriaeth yn barod neu sydd ar fin cwblhau wrth iddynt ymuno. Un o'r elfennau oedd yn gyrru hyn oedd yr awydd i fodloni'r meini prawf ar gyfer pwerau DGY. Anogir a chefnogir y staff cyfredol i ennill graddau doethuriaeth a doethuriaeth broffesiynol. Un o brif feysydd gweithredu'r Strategaeth Cynorthwyo Dysgu a Chyflawniad Myfyrwyr yw datblygu cwricwlwm sydd wedi ei hysbysu gan ymchwil. Mae gwaith ymchwil ac ysgolheictod y staff yn cael eu monitro drwy'r broses o werthuso ac adolygu perfformiad y staff - gwelwch isod.

203 Mae'r gofyniad hwn am ymgysylltiad y staff mewn gwaith ymchwil a gweithgarwch ysgolheigaidd wedi ei adlewyrchu yn Strategaeth Ymchwil y Brifysgol a Strategaeth Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2028 a'r cynllun gweithredu cysylltiedig sydd wedi eu cymeradwyo'n ddiweddar, sy'n ymwneud yn y lle cyntaf â datblygu galluoedd y staff a'u capasiti i wneud gwaith ymchwil, y cynnydd mewn gwaith ymchwil, cynyddu'r gyfran o'r staff academaidd sydd ag ymgysylltiad allanol sylweddol mewn perthynas ag ymchwil, paratoi ar gyfer cyflwyno cais i'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil, yn ogystal â gwella'r diwylliant

ymchwil. Mae gan y staff ddealltwriaeth eang o gynlluniau'r Brifysgol. Mewn cyfarfodydd â'r tîm, roedd y staff academaidd a'r staff anacademaidd yn dangos ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad cryf o flaenoriaethau'r Brifysgol ym maes ymchwil a'u rolau o ran rhoi'r uchelgeisiau hyn ar waith.

204 Disgwylir i bob un o ddwy gyfadran y Brifysgol gyfrannu at agenda ymchwil y Brifysgol. Mae gan bob cyfadran Ddeon Cyswllt sy'n gyfrifol am arwain a chefnogi'r gwaith ymchwil a datblygu'r diwylliant ymchwil yn eu cyfadran. Mae strategaethau ymchwil y cyfadrannau a'u cynlluniau gweithredu cysylltiedig yn nodi blaenoriaethau diffiniedig, mesuriadau o lwyddiant a cherrig milltir blynyddol, ac maent yn cael eu monitro gan Fyrddau'r Cyfadrannau a'r Pwyllgor Ymchwil.

205 Mae'r canolfannau ymchwil a'r grwpiau ymchwil sy'n gysylltiedig â phob un o'r cyfadrannau'n canolbwyntio ar waith ymchwil ac yn cefnogi gweithgarwch addysgu. Er enghraifft, mewn cyfarfod diweddar o'r Pwyllgor Ymchwil, cyflwynwyd diweddariadau gan y Ganolfan Ymchwil a Hyfforddiant Uwch Gyfansoddion, y Ganolfan ar gyfer Polymerau sy'n Hydawdd mewn Dŵr a'r Grŵp Ymchwil i Ddylunio, Optimeiddio, Gweithgynhyrchu ac Efelychu Mecaneg Cyfrifiannu (CoMMManDO), ac mae'r rhain yn dangos bod amrywiaeth o weithgareddau'n digwydd, gan gynnwys gwneud ceisiadau am gyllid i brosiectau, gwneud prosiectau ymchwil a gwaith ymgynghori masnachol, a chymryd rhan mewn seminarau cydweithredol a gynhelir ar y cyd â phrifysgolion eraill.

206 Mae Canolfan Dechnoleg OpTIC yn ganolfan fusnes a thechnoleg sy'n gweithredu fel rhan o Arloesiadau Glyndŵr Cyf yn Llanelwy. Ei nod yw cysylltu gwaith ymchwil â gwaith datblygu yn y diwydiant a'r byd academaidd. Y Cyfleuster Cotio Ffilm Tenau yng Nghanolfan Dechnoleg OpTIC yw'r cyntaf o'i fath yng Nghymru. Mae gan grwpiau ymchwil y Brifysgol sydd wedi eu seilio yng Nghanolfan Dechnoleg OpTIC hanes wedi'i brofi o incwm o weithgareddau masnachol a grantiau ymchwil, yn cynnwys gan Raglen Fframwaith 7 yr Undeb Ewropeaidd, Cyngor Ymchwil Peirianneg a Gwyddorau Ffisegol (EPSRC) a Bwrdd Strategaeth Technoleg (TSB) y DU.

207 Mae'r dystiolaeth yn cadarnhau bod gwybodaeth, dealltwriaeth a phrofiad perthnasol sylweddol o'r gwaith ymchwil cyfredol a'r ysgolheictod cyfredol yn eu meysydd pwnc gan y staff hynny sy'n goruchwylio ac addysgu myfyrwyr ymchwil. Mae'r Brifysgol yn casglu data am y gyfran o'i staff academaidd llawn amser sydd â gradd doethuriaeth. Y targed yw cyrraedd 46% erbyn 2025. Cafwyd cynnydd graddol ers 2011, i 43% yn 2020-21. Fodd bynnag, roedd y ganran wedi gostwng i 31% erbyn misoedd olaf 2023, oherwydd mewnlifiad o staff oedd yn gysylltiedig â'r rhaglenni newydd ym maes iechyd, maes lle mae cymwysterau proffesiynol yn tueddu i gael eu pwysleisio dros raddau doethuriaeth. Mewn ymateb i hyn, bydd y Brifysgol yn annog aelodau priodol o staff i ennill gradd doethuriaeth ar sail eu cyhoeddiadau, a graddau doethuriaeth broffesiynol. Mae manylion curricula vitae aelodau'r staff yn cadarnhau bod graddau doethuriaeth gan 37% o'r holl staff academaidd (sef 45% o'r staff academaidd llawn amser), ac roedd 22% arall yn astudio ar gyfer gradd doethuriaeth pan ddaeth y cyfnod craffu i ben. Nid yw dosbarthiad graddau doethuriaeth yn gyfartal ar draws y sefydliad; mae gradd doethuriaeth gan 43% o'r staff academaidd yng Nghyfadran y Celfyddydau, Gwyddoniaeth a Thechnoleg, o'i gymharu â dim ond 32% yng Nghyfadran y Gwyddorau Cymdeithasol a Bywyd.

208 Mae'r wybodaeth a ddarparwyd gan y Brifysgol am ei staff yn nodi bod 44% o'i staff academaidd llawn amser a 20% o'i staff rhan amser wedi gwneud gwaith ymchwil ar y cyd â'u cymheiriaid mewn sefydliad addysg uwch arall yn y DU, yn y tair blynedd yn union cyn i'r Brifysgol gyflwyno ei chais am bwerau DGY, ac mae'n nodi bod cyfran sylweddol o'i staff academaidd llawn amser a rhan amser yn cymryd rhan mewn gwaith ymchwil neu fathau eraill o ysgolheictod uwch sy'n cael eu cydnabod gan y gymuned academaidd ehangach fel rhai sydd â statws cenedlaethol a/neu ryngwladol. Mae hyn yn cynnwys

erthyglau wedi'u cyhoeddi mewn cylchgronau a adolygir gan gymheiriaid, trafodion cynadleddau, penodau, llyfrau ac arddangosfeydd - gwelwch isod.

209 Mae dyrchafiad i safle darllenydd yn gofyn dangos tystiolaeth o gyfraniad nodedig i ddatblygiad maes pwnc. Mae dau lwybr ar gael, un ym meysydd cwricwlwm, dysgu, addysgu a llwyddiant myfyrwyr, a'r llall ym meysydd ymchwil a/neu drosglwyddo gwybodaeth, ymgysylltiad a mentergarwch. Dyfernir Cadeiryddiaeth Bersonol i aelodau unigol o'r staff sydd wedi gwneud cyfraniad rhyngwladol arwyddocaol a nodedig yn eu maes ar un o'r pedwar llwybr a ganlyn: arweinyddiaeth academaidd ym meysydd dysgu ac addysgu; ymchwil ac arloesi; mentergarwch, ymgysylltiad a throsglwyddo gwybodaeth; ac arweinyddiaeth strategol. Mae data hyrwyddo'n dangos bod saith allan o ddeg o'r dyrchafiadau i safle Athro wedi eu dyfarnu ar sail gwaith ymchwil. Mae data curricula vitae aelodau'r staff a'r hunan-ddadansoddiad beirniadol yn dangos bod chwe Darllenydd ac wyth Athro.

210 Cyflwynwyd ceisiadau ar ran cyfran fechan (10%) o'r staff i Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021. Dyma oedd yr unedau asesu y cyflwynwyd ceisiadau staff amdanynt (rhoddir y nifer o staff ar sail gyfwerth ag amser llawn): UoA 11 Cyfrifiadureg (3.5 o staff), UoA12 Peirianneg (8.7 o staff), UoA20 mewn Gwaith Cymdeithasol a Pholisi Cymdeithasol (6.87 o staff) ac UoA32 Celf a Dylunio (3.3 o staff). Cyflwynwyd ceisiadau ar ran deuddeg aelod o staff academaidd Cyfadran y Celfyddydau, Gwyddoniaeth a Thechnoleg (sef 17% o'r cyfanswm) a saith aelod (8%) o staff Cyfadran y Gwyddorau Cymdeithasol a Bywyd. Mae'r nifer fechan o geisiadau a gyflwynwyd ar ran staff yn ganlyniad i'r ffordd y mae'r Brifysgol wedi dewis diffinio cymhwysedd i wneud cais i'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil. Yn ôl aelodau uwch o'r staff, roedd y cymhwysedd i wneud cais i'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil wedi'i benderfynu'n llwyr ar y gallu i fodloni'r meini prawf ar gyfer cael enwebiad yn brif oruchwylwyr i fyfyrwyr ymchwil, a dim arwyddion eraill o weithgaredd ymchwil. Yn ôl y diffiniad hwn, mae'r Brifysgol yn rhagweld y bydd y gyfran o'i staff y cyflwynir ceisiadau ar eu rhan i Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2028 yn dyblu. Mae Strategaeth Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2028 a'r cynllun gweithredu cysylltiedig yn amlinellu'r ffordd y mae'r Brifysgol yn bwriadu cyflawni hynny: hyfforddi nifer fwy o'i staff er mwyn eu hychwanegu at y rhestr o'r rheiny sy'n gymwys i gael eu penodi'n Brif Oruchwylwyr, yn ogystal â chamau gweithredu eraill megis penodi aelodau o'i staff sy'n gwneud gwaith ymchwil a hwyluso datblygiad staff a'u hannog i wneud gwaith ymchwil.

211 Mae'r ddogfen 'Cymeradwyo Unigolion yn Oruchwylwyr Achrededig ar Fyfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig' a Llawlyfr Ansawdd a Safonau Prifysgol Caer yn diffinio'r gofynion ar gyfer derbyn cymeradwyaeth i fod yn oruchwyliwr ar fyfyriwr ymchwil o Brifysgol Caer. Dyma'r gofynion ar gyfer penodi Prif Oruchwylwyr: mae gan yr unigolyn gymhwyster lefel doethuriaeth, neu gymhwyster lefel meistr gyda darn dangosadwy o waith ymchwil annibynnol, ac mae'r unigolyn naill ai'n arbenigwr yn y pwnc sydd wrthi'n gwneud gwaith ymchwil, y gellid ei ddangos drwy hanes o gyhoeddiadau (sy'n cynnwys gwaith a gyhoeddwyd yn ddiweddar neu waith sydd ar droed fel ei gilydd) neu drwy gyfranogaeth weithredol mewn prosiectau parhaus, neu mae'r unigolyn yn ymarferydd arbenigol sydd ag o leiaf deng mlynedd o brofiad proffesiynol mewn maes perthnasol, sy'n cynnwys dal swydd uwch briodol, ac sy'n cymryd rhan mewn prosiectau ymchwil parhaus. Dyma'r meini prawf ar gyfer penodi Cyd-oruchwylwyr: mae'r unigolyn naill ai'n arbenigwr yn y pwnc sydd wrthi'n gwneud gwaith ymchwil, y gellid ei ddangos drwy hanes o gyhoeddiadau (sy'n cynnwys gwaith a gyhoeddwyd yn ddiweddar neu waith sydd ar droed fel ei gilydd) neu drwy gyfranogaeth weithredol mewn prosiectau parhaus, neu mae'r unigolyn yn ymarferydd arbenigol sydd â phrofiad proffesiynol priodol mewn maes perthnasol, sy'n cynnwys dal swydd uwch briodol, ac sy'n cymryd rhan mewn prosiectau ymchwil parhaus. Mae'r wybodaeth am y nifer o oruchwylwyr yn dangos bod 28 o unigolion yn bodloni'r gofynion ar gyfer cael eu henwebu'n Brif Oruchwyliwr, a bod 22 yn bodloni'r gofynion ar gyfer cael eu henwebu'n Gyd-oruchwyliwr. O'r rhain, mae 15 Prif Oruchwyliwr ac 11 Cyd-oruchwyliwr yng

Nghyfadran y Celfyddydau, Gwyddoniaeth a Thechnoleg, a 13 Prif Oruchwyliwr ac 11 Cyd-oruchwyliwr yng Nghyfadran y Gwyddorau Cymdeithasol a Bywyd. Mae'r Brifysgol wedi cymeradwyo ei meini prawf ei hun ar gyfer penodi goruchwylwyr os bydd yn llwyddiannus yn ei chais am bwerau DGY.

212 Fel y nodwyd yn y daenlen drosolwg o ddata am y staff a'u curricula vitae, mae 77 o staff yng Nghyfadran y Celfyddydau, Gwyddoniaeth a Thechnoleg, gan gynnwys pedwar Athro a thri darllenydd. Y ffigurau cyfatebol ar gyfer Cyfadran y Gwyddorau Cymdeithasol a Bywyd yw cyfanswm o 121 o aelodau staff academaidd, gan gynnwys tri Athro a thri darllenydd.

213 Fel y gwelwyd yn y data uchod, mae dosbarthiad gwaith ymchwil rhwng y cyfadrannau wedi ei wyro tuag at Gyfadran y Celfyddydau, Gwyddoniaeth a Thechnoleg, o'i fesur, er enghraifft, yn ôl dosbarthiad y staff sy'n gymwys i gyflwyno gwaith i'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021, y gyfran o'r staff sydd â gradd doethuriaeth, y gyfran o'r athrawon a'r darllenwyr, neu'r gyfran o Brif Oruchwylwyr a Chyd-oruchwylwyr. Y rheswm pennaf am y gwahaniaeth yw bod y gyfran o'r staff sydd â gradd PhD yn is yng Nghyfadran y Gwyddorau Cymdeithasol a Bywyd o'i gymharu â Chyfadran y Celfyddydau, Gwyddoniaeth a Thechnoleg, gan adlewyrchu'r ffaith bod angen nifer uwch o gymwysterau proffesiynol i gefnogi darparu ystod o raglenni sy'n gysylltiedig ag iechyd.

214 Mae'r Brifysgol yn parhau i weithio ar ddatblygu, ymwreiddio a hybu amgylchedd a diwylliant ymchwil cynaliadwy mewn nifer o ffyrdd. Fel y nodwyd uchod, mae gan bob cyfadran ganolfannau ymchwil cysylltiedig sy'n canolbwyntio'n amlwg ar waith ymchwil ac ysgolheictod uwch. Mae'r Pwyllgor Ymchwil yn monitro strategaethau ymchwil y cyfadrannau a gweithgareddau'r canolfannau ymchwil. Mae'r Brifysgol yn parhau i gynyddu nifer y canolfannau ymchwil a'r grwpiau, ar sail meysydd o gryfder. Er enghraifft, yng nghofnodion cyfarfod y Pwyllgor Ymchwil a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2023, nodwyd bod Cyfadran y Gwyddorau Cymdeithasol a Bywyd wrthi'n lansio Sefydliad Ymchwil ar Waith Ieuenctid newydd ei greu. Mae Strategaeth Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2028 a'r cynllun gweithredu cysylltiedig yn nodi camau gweithredu i ddatblygu'r diwylliant ymchwil a'r amgylchedd ymchwil ymhellach, yn cynnwys cynlluniau gwobrwyo a dyfarnu mewnol i gydnabod gwaith ymchwil, mentora i'r aelodau hynny o staff sy'n gwneud gwaith ymchwil ac sy'n is na lefel Athro, a chymorth ariannol i gefnogi a datblygu meysydd ymchwil newydd.

215 Mae'r Brifysgol wrthi'n cynyddu nifer yr aelodau o staff sy'n gwneud gwaith ymchwil drwy gynllunio ei gweithlu, datblygu ei staff cyfredol, penodi staff sydd â gradd doethuriaeth yn barod ac sy'n gallu dangos eu bod yn ymwneud â gwaith ymchwil, a thrwy sicrhau bod y disgrifiadau swydd ar gyfer staff academaidd yn cyfeirio'n eglur at y gofyniad i wneud gwaith ymchwil ac ysgolheictod uwch.

Bydd yn ofynnol i'r sefydliad sy'n cyflwyno cais ddangos bod y staff sy'n ymwneud â chyflwyno ei raglenni graddau ymchwil yn cael cyfleoedd perthnasol o safbwynt datblygu ac arfarnu staff, y bwriedir iddynt eu galluogi i ddatblygu a gwella eu gwybodaeth am waith ymchwil cyfredol ac ysgolheictod uwch.

216 Clustnodir o leiaf 170 o oriau i bob aelod o'r staff academaidd wneud gwaith ymchwil a gweithgarwch ysgolheigaidd; gallai'r nifer hon gael ei chynyddu yn dibynnu ar ofynion y cynllun ymchwil personol y cytunwyd arno, neu i gwblhau llyfr neu ysgrifennu traethawd hir PhD, er enghraifft. Ym mis Hydref 2017, cyflwynwyd cynlluniau ymchwil personol i annog a chefnogi'r staff i wneud gwaith ymchwil, a darparwyd templed gydag esiamplau. Defnyddir y cynlluniau ymchwil personol ym mhroses ADP orfodol y Brifysgol i annog staff academaidd i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r datblygiadau cyfredol ym meysydd ymchwil ac ysgolheictod uwch. Mae'r papurau a gyflwynir cyn pob cyfarfod ADP yn cynnwys naill ai gynllun ysgolheictod neu gynllun ymchwil personol.

Dywedodd y staff academaidd fod y broses ADP yn ddefnyddiol i egluro eu hamcanion a pha gefnogaeth fydd ei hangen arnynt i'w cyflawni. Ail-adolygir yr amcanion sydd wedi eu nodi yn rhan o'r broses ADP yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn er mwyn monitro'r cynnydd. Mae'r cynlluniau wedi cael derbyniad da gan y staff academaidd yn gyffredinol ac mae un gan oddeutu 70% o'r staff erbyn hyn. Roedd y staff academaidd yn gweld Deoniaid eu cyfadrannau'n gefnogol iawn o ran darparu amser i ffwrdd o'r gwaith addysgu iddynt ynghyd â dyletswyddau eraill ar gyfer casglu data, ysgrifennu eu canfyddiadau neu weithgareddau datblygiad proffesiynol. Mae'r cynlluniau ymchwil personol a lunnir i aelodau unigol o'r staff yn nodi eu hanghenion am gefnogaeth er mwyn sicrhau bod y Deoniaid a'r rheolwyr llinell yn ymwybodol o'u hamcanion. Dywedodd aelodau uwch o'r staff academaidd fod y broses o gynlluniau ymchwil personol yn eu helpu i reoli'r rheiny sy'n adrodd iddyn nhw.

217 Yn ei gyfarfod ym mis Ebrill 2023, ystyriodd a chymeradwyodd y Pwyllgor Ymchwil bapur oedd yn cynnig newidiadau i'r prosesau o benodi staff a rhoi hyfforddiant cynefino iddynt, y cyfnod prawf, y broses o adolygu datblygiad perfformiad, y cynllun ymchwil personol, a'r model dyrannu llwyth gwaith, gyda'r nod o ymwreiddio gwaith ymchwil yn fwy eglur ym mhrosesau'r Brifysgol o reoli adnoddau dynol. Mae'r newidiadau'n cynnwys rhoi ystyriaeth benodol yn ystod y broses benodi i allu'r unigolyn i oruchwylio myfyrwyr ymchwil, cynhwysiant gwell y gweithgareddau ymchwil yn y broses o adolygu datblygiad perfformiad, mireinio'r cynllun ymchwil personol, a newidiadau i'r model dyrannu llwyth gwaith er mwyn hwyluso gwaith ymchwil a gweithgarwch ysgolheigaidd. Erbyn hyn, cyflwynir cynlluniau ymchwil personol i'r Swyddfa Ymchwil. Yn dilyn hynny, newidiwyd fformat y cynllun ymchwil personol. Ym mis Ebrill 2023, ystyriodd y Pwyllgor Ymchwil ddiweddariad am y newidiadau, sy'n datgan bod y rhan fwyaf o'r newidiadau wedi eu gweithredu, ac y byddai adolygiad o'r cyfarwyddyd cyfredol a'r drefn gyfredol ar gyfer dyrannu llwyth gwaith i'r fframwaith gwaith ymchwil a gweithgarwch ysgolheigaidd yn dilyn.

218 Yn 2017, treialwyd cynllun mentora i oruchwylwyr ymchwil gyda detholiad o'r staff ymhob rhan o'r Brifysgol, a'i nod oedd datblygu'r capasiti ym maes ymchwil. O ganlyniad i adolygiad o'r cynllun peilot, argymhellwyd cynnal ail gylch yr hyfforddiant i fentoriaid yn ystod haf 2019. Ar adeg yr ymweliad cyntaf gan y tîm, roedd staff yn cael eu recriwtio i gynllun wedi'i adnewyddu oedd wedi cael ei ehangu i gynnwys amrediad ehangach o staff.

219 Fel y nodwyd uchod, mae'r Brifysgol yn cynnal nifer o grwpiau/canolfannau ymchwil sy'n canolbwyntio ar waith ymchwil ac arloesi ac yn darparu seminarau a sesiynau hyfforddi i'r staff a'r myfyrwyr er mwyn annog y staff i gymryd rhan mewn gwaith ymchwil a chefnogi datblygiad diwylliant ymchwil.

220 Mae'r Brifysgol yn cynnig cronfa arian sbarduno i'w staff, i gefnogi prif brosiectau ymchwil i allu gwneud ceisiadau am arian grant allanol, ac mae wedi cefnogi ei staff i gymryd rhan mewn gweithgareddau ymchwil ac ysgolheictod. Hefyd, gall y staff wneud cais am gymorth ariannol i fynd i gynadleddau.

221 Mae'r Brifysgol yn llofnodwr i'r Concordat Datblygu Ymchwilwyr sydd â'r nod o gefnogi datblygiad ymchwilwyr yn y DU, ac mae wedi datblygu rhaglen hyfforddi ar gyfer 2023-24 i ddatblygu ymchwilwyr sydd wedi ei mapio yn erbyn Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr y DU. Mae'r rhaglen hon ar gael i'r staff a'r myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig fel ei gilydd, ond mae rhai o'r sesiynau ar gael i'r staff yn unig, ac mae'n cynnwys ystod gynhwysfawr o weithgareddau hyfforddi, datblygu a chefnogi staff sydd ar wahanol gamau yn eu gyrfaoedd ymchwil.

222 Mae nifer o fforymau ar gyfer cefnogi staff a rhannu canlyniadau gwaith ymchwil, yn cynnwys boreau coffi, 'Drws Agored i Ymchwilwyr', y gystadleuaeth 'Ymchwil Delweddu' flynyddol, sesiynau dysgu byrion ar amseroedd cinio, a darlithwyr allanol gwadd.

Profion yn erbyn meincnodau

223 Yn ei hunan-ddadansoddiad beirniadol, roedd y Brifysgol yn cynnwys ei dadansoddiad o weithgareddau ei staff ym mlynyddoedd 2019, 2020 a 2021 yn erbyn y meincnodau prawf, y diffiniadau a ddefnyddiwyd ganddi yn ei dadansoddiad, a'r data a gafwyd o ganlyniad iddo. Hefyd, darparwyd taenlen fanwl sy'n dadansoddi data am raddau, profiadau, gweithgareddau a chyflawniadau'r staff academaidd, mewn dogfen ar wahân i gefnogi cyflwyniad y Brifysgol. Yn ogystal, derbyniodd y tîm y gronfa ddata o wybodaeth curricula vitae pob aelod o'r staff sy'n rhoi gwybodaeth fanwl am y gweithgareddau sy'n berthnasol i ddiffiniadau'r Brifysgol o waith ymchwil ac ysgolheictod uwch a ddefnyddiwyd yn y profion yn erbyn y meincnodau. Roedd y gronfa ddata'n cynnwys nodiadau esboniadol gyda dolenni 'byw' at gyhoeddiadau a chynhyrchion eraill, lle'r oedd hynny ar gael. Trwy graffu ar y gronfa o ddata curricula vitae, gwelwyd bod dadansoddiad y Brifysgol ei hun yn erbyn y metrigau'n cyfateb â dadansoddiad y tîm.

Yn ogystal, bydd yn ofynnol i'r sefydliad sy'n cyflwyno cais ddarparu tystiolaeth i ddangos bod cyfran sylweddol o'i staff academaidd llawn-amser (o leiaf tua hanner fel rheol) yn gyfranwyr gweithgar a chydnabyddedig i gymdeithasau pynciau, cymdeithasau dysgedig a chyrff proffesiynol perthnasol.

224 Mae'r hunan-ddadansoddiad beirniadol yn rhoi diffiniadau manwl o'r ffordd yr oedd y Brifysgol yn dehongli'r termau 'corff proffesiynol', 'cymdeithas ddysgedig' a 'chymdeithas bwnc'. Mae'r diffiniadau a roddwyd yn cyfateb â'r ddealltwriaeth gyffredinol o'r termau hyn drwy'r sector cyfan. Mae'r hunan-ddadansoddiad beirniadol hefyd yn diffinio dealltwriaeth y Brifysgol o'r term 'aelodau gweithgar a chydnabyddedig' yn yr ystyr o gyfranogaeth mewn gweithgareddau sy'n galluogi i'r staff academaidd ddatblygu eu harbenigedd, eu gwybodaeth a'u harferion eu hunain a'u cydweithwyr yn eu meysydd academaidd, neu wella amgylchedd ymchwil eu pwnc neu amgylchedd ymchwil y Brifysgol.

225 Mae'r hunan-ddadansoddiad beirniadol yn dangos bod 53%, 59%, a 50% o'r staff llawn amser yn ystod y flwyddyn hyd at fis Tachwedd 2021 ac yn y ddwy flynedd flaenorol, yn y drefn honno, yn gyfranwyr gweithgar a chydnabyddedig i gymdeithasau proffesiynol, cymdeithasau dysgedig neu gymdeithasau pynciau. Mae'r dadansoddiad a wnaed gan y tîm o wybodaeth curricula vitae'r staff yn cefnogi'r dadansoddiad a ddarparwyd gan y Brifysgol yn ei hunan-ddadansoddiad beirniadol, ac mae'n rhoi'r wybodaeth CV sy'n ofynnol i atgyfnerthu ei honiad. Mae'r dystiolaeth hon yn dangos bod 48% o'r staff academaidd (53% o'r staff academaidd llawn amser) yn bodloni'r maen prawf. Felly, daeth y tîm i'r casgliad bod y prawf yn erbyn y meincnod wedi ei basio.

Yn ogystal, bydd yn ofynnol i'r sefydliad sy'n cyflwyno cais ddarparu tystiolaeth i ddangos bod cyfran sylweddol o'i staff academaidd (o leiaf tua un o bob tri fel rheol) wedi cael profiad personol diweddar (hynny yw, yn ystod y tair blynedd diwethaf) o weithgarwch ymchwil mewn sefydliadau prifysgol eraill yn y DU neu dramor drwy, er enghraifft, fod yn arholwyr allanol ar gyfer graddau ymchwil, bod yn aelodau o banelau dilysu/adolygu, neu gyfrannu i brosiectau ymchwil cydweithredol gyda sefydliadau eraill.

226 Dyma'r gyfran o staff llawn amser y Brifysgol oedd yn bodloni'r maen prawf hwn: 41% (2019), 46% (2020) a 44% (2021). Os cynhwysir y staff academaidd i gyd, y cyfrannau sy'n bodloni'r meini prawf yw 32.4%, 37.7%, a 36.0%. Mae'r wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan y Brifysgol am curricula vitae ei staff yn cadarnhau'r nifer ar gyfer 2021 ac yn darparu'r wybodaeth CV sy'n ofynnol i atgyfnerthu ei honiad; roedd 36% o'r staff academaidd (sef 43% o'r staff academaidd llawn amser) yn bodloni'r maen prawf. Felly, daeth y tîm i'r casgliad bod y prawf yn erbyn y meincnod wedi ei basio.

Yn ogystal, bydd yn ofynnol i'r sefydliad sy'n cyflwyno cais ddarparu tystiolaeth i ddangos bod cyfran sylweddol o'i staff academaidd (o leiaf tua un o bob tri fel rheol)

sy'n ymwneud â gwaith ymchwil neu ffurfiau eraill ar ysgolheictod uwch yn gallu dangos tasgau a gyflawnwyd y mae'r gymuned academaidd ehangach yn cydnabod eu bod o statws cenedlaethol a/neu ryngwladol (er enghraifft, fel y nodwyd gan adolygiadau awdurdodol gan gymheiriaid allanol).

227 Yn ei hunan-ddadansoddiad beirniadol, mae'r Brifysgol yn seilio ei diffiniad o waith ymchwil ar eiriad Asesiad Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021 a'r canllawiau cysylltiedig am gyflwyno cais, sy'n nodi "…Mae'r term 'gwaith ymchwil' wedi ei ddiffinio fel proses ymchwilio sy'n arwain at ganfyddiadau newydd, sy'n cael eu rhannu'n effeithiol. Mae'n cynnwys gwaith sy'n benodol berthnasol i anghenion byd masnach a diwydiant a'r sectorau cyhoeddus a gwirfoddol; gweithgarwch ysgolheigaidd; arloesi a chreu syniadau, lluniau, perfformiadau, gweithiau celf a dyluniadau sy'n arwain at ganfyddiadau sy'n newydd neu sydd wedi eu gwella'n sylweddol; yn ogystal â defnyddio'r wybodaeth bresennol mewn gwaith datblygu arbrofol i gynhyrchu defnyddiau, dyfeisiau, cynhyrchion a phrosesau sy'n newydd neu sydd wedi eu gwella'n sylweddol, yn cynnwys ym meysydd dylunio ac adeiladu".

228 Mae'r Brifysgol hefyd yn cynnwys gwaith ymchwil sy'n ymwneud â gwella arferion proffesiynol, er enghraifft, mewn addysg, iechyd a gofal cymdeithasol, lle defnyddir prosesau ymholi a hunanystyried beirniadol i wella arferion personol a phroffesiynol. Mae'r hunan-ddadansoddiad beirniadol yn rhestru'r gweithgareddau a'u cynhyrchion a ddefnyddiwyd i ddangos gwaith ymchwil. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- profiad o wneud gwaith ymchwil mewn prifysgolion eraill yn y DU neu dramor
- awduraeth llyfrau a phenodau ohonynt
- erthyglau wedi'u cyhoeddi mewn cylchgronau rhyngwladol a adolygir gan gymheiriaid neu mewn trafodion cynadleddau
- arddangosfeydd, perfformiadau, darllediadau, gweithiau ffotograffig neu weithiau celf, neu weithiau ar y we, wedi'u comisiynu
- gweithiau ysgrifenedig creadigol, wedi'u cyhoeddi neu eu perfformio
- ceisiadau am batentau a dyfarniadau o batentau, wedi'u cyhoeddi
- derbyn cymorth ariannol gan gyngor ymchwil i wneud gwaith ymchwil
- gwaith sy'n ymwneud â darganfod, arloesi neu wella systemau, prosesau neu ddyfeisiau newydd
- rhyngweithio â byd busnes, y diwydiant, y proffesiynau a'r sector cyhoeddus, sy'n arwain at ddatblygu cynhyrchion neu weithdrefnau newydd
- cytundeb trwyddedu
- gweithio fel golygydd cylchgrawn neu wasanaethu fel aelod o fwrdd golygyddol
- dyfarnu cylchgrawn arbenigol neu geisiadau am gymorth ariannol
- gwasanaethu fel aelod o banelau dyrannu grantiau
- goruchwylio myfyrwyr ymchwil.

229 Y diffiniad o'r term 'ysgolheictod uwch' a ddefnyddir gan y Brifysgol yw ailddehongli'n feirniadol, cymhwyso a throsglwyddo'r wybodaeth bresennol.

230 Ar sail y diffiniadau hyn o waith ymchwil a gweithgarwch ysgolheigaidd a gydnabyddir yn genedlaethol neu'n rhyngwladol, mae hunan-ddadansoddiad beirniadol y Brifysgol yn nodi mai'r gyfran o'r staff academaidd llawn amser sy'n gallu dangos gweithgarwch o'r fath ar gyfer y tair blynedd yw 60%, 66%, a 59%. Y cyfrannau cyfatebol ar gyfer y staff academaidd cyfan yw 50.3%, 50.6%, a 51.5%.

231 Mewn ymateb i gais gan y tîm, darparwyd gwybodaeth gan y Brifysgol am curricula vitae ei staff sy'n cadarnhau hyn ac sy'n darparu'r wybodaeth CV sy'n ofynnol i atgyfnerthu ei honiad. Mae hyn yn dangos bod 52% o'r staff academaidd (sef 59% o'r staff academaidd llawn amser), a 79% o'r staff, sydd wedi eu diffinio fel rhai sy'n cymryd rhan mewn gwaith ymchwil neu ysgolheictod yng nghyswllt Meincnod 2, wedi cyrraedd Meincnod 3. Felly, daeth y tîm i'r casgliad bod y prawf yn erbyn y meincnod wedi ei basio.

Maen prawf 2

232 Dyma ddywed y maen prawf hwn:

> *Mae'r sefydliad yn bodloni canllawiau cenedlaethol perthnasol sy'n ymwneud â dyfarnu graddau ymchwil.*

Bydd yn ofynnol i'r sefydliad sy'n cyflwyno cais ddangos ei fod yn bodloni, neu fod ganddo'r gallu i fodloni, disgwyliadau'r Fframweithiau Cymwysterau sy'n ymwneud â lefelau ei raglenni graddau ymchwil.

233 Ar hyn o bryd, mae Prifysgol Caer, ei chorff dyfarnu, yn gyfrifol am sicrhau bod graddau ymchwil a ddarperir gan y Brifysgol yn cyfateb â'r FHEQ. Mae Prifysgol Caer yn monitro ei phartneriaeth â Phrifysgol Wrecsam drwy ei hadolygu'n gyfnodol, a thrwy gynnal cyfarfodydd Cydbwyllgorau Rhaglenni.

234 Am ei bod yn disgwyl derbyn pwerau DGY, mae'r Brifysgol wedi cymeradwyo ei rheoliadau academaidd ei hun ar gyfer dyfarnu graddau ymchwil ôl-raddedig, yn unol â'r FHEQ - gwelwch y drafodaeth am Faen prawf B1. Mae'r trefniadau ar gyfer trosglwyddo myfyrwyr rhwng Prifysgol Caer a Phrifysgol Wrecsam sydd eisiau ennill gradd ymchwil y brifysgol arall wedi cael eu trafod mewn cyfarfodydd ymchwil, ac mae rheoliadau yn eu lle i roi'r dewis i'r myfyrwyr ôl-raddedig cofrestredig naill ai aros yn gofrestredig gyda Phrifysgol Caer neu drosglwyddo i Brifysgol Wrecsam.

235 Defnyddir arholwyr mewnol ac allanol sydd â'r cymwysterau priodol i fonitro bod y rhaglenni ymchwil a'u safonau'n cyfateb â'r fframweithiau cymwysterau. Bu'r tîm yn craffu ar esiamplau o draethodau hirion PhD cyflawn, yn ogystal â thempledi i arholwyr mewnol ac allanol fel ei gilydd ysgrifennu adroddiadau am gyrsiau gradd doethuriaeth, gan gynnwys y rheiny a ddarperir o dan reoliadau Prifysgol Cymru, ac am gyrsiau gradd doethuriaeth broffesiynol, a gwelwyd tystiolaeth i ddangos bod proses asesu Prifysgol Wrecsam wedi ei gweithredu'n gyson, a bod y myfyrwyr wedi cyrraedd y lefel briodol.

236 Ar sail y dystiolaeth, daeth y tîm i'r casgliad bod y Brifysgol yn bodloni disgwyliadau'r Fframweithiau Cymwysterau mewn perthynas â lefelau ei rhaglenni gradd ymchwil.

Bydd yn ofynnol i'r sefydliad sy'n cyflwyno cais ddangos ei fod yn bodloni, neu fod ganddo'r gallu i fodloni, disgwyliadau Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU.

237 Fel sydd wedi ei nodi mewn perthynas â Meini prawf A, ac fel sydd wedi ei drafod eisoes yn yr adroddiad hwn, mae'r Brifysgol yn mapio ei phrosesau'n rheolaidd yn erbyn disgwyliadau Cod Ansawdd y DU a'r canllawiau cysylltiedig, ac mae ei rheoliadau, ei pholisïau a'i gweithdrefnau, gan gynnwys y rheiny sy'n berthnasol i hyfforddi myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig, wedi eu diffinio yn y cyd-destun hwnnw. Yn ogystal, mae'r Brifysgol wedi mapio ei phrosesau sy'n ymwneud â myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig yn erbyn Cod Ansawdd y DU, y cyngor ac arweiniad perthnasol a manylebau'r graddau ymchwil.

238 Mae systemau wedi eu diffinio'n glir ar gyfer llywodraethu rhaglenni ymchwil a rheoli materion academaidd cysylltiedig - gwelwch hefyd A1. Mae gan y Pwyllgor Ymchwil rôl

ganolog yn y gwaith o oruchwylio gweithgareddau ymchwil y Brifysgol, ac mae'n rhoi adroddiadau i'r Bwrdd Academaidd am raglenni gradd ymchwil. Mae Is-bwyllgor Graddau Ymchwil y Brifysgol yn adrodd i'r Pwyllgor Ymchwil ac yn ystyried materion yn ymwneud â'r myfyrwyr, fel derbyniad, cynnydd, monitro blynyddol, argymhellion am ddyfarnu graddau, a cheisiadau am gymryd egwyl. Mae'r Pwyllgor Ymchwil wedi dirprwyo pwerau i'r Pwyllgor Moeseg Ymchwil i ystyried cynigion gan fyfyrwyr ôl-raddedig. Cafodd y tîm gyfle i ddarllen canllawiau a thempledi ar gyfer gwneud cais am gymeradwyaeth foesegol. Mae'r Brifysgol yn llofnodwr i Goncordat Uniondeb Gwaith Ymchwil y DU, ac mae'n cynhyrchu adroddiad blynyddol am uniondeb gwaith ymchwil i'w Bwrdd Llywodraethwyr.

239 Mae'r Swyddfa Ymchwil, dan arweinyddiaeth Pennaeth y Gwasanaethau Ymchwil, yn gyfrifol am hyfforddi ymchwilwyr a chael cymeradwyaeth foesegol i'w gwaith ymchwil (ar lefelau ôl-raddedig ac israddedig fel ei gilydd) gan yr Is-bwyllgor Moeseg Ymchwil. Mae'r Tiwtor Datblygu Ymchwilwyr yn llunio'r rhaglen hyfforddi i fyfyrwyr ymchwil - gwelwch isod. Mae systemau gweinyddol y Brifysgol yn cefnogi'r myfyrwyr ymchwil drwy gydol eu taith astudio o'r cam derbyn hyd y graddio.

240 Canfu'r tîm fod y Brifysgol yn darparu gwybodaeth eglur a hygyrch i'w myfyrwyr ymchwil a'i staff. Ar ei gwefan, mae'r Brifysgol yn cyhoeddi gwybodaeth am y cyrsiau gradd ymchwil, y broses o ymgeisio a derbyn myfyrwyr, a'r trefniadau ar gyfer cefnogi gwaith ymchwil. Wrth gofrestru, mae pob myfyriwr yn derbyn llawlyfr gyda gwybodaeth allweddol, er enghraifft, am y trefniadau asesu, ac yn cynnwys cyfeiriadau at adnoddau eraill, megis y rheoliadau perthnasol. Mae'r rheoliadau, y ffurflenni a'r canllawiau sy'n berthnasol i ddarpariaeth ymchwil ôl-raddedig ar gael ar y porth Gweinyddu Myfyrwyr, ac maent yn cael eu diweddaru'n rheolaidd. O bryd i'w gilydd, mae swyddog y Gyfarwyddiaeth Cynllunio Strategol a Gweinyddu Myfyrwyr neu'r Swyddog Datblygu Graddedigion, fel y bo'n briodol, yn cysylltu â'r staff a'r myfyrwyr i drafod materion sy'n berthnasol i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig, er enghraifft, dyddiadau digwyddiadau rhaglenni hyfforddi i ddatblygu sgiliau, a newidiadau yn y polisïau neu'r gweithdrefnau sy'n effeithio arnyn nhw neu ar astudiaethau'r myfyrwyr. Mae hawliau a chyfrifoldebau'r myfyrwyr ymchwil wedi eu hesbonio'n glir yn y rheoliadau graddau ymchwil a llawlyfrau'r myfyrwyr. Yn rhan o'r broses dderbyn, mae panel, sy'n cynnwys y tîm goruchwylio a Deon neu Ddeon Cyswllt y gyfadran berthnasol, yn cyfweld yr ymgeisydd ac yn ystyried gwybodaeth ac arbenigedd yr ymgeisydd yn y pwnc penodol er mwyn canfod pa faes ymchwil yn y Brifysgol fyddai'n cyfateb orau â maes ymchwil ac arbenigedd pwnc-benodol yr ymgeisydd, ac a fyddai'r cyfleusterau ffisegol a'r adnoddau dysgu sydd ar gael yn briodol. Dywedodd y myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig eu bod yn gweld y broses o ymgeisio a derbyn myfyrwyr yn eglur ac yn llawn gwybodaeth, eu bod wedi derbyn gwybodaeth am reoliadau ac asesiadau, a'u bod yn gallu cysylltu â'u goruchwylwyr yn rheolaidd ac yn hawdd pan fo'r gofyn.

241 Mae'r Brifysgol yn darparu amgylchedd cefnogol a chynhwysol i'w myfyrwyr ymchwil, ac mae amrywiaeth o gyfleoedd datblygiad proffesiynol ar gael iddyn nhw. Fel sydd wedi ei nodi ym Maen prawf C1, ac ym Maen prawf 1 ar gyfer pwerau DGY, mae canolfannau ymchwil yn gysylltiedig â phob cyfadran. Wrth gofrestru, dyrennir pob myfyriwr ymchwil i'r ganolfan ymchwil sy'n adlewyrchu eu harbenigedd. Mae'r Brifysgol yn llofnodwr i'r Concordat Datblygu Ymchwilwyr, ac mae ganddi raglen datblygu ymchwilwyr sydd wedi ei mapio yn erbyn Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr y DU. Yn rhan o'r rhaglen hon, darperir sesiynau cynefino cychwynnol i'r myfyrwyr a datblygiad parhaus drwy gydol y broses o'u cofrestru. Mae'r rhaglen yn cynnwys sesiynau am ddulliau ymchwil, uniondeb ymchwilwyr, cymeradwyaeth foesegol, yn ogystal â'r gwaith paratoi ar gyfer yr arholiad ar lafar. Mae'r dystiolaeth yn cadarnhau bod nifer dda o fyfyrwyr wedi cymryd rhan yn y sesiynau, a bod y myfyrwyr wedi rhoi adborth cadarnhaol ar eu profiad. Hefyd, yn ddiweddar mae'r Brifysgol wedi treialu rhaglen i hybu hyder mewn gwneud gwaith ymchwil, gan adeiladu ar y rhaglen i ddatblygu ymchwilwyr er mwyn galluogi i'r myfyrwyr gyflawni tystysgrif ôl-raddedig.

242 Anogir y myfyrwyr i gymryd rhan mewn amrywiaeth o fforymau a gweithgareddau er mwyn hwyluso rhwydweithio, a rhannu eu profiad, eu gwybodaeth, eu harbenigedd a chanlyniadau eu gwaith ymchwil. Mae'r rhain yn cynnwys boreau coffi, 'Drws Agored i Ymchwilwyr', y gystadleuaeth 'Ymchwil Delweddu' flynyddol a darlithwyr allanol gwadd.

243 Mae'r Brifysgol yn ymateb i adborth gan ei myfyrwyr er mwyn gwella'r amgylchedd ymchwil. Cynrychiolir y myfyrwyr ôl-raddedig ar y Pwyllgor Ymchwil, ac mae cofnodion ei gyfarfodydd yn dangos bod adborth gan gynrychiolwyr y myfyrwyr wedi ei ystyried mewn ffordd systematig, a bod problemau a godwyd gan y myfyrwyr wedi eu datrys. Yn hanesyddol, mae'r Brifysgol wedi cynnal ei harolwg ei hun o brofiadau ei myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig. Yn 2023, mae'r Brifysgol wedi dechrau cymryd rhan yn yr Arolwg Profiad Myfyrwyr Ymchwil ÔI-raddedig a gynhelir ar lefel genedlaethol. Mae'r canlyniadau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Ymchwil yn 2023 yn dangos cyfradd ymateb isel - deg myfyriwr allan o'r 49 posibl. Serch hynny, roedd 80% o'r myfyrwyr a ymatebodd yn fodlon gyda'u hamgylchedd ymchwil a'r cyfleoedd oedd ar gael iddynt i ddatblygu fel ymchwilwyr. Lluniwyd cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r meysydd sydd angen eu datblygu, ac mae'n cynnwys gwneud y myfyrwyr yn fwy ymwybodol o'r cymorth ariannol sydd ar gael iddynt i fynd i gynadleddau, trefnu boreau 'coffi a chacen' penodol i fyfyrwyr ymchwil, a darparu rhagor o hyfforddiant ynglŷn â sut i ysgrifennu papurau sydd i gael eu cyhoeddi. Mae'r cyfrifoldebau am y camau gweithredu wedi eu dyrannu'n glir, gydag amseriadau a mesuriadau o lwyddiant.

244 Mae gan y Brifysgol weithdrefnau hygyrch i'w myfyrwyr ar gyfer cwynion ac apeliadau academaidd, ac mae ei myfyrwyr ymchwil yn eu defnyddio. Roedd esiampl o gŵyn y mae'r Brifysgol wedi ei derbyn gan un o'i myfyrwyr ymchwil yn dangos bod y mater wedi'i drin yn unol â'r drefn gyhoeddedig. Ers blwyddyn academaidd 2019-20, dim ond un apêl academaidd y mae'r Brifysgol wedi'i dderbyn gan fyfyriwr ymchwil. Mae'r ffurflen gais, adroddiad yr ymchwiliad a'r llythyr sy'n nodi ei ganlyniadau'n dangos bod y mater wedi ei ddatrys yn unol â'r gweithdrefnau cyhoeddedig. Rhoddir adroddiad cryno am gwynion ac apeliadau academaidd gan fyfyrwyr i'r Pwyllgor ADA - gwelwch Faen prawf Ch1.

245 I hybu cydraddoldeb a chynhwysiant, anogir pob aelod o'r staff i gymryd rhan mewn hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (CAC) yn rhan o'u hyfforddiant cynefino a/neu eu datblygiad proffesiynol parhaus. Cynhelir sesiynau misol poblogaidd ar bynciau fel cysyniadau allweddol yn ymwneud â CAC, deall goblygiadau'r Ddeddf Cydraddoldeb a phwy sy'n cael eu diogelu, trosolwg o'r gwahanol fathau o gamwahaniaethu, deall agweddau/stereoteipiau a rhagfarn, a chydnabod pwysigrwydd defnyddio ieithwedd dderbyniol. Mae seilwaith cymorth myfyrwyr cyfan y Brifysgol (gwelwch Faen prawf Ch1) ar gael i'r myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig, ac mae hyn yn cynnwys gwasanaethau cynhwysiant i gefnogi myfyrwyr ag anableddau.

246 Canfu'r tîm fod y sgiliau priodol gan y goruchwylwyr, a'u bod yn derbyn cefnogaeth addas. I fyfyrwyr cofrestredig Prifysgol Caer, cynigir aelodau ar gyfer y tîm goruchwylio drwy'r broses o gymeradwyo derbyniadau myfyrwyr, a chytunir arnynt gan diwtor cyswllt Prifysgol Caer i Brifysgol Wrecsam. Rhaid i'r tîm goruchwylio gynnwys o leiaf ddau berson. Penodir un o'r goruchwylwyr ar y tîm i fod yn Brif Oruchwyliwr sy'n golygu mai ganddyn nhw y mae'r rhan fwyaf o'r cyfrifoldeb, ac mae dyletswyddau'n gysylltiedig â'r rôl honno. Mae'n rhaid i'r Prif Oruchwyliwr fod yn aelod o staff cyflogedig y Brifysgol. Mae'r ddogfen 'Cymeradwyo Unigolion yn Oruchwylwyr Achrededig ar Fyfyrwyr Ymchwil ÔI-raddedig' a Llawlyfr Ansawdd a Safonau Prifysgol Caer yn rhoi diffiniad clir o'r gofynion ar gyfer derbyn cymeradwyaeth i fod yn oruchwyliwr ar fyfyriwr ymchwil o Brifysgol Caer, gan gynnwys gwneud gwaith ymchwil a chyflawni ysgolheictod uwch. Am ei bod yn disgwyl derbyn pwerau DGY, mae'r Brifysgol wedi datblygu ei rheoliadau ei hun ar gyfer penodi goruchwylwyr. Mae'r wybodaeth a ddarparwyd gan y Brifysgol ym mis Hydref 2023 yn dangos bod 27 o unigolion yn bodloni'r gofynion ar gyfer cael eu henwebu'n Brif

Oruchwyliwr, a bod 22 yn bodloni'r gofynion ar gyfer cael eu henwebu'n Gyd-oruchwyliwr. Mae'r gofrestr o oruchwylwyr a'u llwyth gwaith yn cael eu monitro gan Is-bwyllgor Graddau Ymchwil y Brifysgol sy'n adrodd i'r Pwyllgor Ymchwil.

247 Mae yna raglen sefydledig ar gyfer hyfforddi goruchwylwyr myfyrwyr doethuriaeth sy'n ymwneud â materion megis dethol, cyfweld, derbyn, monitro, trosglwyddo/symud ymlaen ac arholi myfyrwyr, ac sy'n arwain yn y pen draw at gymeradwyo unigolyn yn oruchwyliwr achrededig ar fyfyriwr ymchwil ôl-raddedig. Mae hyn yn berthnasol hefyd i bob Cyd-oruchwyliwr o'r tu allan i Brifysgol Wrecsam. Hefyd, mae'r Brifysgol yn trefnu sesiynau hyfforddi i ddiweddaru gwybodaeth goruchwylwyr, os bydd y rheoliadau'n newid neu am resymau penodol eraill, er enghraifft, cafwyd newid diweddar lle derbyniodd y Brifysgol ganiatâd gan Brifysgol Caer i gadeirio arholiadau ar lafar o hyn ymlaen, yn lle cadeirydd Prifysgol Caer fel o'r blaen.

248 Mae Llawlyfr Ansawdd a Safonau Prifysgol Caer yn diffinio'r rheoliadau a'r mecanweithiau'n fanwl ar gyfer monitro a chefnogi cynnydd y myfyrwyr. Er enghraifft, gosodwyd y gofyniad i bob myfyriwr fynd drwy broses fonitro flynyddol, y gofyniad i gael arholiad ar lafar er mwyn trosglwyddo o MPhil i PhD, a'r gofyniad i gymryd rhan mewn cyfarfodydd goruchwylio rheolaidd.

249 Gofynnir i bob goruchwyliwr gyfarfod yn rheolaidd â'u myfyrwyr a chofnodi'r cyfarfod yn ffurfiol. Ar gyrsiau gradd meistr mewn athroniaeth (MPhil) a doethur mewn athroniaeth (PhD), mae'n rhaid i'r myfyrwyr gyfarfod â'u goruchwyliwr o leiaf ddeuddeg gwaith y flwyddyn (unwaith y mis) i fyfyrwyr llawn amser ac o leiaf chwe gwaith y flwyddyn (bob deufis) i fyfyrwyr rhan amser. Mae trosglwyddiad o radd doethuriaeth dros dro i radd doethuriaeth wedi'i chadarnhau'n digwydd rhwng misoedd 12 ac 18 (misoedd 18 i 24 i fyfyrwyr rhan amser), wedi i'r myfyriwr drafod gyda'r tîm goruchwylio, llwyddo yn yr arholiad ar lafar sy'n rhoi pwyslais ar ymchwil, a chwblhau ffurflenni sy'n dangos eu bod wedi ymgysylltu'n ddigonol â'u hastudiaethau. Gwelodd y tîm dystiolaeth bod hyn yn digwydd mewn esiamplau o adroddiadau goruchwylwyr.

250 Yn ogystal â chyfarfodydd rheolaidd gyda'u goruchwylwyr, mae gofyn i fyfyrwyr cofrestredig Prifysgol Caer gwblhau adroddiad cynnydd blynyddol 12 mis ar ôl eu dyddiad cofrestru, lle gofynnir iddynt adfyfyrio ar eu cynnydd ers yr adolygiad diwethaf a thynnu sylw at unrhyw gerrig milltir y maent wedi eu cyrraedd neu unrhyw broblemau y maent wedi eu hwynebu. Hefyd, mae'r Prif Oruchwyliwr yn cwblhau adran ar y ffurflen, a'r ddau adroddiad yn cael eu hadolygu gan aseswr annibynnol. Mae Is-bwyllgor Graddau Ymchwil y Brifysgol yn craffu ar yr adroddiadau cynnydd hyn.

251 Ar sail y dystiolaeth sydd wedi ei hadolygu uchod ac mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn, daeth y tîm i'r casgliad bod y Brifysgol yn bodloni disgwyliadau Cod Ansawdd y DU a'r cyngor a'r arweiniad cysylltiedig ar gyfer graddau ymchwil ôl-raddedig.

Bydd yn ofynnol i'r sefydliad sy'n cyflwyno cais ddangos ei fod yn bodloni, neu fod ganddo'r gallu i fodloni, disgwyliadau fframweithiau rheoli graddau ymchwil a gyhoeddir gan gynghorau ymchwil perthnasol, cyrff cyllido a chyrff proffesiynol/statudol.

252 Ar hyn o bryd, nid oes gan y Brifysgol unrhyw ysgoloriaethau a ariennir gan gynghorau ymchwil, ac felly nid oes gofyniad arni i weithredu unrhyw fframweithiau rheoli graddau ymchwil. Am ei bod yn disgwyl i nifer ei myfyrwyr a nifer y grantiau ymchwil gynyddu, mae'r Brifysgol wedi mapio ei phrosesau yn erbyn y canllawiau am grantiau ar gyfer hyfforddiant a'r datganiad o ddisgwyliadau ar gyfer hyfforddiant doethurol, a gyhoeddwyd gan Ymchwil ac Arloesi'r DU. Bu'r tîm yn craffu ar y ddogfennaeth fapio, ac mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn dangos bod gan y Brifysgol bolisïau a gweithdrefnau perthnasol a'i bod yn gallu bodloni'r disgwyliadau a'r canllawiau.

Maen prawf 3

253 Dyma ddywed y maen prawf hwn:

Mae'r sefydliad sy'n cyflwyno cais wedi llwyddo i roi dros 30 o raddau doethurol, a ddyfarnwyd drwy brifysgolion partner yn y DU.

254 Mae'r Brifysgol wedi llwyddo i sicrhau 258 o gyflwyniadau graddau doethuriaeth i'w myfyrwyr, a ddyfarnwyd drwy ei phrifysgolion partner yn y DU.

QAAXXX - RXXX - Mis 24

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2024
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw, GL1 1UB
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786

Ffôn: 01452 557000
Gwefan: www.qaa.ac.uk